# Crynodeb o gynllun gwaith Bwrdd Gweithredol y BBC ar gyfer 2012/13

**Mai 2012**

# Datganiad gan yr Uwch Gyfarwyddwr Annibynnol

Dyma'r ail gynllun gwaith blynyddol i gael ei gyhoeddi gan Fwrdd Gweithredol y BBC. Mae'n crynhoi strategaeth, amcanion a chyllideb amlinellol y BBC ar gyfer y flwyddyn sydd i ddod ynghyd â datblygiadau nodedig.

Mae cyhoeddi'r cynllun gwaith hwn yn rhan o ymrwymiad y BBC i fod yn agored a thryloyw, i Ymddiriedolaeth y BBC ac i dalwyr ffi'r drwydded. Mae'r ddogfen hefyd yn rhan bwysig o'r ffordd y bydd Cyfarwyddwyr Anweithredol y BBC ar Fwrdd Gweithredol y BBC, yn sicrhau bod y BBC yn cyflawni ei strategaeth a'i hymrwymiadau yn unol â disgwyliadau Ymddiriedolaeth y BBC a thalwyr ffi'r drwydded.

Nid yw'r ddogfen hon yn lasbrint ar gyfer y flwyddyn sydd i ddod. Bydd y cynlluniau'n siŵr o newid mewn meysydd penodol gan addasu i wahanol ddigwyddiadau. Fodd bynnag, mae gan y BBC strategaeth glir yn *Rhoi Ansawdd yn Gyntaf* a'i blaenoriaeth yw gweithredu a chyflawni'r strategaeth honno. Pryd bynnag y bydd ein cynlluniau yn newid, mae'n rhaid iddynt barhau i ganolbwyntio ar gyflawni ein strategaeth, a hynny o fewn ein cyllideb. Bwriedir i'r cynllun gwaith blynyddol gynorthwyo i sicrhau bod ein gwaith o ddydd i ddydd yn cyd-fynd â'r amcanion hirdymor hyn.

Mae'r Cyfarwyddwyr Aelodau Anweithredol a gweddill Bwrdd Gweithredol y BBC yn edrych ymlaen at weithio gyda'r Cyfarwyddwr Cyffredinol i roi cynnwys y cynllun gwaith hwn ar waith ac rwy'n ei gymeradwyo i Ymddiriedolaeth y BBC.

Marcus Agius
Uwch Gyfarwyddwr Annibynnol
BBC

# Cynnwys


1. **Cyflwyniad ..................................................................................... 1**
2. **Trosolwg strategol o'r flwyddyn ....................................................... 2**
3. **Cyllideb y BBC 2012/13 .................................................................. 19**
4. **Datganiadau o bolisi rhaglenni ......................................................... 24**

# 1. Cyflwyniad

Cenhadaeth y BBC yw hysbysu, addysgu a diddanu cynulleidfaoedd gyda rhaglenni a gwasanaethau o ansawdd uchel, sy'n wreiddiol a gwerthfawr. Mae'n genhadaeth sydd gyn bwysiced heddiw ag y bu ar unrhyw adeg yn hanes y BBC.

Yn nhirwedd fwy eang y cyfryngau, mae technolegau a diwydiannau yn parhau i gydgyfeirio ac mae amrywiaeth y cystadleuwyr sydd gan y BBC yn parhau i dyfu. Mae materion tymor byr, anoddach, hefyd yn newid y diwydiant mewn ffyrdd newydd. Yn y flwyddyn ddiwethaf, mae'r ffocws yn y sector cyfryngau wedi symud tuag at ymddiriedaeth a safonau moesegol ac mae ymddygiad newyddiadurwyr a sefydliadau newyddiadurol yn destun pryder eang ymhlith y cyhoedd. Yn sgil hynny, mae sylw manwl wedi'i roi i ddisgwyliadau'r cyhoedd o'r BBC a'r ymddiriedaeth yn ei rhaglenni a'i hymddygiad. Y BBC yw'r sefydliad cyfryngau a'r darparwr newyddion y mae'r cyhoedd yn ymddiried fwyaf ynddo yn y DU, ond rydym wedi'n hatgoffa yn y flwyddyn ddiwethaf pa mor werthfawr yw ymddiriedaeth i unrhyw sefydliad a pha mor hawdd y gellir ei cholli.

Ar yr un pryd, mae safonau tryloywder newydd yn parhau i gael eu gosod ledled y sector cyhoeddus. Yn yr hinsawdd ariannol anodd sydd ohoni, mae talwyr ffi'r drwydded yn disgwyl i'r BBC ddangos ei bod yn gwario ffi'r drwydded yn ddoeth ar flaenoriaethau y maent yn eu cydnabod a'u cefnogi. Gydol y broses hon o bennu ei strategaeth newydd – *Rhoi Ansawdd yn Gyntaf* – mae'r BBC wedi cymryd rhan mewn trafodaethau agored â staff a'r cyhoedd am y gorfforaeth, ei gwerthoedd a'i gweithrediadau. Mae Ymddiriedolaeth y BBC hefyd wedi cynnal ei hymgynghoriad cyhoeddus ei hun ar y strategaeth sydd wedi arwain at newidiadau pwysig. Mae'r cynllun gwaith hwn yn nodi sut bydd y BBC yn dechrau rhoi'r strategaeth newydd hon ar waith. Mae'n rhoi manylion amcanion y BBC am y flwyddyn ac unrhyw ddatblygiadau gwasanaeth pwysig neu fuddsoddiadau sy'n hysbys ar hyn o bryd (adran 2), ynghyd â chrynodeb o'r gyllideb (adran 3). Mae hefyd yn cynnwys Datganiadau o Bolisïau Rhaglenni blynyddol y BBC sy'n egluro ymrwymiadau rhaglenni y BBC ar gyfer y flwyddyn sydd i ddod (adran 4).

Roedd 2011 yn flwyddyn lwyddiannus arall i'r BBC. Mae mwy nag erioed o'n cynulleidfa yn cydnabod ac yn cymeradwyo ansawdd ein gwasanaethau a'n rhaglenni, ac mae cyrhaeddiad y cynnyrch teledu, radio ac ar-lein yn dal i dyfu. Mae'r strategaeth newydd wedi'i llunio i sicrhau bod cynnig sylfaenol y BBC - fel darlledwr cyhoeddus annibynnol eang a gyllidir gan bawb ac sy'n atebol i'r cyhoedd, gyda chenhadaeth i hysbysu, addysgu a diddanu pawb gyda gwasanaethau am ddim wrth eu defnyddio - yn parhau yr un fath i bob diben. Ein her yw rhoi'r strategaeth newydd ar waith mewn ffordd sy'n sicrhau'r effaith leiaf bosibl ar ansawdd a defnydd ac sy'n sicrhau ein bod yn cyrraedd diwedd y Siarter cyfredol gyda BBC sy'n canolbwyntio mwy nag erioed ar ansawdd, sy'n cael ei rhedeg yn dda ac sy'n effeithlon, ac sy'n parhau yn gonglfaen i ddiwydiannau creadigol y DU.

# 2. Trosolwg strategol o'r flwyddyn

Ym mis Rhagfyr 2010, nododd Ymddiriedolaeth y BBC bedwar amcan trosfwaol ar gyfer y sefydliad rhwng nawr a 2016:

- cynyddu arbenigrwydd ac ansawdd ei gynnyrch
- rhoi gwell gwerth am arian i dalwyr ffi'r drwydded
- gwneud mwy i wasanaethu'r holl gynulleidfaoedd
- gosod safonau newydd ar gyfer gweithredu agored a thryloyw.

Mae Bwrdd Gweithredol y BBC wedi datblygu cyfres o gynigion – *Rhoi Ansawdd yn Gyntaf* – i gyflawni yn erbyn yr amcanion hyn ac i wneud yr arbedion sy'n ofynnol gan setliad ffi'r drwydded 2010. Mae Ymddiriedolaeth y BBC wedi cefnogi'r cynigion hyn i raddau helaeth, gyda ychydig o ddiwygiadau allweddol. Mae'r cynigion yn gofyn am raglen heriol o ad-drefnu sefydliadol a diwylliannol dros nifer o flynyddoedd. Byddant yn cael eu monitro gan amrywiaeth o wahanol fesurau, gan gynnwys ymchwil i'r gynulleidfa, dadansoddi ariannol, archwilio allanol ac asesiad yr Ymddiriedolaeth ei hun.

Mae'r Bwrdd Gweithredol wedi llunio'i amcanion blynyddol ar gyfer rheolwyr a staff y BBC i sicrhau bod yr amcanion hyn a'r strategaeth newydd wrth wraidd yr hyn a wna'r sefydliad yn y flwyddyn sydd i ddod. Maent yn torri llwybr i gyflawni amcanion hirdymor yr Ymddiriedolaeth a byddant yn cynnwys meysydd blaenoriaeth gwahanol ar wahanol adegau yn ystod y cyfnod. Eu nod yw bod yn glir a syml, bod modd eu cyflwyno'n hawdd ar wahanol lefelau o fewn y sefydliad a'u bod yn ategu amcanion yr Ymddiriedolaeth drwy ganolbwyntio ar gamau gweithredu ac ymrwymiadau'r tymor byr.

## 2.1 Gweithredu Rhoi Ansawdd yn Gyntaf

Mae'r BBC wedi gosod amcan trosfwaol i weithredu *Rhoi Ansawdd yn Gyntaf*. Mae manylion y cynigion ar gael ar wefan Ymddiriedolaeth y BBC[1], ond yn gryno mae'r strategaeth yn ei gwneud yn ofynnol i'r BBC:

- Fyw o fewn ei modd, gan wneud arbedion o 20% erbyn 2016/17
- Canolbwyntio ar y pethau pwysicaf, drwy ganolbwyntio ar fuddsoddi mewn gwasanaethau allweddol, genres a'r adegau o'r dydd pan fo pobl yn defnyddio'n gwasanaethau fwyaf
- Gweddnewid ei hun ar gyfer y dyfodol, yn rhannol drwy greu cronfa ail-fuddsoddi £145 miliwn y flwyddyn ar gyfer cynnwys a chreadigrwydd digidol.

**Byw o fewn ei modd**

- *Effeithlonrwydd*: Mae'r BBC eisoes wedi cynnal rhaglen i chwilio am effeithlonrwydd sydd wedi arwain at arbedion blynyddol o fwy na 3.5% y flwyddyn. Rydym wedi penderfynu cyfyngu ar dargedau cynhyrchiant blynyddol yn yr adrannau sy'n creu rhaglenni a gwasanaethau yn

[1] http://www.bbc.co.uk/bbctrust/our_work/strategy/index.shtml

uniongyrchol i gyfartaledd o 2.5% y flwyddyn. Mae hyn yn parhau yn darged llawn her, ond bydd targedau cynhyrchiant is yn yr adrannau cynnwys yn cael eu cydbwyso gan arbedion mwy ym maes costau cyffredinol a chymorth y BBC, gyda gostyngiadau o 25% mewn meysydd perthnasol.

- *Gostyngiadau i wasanaethau'r BBC*: Mae arbedion cynhyrchiant ar eu pen eu hunain yn gadael y BBC yn brin o'r targed arbedion o 20% ac rydym wedi gorfod ystyried gostyngiadau yng nghwmpas y BBC ei hun. Mae holl wasanaethau'r BBC yn cael eu gwerthfawrogi gan eu cynulleidfaoedd ac yn gwneud cyfraniad pwysig at gyflawni cenhadaeth gwasanaeth cyhoeddus gyffredinol y BBC ac rydym wedi dod i'r casgliad y byddai'n syniad gwael iawn cau un o wasanaethau cyfredol y BBC yn llwyr. Fodd bynnag, rydym wedi penderfynu ar ddull deublyg o sicrhau gostyngiadau sy'n golygu bod ffi'r drwydded yn canolbwyntio ar y pethau hynny y mae'r cyhoedd yn ei ddisgwyl fwyaf gan y BBC, a chanolbwyntio ein buddsoddiadau ar wasanaethau blaenllaw ac ar yr adegau o'r dydd y mae'r cyhoedd yn defnyddio'n gwasanaethau fwyaf.

## Canolbwyntio ar y pethau pwysicaf

- *Ansawdd a chreadigrwydd*: bydd y BBC yn canolbwyntio ei hegni creadigol a'i hadnoddau'n gynyddol ar ei phum blaenoriaeth olygyddol: ei newyddiaduraeth; gwasanaethau plant; drama a chomedi gwreiddiol o'r DU; gwybodaeth, dysgu, cerddoriaeth a diwylliant; a digwyddiadau sy'n dod â chymunedau a'r genedl at ei gilydd. Byddwn yn cadw at ein hymrwymiadau i gynyddu'r hyn a gynhyrchir ar gyfer rhwydweithiau teledu'r BBC yng Nghymru, yr Alban a Gogledd Iwerddon i 17% erbyn diwedd y Siarter.

- *Gwasanaethau allweddol*: byddwn yn amddiffyn cyllidebau sylfaenol BBC One, Radio 4 a gwasanaethau plant y BBC. Bydd yr arbedion rhaglenni yn Newyddion y BBC yn is na chyfartaledd y BBC. Fodd bynnag, byddwn yn creu cysylltiadau llawer agosach rhwng sianeli digidol a'u rhiant rwydweithiau a rhannu mwy o gynnwys rhwng gwasanaethau.

## Gweddnewid ei hun ar gyfer y dyfodol

- *Ail-fuddsoddi mewn ansawdd*: Mae meysydd blaenoriaeth uchel ar gyfer y gronfa ail-fuddsoddi o £145 miliwn y flwyddyn yn cynnwys:

    - Cronfa arloesedd digidol o tua £40 miliwn y flwyddyn i gefnogi gweledigaeth y BBC ar gyfer darlledu cysylltiedig rhwng y rhyngrwyd a theledu, yn ogystal â ffonau deallus a llechi, a gwella'r archif digidol

    - Drama a chomedi ar gyfer BBC One; a rhaglenni difrifol am wyddoniaeth, hanes, busnes, celf a byd natur ar gyfer BBC Two a BBC Four

    - Casglu newyddion ym mhedwar ban byd a'r DU; BBC World News i gryfhau ansawdd ac enw da'r gwasanaeth, yn amodol ar gliriad rheoleiddiol priodol; a mwy o arian i *Panorama* ar gyfer ymchwiliadau

    - Buddsoddi mewn mwy o raglenni arloesol Radio 4, fel *A History of the World in 100 Objects* a rhagor o arian i ddiogelu ansawdd Proms y BBC

    - Cyflwyno Manylder Uwch yn raddol ar BBC One Cymru, yr Alban a Gogledd Iwerddon a chyflwyno amlbeth DAB cenedlaethol y BBC yn raddol i gyrraedd 97% o'r gynulleidfa a chymorth ar gyfer cyflwyno DAB lleol yn raddol.

- *Newid y ffordd y mae'r BBC yn gweithredu*: Dim ond trwy weddnewid sefydliadol pellgyrhaeddol y gallwn gyflawni'r strategaeth hon. Erbyn 2016, bydd y BBC yn llawer llai nag y mae heddiw; yn cyflogi llai o bobl; yn meddiannu llai o le; ac yn gwario llai o arian yn absoliwt ac fel cyfran o ddiwydiant darlledu'r DU. Ond credwn drwy wella'i effeithiolrwydd, meithrin technolegau newydd a datblygu partneriaethau newydd, gall y BBC gynyddu ei heffaith gadarnhaol. Bydd creu'r glasbrint manwl ar gyfer y gweddnewid hwn yn weithgarwch allweddol arall ar gyfer 2012/13.

Mae'r amcanion corfforaethol manylach dilynol yn cyfrannu at gyflawni'r strategaeth gyffredinol hon. Pan fo'n angenrheidiol, byddwn yn gofyn am gymeradwyaeth yr Ymddiriedolaeth.

## 2.2 Gwella ansawdd a neilltuolrwydd

Yn ei hanfod, mae'r BBC yn ceisio darparu rhaglenni a gwasanaethau o ansawdd uchel sydd wrth fodd cynulleidfaoedd. Yn 2012/13, bydd y BBC yn ceisio gwella ansawdd ac arbenigrwydd drwy ganolbwyntio ar bum blaenoriaeth olygyddol y BBC:

- Sicrhau'r newyddiaduraeth orau yn y byd
- Gwybodaeth, cerddoriaeth a diwylliant sy'n ysbrydoli
- Drama a chomedi uchelgeisiol o'r DU
- Cynnwys heb ei ail i blant; a
- Digwyddiadau sy'n dod â chymunedau a'r genedl ynghyd

Mae'n rhaid i'r BBC gyflawni'r amcan hwn tra'n cynnal ei chyrhaeddiad ar y teledu a'r radio a chynyddu ei chynulleidfa ar-lein. Mae hyn yn cynnwys y gweithgareddau canlynol.

**Ysbrydoli cynulleidfaoedd a staff gyda rhaglenni heb eu hail o Lundain 2012, y Jiwbilî Diemwnt a digwyddiadau mawr eraill 2012**

Eleni yw un o'r blynyddoedd mwyaf arwyddocaol yn hanes y BBC, wrth i ni edrych ymlaen at raglen o ddigwyddiadau sy'n cynnwys Gemau Olympaidd Llundain, Jiwbilî'r Frenhines, Ewro 2012 a llu o raglenni arloesol eraill, fel tymor Shakespeare a Phenwythnos Hackney ar Radio 1. Gan hynny, un o'n hamcanion allweddol yw gwneud 2012 y flwyddyn fwyaf creadigol ac uchelgeisiol ar gyfer cynnwys y BBC.

Mae 2012 wedi cyrraedd yn barod ac mae'r Prosiect 2012, mewn cydweithrediad ag adrannau'r BBC, yn ei gyfnodau terfynol o baratoi i ddarlledu o ddigwyddiadau mawr y flwyddyn. I'r BBC, mae'n gyfle unigryw i ddangos ei fod yn chwarae rhan ganolog ym mywyd y genedl, ac yn gallu dod â hi at ei gilydd o gwmpas cyfres o ddigwyddiadau pwysig. Mae'r rhain yn cynnwys:

- *Taith Gyfnewid y Fflam Olympaidd*. Dyma gyfle i'r BBC helpu i ddod â gweddill y DU i gysylltiad â'r Gemau yn Llundain wrth i'r Fflam deithio i bob rhan o'r wlad. Bydd y BBC yn darlledu'r cyffro'n fyw wrth i'r Fflam gyrraedd Cernyw ar 18 Mai ac yna'n darlledu rhaglenni arbennig ym mhob Gwlad a Rhanbarth wrth i'r Fflam ymweld â nhw. Bydd y BBC hefyd yn darlledu taith y Fflam yn fyw ar y we er mwyn i'r gynulleidfa allu ei dilyn
- *Y Jiwbilî Diemwnt*. Bydd y Frenhines yn dathlu 60 mlynedd ar yr orsedd gyda nifer o ddigwyddiadau yn ystod penwythnos cyntaf mis Mehefin a bydd gan y BBC raglenni arbennig.

Mae'r rhain yn cynnwys Pasiant Afon y Jiwbilî Diemwnt lle bydd mil o gychod yn hwylio i fyny'r Afon Tafwys yn dilyn y Frenhines ar ei Bad Brenhinol. Bydd Gwasanaeth Diolchgarwch Cenedlaethol yn eglwys Sant Paul, a bydd y BBC yn cynnal cyngerdd y tu allan i Balas Buckingham yng nghwmni rhai o'r teulu Brenhinol

- *Penwythnos Hackney Radio 1*. Mae Radio 1 yn cynnal ei digwyddiad cerddoriaeth fyw am ddim mwyaf erioed dros ddeuddydd ym mis Mehefin yn Hackney Marshes. Bydd oddeutu 100,000 o bobl yn mynd iddo gyda chyfran o'r tocynnau'n cael eu cadw at gyfer pobl o Fwrdeistref Hackney yn Llundain a phum bwrdeistref arall y Gemau Olympaidd: Barking a Dagenham, Greenwich, Newham, Tower Hamlets a Waltham Forest. Mae'r cyngerdd yn rhan o Ŵyl swyddogol Llundain 2012
- *Y Gemau Olympaidd*. Y BBC yw darlledwr y DU ar gyfer y Gemau ac am y tro cyntaf bydd yn sicrhau bod darllediadau chwaraeon byw o bob digwyddiad ar gael i'r gynulleidfa - 2500 awr o chwaraeon byw i gyd. Ar ei anterth, bydd 24 ffrwd o chwaraeon byw ar yr un pryd yn cynnig dewis diguro i'r gynulleidfa ar BBC Ar-lein. Bydd y 24 ffrwd hefyd ar gael i'w darlledu gan ddarparwyr teledu cebl a lloeren. Yn ogystal â BBC One, sef y brif sianel gyda'r holl gyffro chwaraeon gorau, bydd BBC Three yn darlledu oriau estynedig yn ystod y Gemau a hefyd yn darlledu chwaraeon drwy'r dydd a min nos. Bydd sianel radio ddigidol dros dro ychwanegol ar gael, sef BBC Five Live Olympics Extra. Bydd y BBC hefyd yn rhoi sylw i'r Gemau Paralympaidd ar y radio
- *Proms y BBC*. Eleni mae'r Proms hefyd yn rhan o Ŵyl swyddogol Llundain 2012. Ar ddiwrnod agoriadol y Gemau Olympaidd ar 27 Gorffennaf, bydd Daniel Barenboim yn arwain Cerddorfa West Eastern Divan mewn perfformiad o Nawfed Symffoni Beethoven, sef penllanw cylch symffoni cyflawn gan Beethoven.

Hefyd, bydd y BBC yn dathlu'r flwyddyn ar draws ei holl genres. Mae llawer o gynnwys diwylliannol cyfoethog iawn i'r gynulleidfa, gan gynnwys fersiynau ffilm o *Richard II, Henry IV* rhannau *I* a *II*, a *Henry V* fel rhan o Dymor Shakespere. Bydd rhifynnau arbennig o *Absolutely Fabulous* a *QI* ynghyd â'r ddrama wreiddiol newydd, *Bert & Dickie*, sef cyfres am hanes y Gemau Olympaidd ac ailddarllediad o'r gyfres gomedi *Twenty Twelve*.

Bydd yn sicr yn flwyddyn newyddion brysur. Bydd Llundain yn croesawu cannoedd o arweinwyr y byd a degau o filoedd o dwristiaid yn ystod y Gemau. Bydd diogelwch a thrafnidiaeth yn gryn her. Bydd ein timau newyddion yn cynnig dadansoddiadau amrywiol ac arbenigol o'r materion wrth iddynt godi.

Mae Prosiect 2012 wedi bod yn cefnogi nifer o raglenni etifeddiaeth uchelgeisiol. Mae'r rhaglen gefeillio ysgolion, World Class 2012, sy'n Bartneriaeth Gwerth Cyhoeddus gyda'r British Council, bellach wedi gefeillio dros 4000 o ysgolion yn y DU gydag ysgolion tramor. Mae Cynllun Prentisiaeth Llundain 2012 wedi'i ymestyn o Lundain i BBC Scotland a bydd hyd at 50 o brentisiaid wedi cwblhau'r cynllun erbyn diwedd 2012. Bydd 250 o bobl ifanc eraill wedi ymuno â rhaglen Profiad Gwaith 2012. Mae Prosiect 2012 hefyd wedi datblygu rhwydwaith eang o Ohebwyr Cymunedol ledled y DU law yn llaw â thimau Cenhedloedd a Rhanbarthau'r BBC.

### Gweithredu'r newidiadau i wasanaethau sy'n ofynnol gan *Rhoi Ansawdd yn Gyntaf*

Ni ellir ymateb i her arbedion y BBC drwy wneud arbedion effeithlonrwydd yn unig. Mae angen gostyngiadau gwirioneddol mewn gwasanaethau. Wrth wneud ein dewis a chanfod arbedion, rydym wedi sicrhau y byddwn yn gwario cyfran uwch o ffi'r drwydded ar y pum blaenoriaeth olygyddol erbyn diwedd y siarter cyfredol. Yn 2012/13, byddwn yn:

- Gwario ffi'r drwydded ar y pethau y mae'r cyhoedd yn eu disgwyl fwyaf gennym. Mae hyn yn golygu'r newidiadau canlynol:
    - Gostyngiad o 15% yn y gyllideb hawliau Chwaraeon (mae hyn wedi bod yn amlwg eisoes wrth rannu'r darlledu Formula One gyda Sky, a cholli rasio ceffylau byw i Channel 4)
    - Parhau i weithredu'r gostyngiad o 25% yn y gyllideb ar gyfer BBC Ar-lein
    - Gostyngiad yng nghyllidebau cyfresi a ffilmiau rhaglenni caffaeledig
    - Gostyngiadau mewn rhaglenni adloniant effaith is
    - Cau BBC HD a'i ddisodli ag un fersiwn o BBC Two mewn Manylder Uchel.
- Canolbwyntio buddsoddiad mewn gwasanaethau blaenllaw ac ar adegau o'r dydd y mae'r cyhoedd yn defnyddio'n gwasanaethau fwyaf:
    - Gostwng cyllidebau a nifer yr oriau a gomisiynir o raglenni hwyr a thros nos ar wasanaethau teledu a radio
    - Dechrau newid amserlenni'r dydd er mwyn i ni ddechrau symud yr holl raglenni dydd newydd i BBC One, er mwyn i BBC Two gynnig cyfleoedd ychwanegol i weld rhaglenni oriau brig rhagorol
    - Creu cysylltiadau agosach rhwng sianeli a gwasanaethau teledu a radio, e.e. BBC Four yn chwarae rôl fwy cyflenwol i BBC Two ac adeiladu ar gydweithio llwyddiannus rhwng Radio 1 a 1Xtra a Radio 4 / 4 Extra
    - Strategaeth newydd ar gyfer yr Asian Network gyda ffocws golygyddol mwy craff sy'n sicrhau gwell gwerth.

Mae'r BBC yn disgwyl cyrraedd y targed o 17% ar gyfer rhaglenni teledu rhwydwaith a fydd yn cael eu cynhyrchu yng Nghymru, yr Alban a Gogledd Iwerddon cyn 2016 a rhagori ar y targed erbyn diwedd y Siarter. Bydd hyn yn sicrhau gwerth miliynau o bunnoedd o gomisiynau rhwydwaith newydd ledled Cymru, yr Alban a Gogledd Iwerddon. Law yn llaw â'r rhaglenni newydd hyn cyflwynir mesurau i gynyddu portreadau a chynrychiolaeth o'r DU i gyd, yn rhannol drwy newidiadau pellach o ran comisiynu ac arweiniad cynhyrchu y tu allan i Lundain.

## Lansio a gweithredu'r Strategaeth Gysylltiedig Ar-lein

Strategaeth ar-lein y BBC yw creu un gwasanaeth integredig sy'n cyfuno BBC Ar-lein a'r Botwm Coch drwy ddarparu deg o gynhyrchion i'n cynulleidfaoedd ar bedair sgrin. Mae'r deg cynnyrch yn cynnwys: Newyddion; Chwaraeon, Tywydd, CBBC, CBeebies, Gwybodaeth a Dysgu, Teledu ac iPlayer, Radio a Cherddoriaeth, yr Hafan a Chwilio. Mae gweithredu'r strategaeth gysylltiedig yn brosiect tair blynedd a ddechreuodd yn 2010 ac sydd eisoes wedi gwneud newidiadau sylweddol drwy ostwng nifer y gwefannau yn sylweddol a chreu timau golygyddol, dylunio, marchnata a thechnoleg cydweithredol sy'n gweithio ar un llwyfan. Rydym ar y trywydd iawn i wneud y 25% o arbedion sy'n ofynnol erbyn 2012/13.

Mae'r deg cynnyrch wrthi'n cael eu datblygu ar hyn o bryd, gyda phob un wedi cyrraedd pwynt gwahanol, a byddant yn cael eu datblygu gydol 2012/13. Ar ddiwedd 2011, ail-lansiwyd Newyddion a'r Hafan, ac eleni byddwn yn lansio cynnyrch newydd (Gwybodaeth a Dysgu) ac yn ail-lansio

cynnyrch (Radio a Cherddoriaeth, Llundain 2012). Yn ogystal â datblygu'r deg cynnyrch, bydd nifer fach o weithgareddau ledled y BBC yn sicrhau y bydd talwyr ffi'r drwydded yn derbyn profiad gweledol mwy cyson ac o ansawdd uwch yn raddol pa bynnag ddyfais y byddant yn ei defnyddio i gyrchu cynnwys y BBC a ddarperir ar y rhyngrwyd. Byddant hefyd yn gallu gweld dolenni mwy hygyrch a gwerth chweil rhwng BBC Ar-lein a gwefannau a gwasanaethau eraill ar y we.

Bydd y strategaeth gysylltiedig yn helpu BBC Ar-lein i baratoi ar gyfer byd cwbl ddigidol, lle bydd cynnwys darlledu llinol traddodiadol a chynnwys aflinol ar-alw yn cyfuno i greu profiadau di-dor i'r gynulleidfa ar draws sawl dyfais. Drwy adeiladu ar y newidiadau sydd eisoes wedi digwydd, byddwn yn ail-fuddsoddi mewn sawl maes, gan gynnwys:

- *Profiad pedair sgrin*: ymestyn hyd a lled ein cynnwys ar draws teledu, cyfrifiaduron, ffonau symudol a llechi cysylltiedig
- *Curadu digidol*: defnyddio offer golygyddol, cymdeithasol a phersonol i dywys cynulleidfaoedd ar deithiau darganfod ar draws ein gwahanol lwyfannau a genres
- *Profiad cymdeithasol*: er mwyn ein galluogi i fanteisio i'r eithaf ar boblogrwydd cynyddol rhwydweithiau cymdeithasol oddi ar bbc.co.uk, gan ymestyn cyrhaeddiad ein cynnwys ac ymgysylltu â chynulleidfaoedd newydd
- *Mynediad agored*: er mwyn sicrhau bod ein cynnyrch ar gael ar gymaint o lwyfannau a dyfeisiau defnyddwyr newydd â phosibl, gan wella hygyrchedd ar gyfer cynulleidfaoedd
- *Gwasanaethau archif*: gwneud ein cynnwys ar gael yn barhaol drwy barhau i weithio i roi ôl gatalog y BBC ar-lein, gan alluogi cynulleidfaoedd i gael gafael ar ein rhaglenni am gyfnod hirach
- *Llwyfan technegol agored*: ein galluogi i fod yn fwy agored drwy rannu ein llwyfannau technegol, metadata a chod gyda'r diwydiant i gefnogi gwlad sy'n fwy creadigol yn ddigidol (os yw rheoliadau'n caniatáu hynny).

Bydd cynulleidfaoedd hefyd yn gweld gwasanaeth Botwm Coch mwy cyson gan y BBC, gyda'r un gwasanaeth ar gael ar bobl llwyfan teledu. Bydd y newidiadau hyn yn paratoi'r ffordd ar gyfer mynediad i gynnwys teledu cysylltiedig ar y rhyngrwyd a ddarperir drwy'r Botwm Coch. Mae newidiadau allweddol yn cynnwys:

- Gostwng nifer y ffrydiau fideo sydd ar gael ar loeren a chebl o naw i'r un ffrwd sydd ar gael ar hyn o bryd ar Freeview tua diwedd 2012, ar ôl y Gemau Olympaidd
- Ad-drefnu a rhesymoli'r gwasanaeth testun digidol a chau'r gwasanaeth newyddion aml-sgrin
- Creu porth Botwm Coch newydd i bontio'r bwlch rhwng teledu traddodiadol a'r rhyngrwyd.

## Gweithredu casgliadau Adolygiadau Gwasanaethau Ymddiriedolaeth y BBC

Byddwn yn mynd ati i weithredu newidiadau penodol sy'n deillio o adolygiadau diweddar o'r Asian Network, Radio Lleol, BBC News Channel, BBC Parliament, BBC Radio 5 Live a BBC Radio 5 Live Sports Extra, a gwasanaethau radio'r BBC yn y gwledydd datganoledig, ynghyd â pharhau i roi argymhellion ar gyfer gwasanaethau eraill ar waith. Mae'r rhain yn cynnwys:

- BBC News Channel: Parhau i wella ac arloesi, i fod yn unigryw mewn marchnad newyddion cynyddol brysur; a chynnal amrywiaeth a dyfnder y straeon y rhoddir sylw iddynt, er gwaetha'r angen am arbedion effeithlonrwydd. Bydd y strategaeth *Rhoi Ansawdd yn Gyntaf* ar gyfer y sianel yn cynnwys gwariant is ar gynnwys yr ail hanner awr; dim newyddion busnes

arbennig bob awr; gostyngiadau mewn gwariant dewisol a mwy o ddefnydd o raglenni newyddion rhwydwaith

- BBC Parliament: sicrhau bod gwybodaeth gyd-destunol ar-sgrin yn diwallu anghenion gwylwyr yn well a chyflwyno dolenni haws i wasanaethau eraill y BBC er mwyn i bobl allu canfod mwy o fanylion am bwnc yn gynt
- BBC Radio 5 Live: Codi ymwybyddiaeth y gynulleidfa, yn arbennig o'i rhaglenni newyddion, a sicrhau ei bod yn parhau i apelio i gynulleidfa eang; adlewyrchu'r diwygiadau i'r drwydded gwasanaeth i gael cyfres gliriach o ymrwymiadau ar gyfer rhaglenni newyddion; darparu mwy o sylw i chwaraeon amrywiol, ochr yn ochr â phêl-droed.

**Cynllunio'n effeithlon ar gyfer adnewyddu creadigol o 2013/14**

Roedd 2011 yn flwyddyn eithriadol ar gyfer straeon newyddion mawr; mae 2012 yn sicr o fod yn flwyddyn ragorol o ran chwaraeon, diwylliant a dod â'r genedl at ei gilydd. Bydd yn bwysig sicrhau bod rhaglenni'r BBC yn 2013/14 yn parhau i fodloni disgwyliadau uchel cynulleidfaoedd gan y BBC, yn enwedig wrth i ni ddechrau gweithredu arbedion *Rhoi Ansawdd yn Gyntaf* yn llawn.

Yn ystod 2012, bydd Bwrdd Gweithredol y BBC felly'n creu a gweithredu cynlluniau i sicrhau bod 2013 yn darparu cynnwys uchelgeisiol, unigryw ac arloesol cyfoethog ledled pob genre a sianel. Bydd hyn yn cynnwys datblygu partneriaethau creadigol pellach i gynyddu effaith ein rhaglenni, ynghyd ag adlewyrchu pen-blwyddi allweddol, uchafbwyntiau chwaraeon a digwyddiadau diwylliannol.

## 2.3 Cynyddu gwerth am arian

Fel darlledwr gwasanaeth cyhoeddus, mae gan y BBC ddyletswydd gyhoeddus ynghyd â dyletswydd ariannol i wneud i bob punt o ffi'r drwydded weithio mor galed â phosibl. Mae'r camau gweithredu allweddol yn 2012/13 yn cynnwys:

- Cwblhau'r rhaglen effeithlonrwydd Gwelliannau Parhaus gyfredol, gan ddarparu £2 biliwn o arbedion cronnus rhwng 2008/9 a 2012/13
- Symud 2% o wariant y BBC o orbenion i gynnwys yn ystod y cyfnod cyllideb 2012/13 i 2013/14
- Gweithredu targedau effeithlonrwydd Rhoi Ansawdd yn Gyntaf sydd bellach wedi'u cynnwys yng nghyllidebau a chynlluniau Adrannau ar gyfer 2012/13
- Parhau i ostwng costau talent
- Cydbwyso'r targedau cynhyrchiant is mewn adrannau cynnwys gyda rhagor o arbedion ledled meysydd gorbenion a chymorth y BBC, gyda gostyngiadau o 25% erbyn 2016/17 ar gyfer yr holl feysydd costau a dargedir. Yn y Grŵp Gweithrediadau, mae arbedion eisoes yn cael eu darparu gyda gostyngiadau staff o tua 20% yn ystod eleni a'r flwyddyn nesaf
- Cwblhau prosiectau Broadcasting House, BBC North a chynhyrchu digidol, gan ystyried opsiynau i gael gwared ar a gwerthu Television Centre.

Ers yr 1990au pan ddechreuodd y BBC symud i ddigidol, mae wedi bod yn gwneud arbedion effeithlonrwydd sylweddol i ddod â chostau rhedeg i lawr o 24% o ffi'r drwydded i oddeutu 12% heddiw. Y llynedd, adolygodd y Swyddfa Archwilio Genedlaethol y ffordd roedd y BBC yn rheoli ei swyddogaethau cymorth a daeth i'r casgliad bod y dull o ostwng costau swyddogaethau cymorth yn

effeithiol yn gyffredinol wrth gynyddu gwerth am arian. Fel yn ei holl adolygiadau, gwnaeth y Swyddfa Archwilio Genedlaethol nifer i argymhellion a bydd y BBC yn rhoi'r rhain ar waith yn llawn yn y flwyddyn nesaf.

Mae'r BBC wedi bod yn cyflawni gweithgarwch masnachol ers lansio'r Radio Times yn 1923. Mae'r gweithgarwch hwn yn cael ei sbarduno gan ein hangen i sicrhau gwerth am arian i dalwyr ffi'r drwydded, yn cynnwys sicrhau elw masnachol ar fuddsoddiad mewn cynnwys a gwasanaethau. Heddiw, mae gan y BBC bortffolio masnachol eang sy'n amrywio o werthu DVDs i sianeli brand i ddigwyddiadau byw, a sicrhaodd £236 miliwn yn 2010/11 i dalwyr ffi'r drwydded ar ffurf buddrannau, buddsoddiad mewn cynnwys a buddsoddiad trydydd parti - sy'n gyfwerth â £9 ar gyfer pob talwr ffi'r drwydded.

Yn 2012/13, byddwn yn canolbwyntio ar ddatblygu gweithgareddau masnachol y BBC er budd cynulleidfaoedd a'r diwydiant ehangach.

### Parhau i ddatblygu dull mwy cydlynol o ran gweithgareddau masnachol y BBC, gyda fframwaith llywodraethu priodol.

Yn amodol ar gymeradwyaeth, yn ystod y deuddeg mis nesaf bydd strategaethau masnachol y BBC yn cael eu cydlynu'n agosach â rhai'r gwasanaeth cyhoeddus er mwyn sicrhau bod gennym arlwy fwy cydlynol yn y DU ac yn rhyngwladol ar gyfer cynulleidfaoedd a'n bod yn gallu cael y gorau o fanteision gweithredu ar raddfa fawr (er enghraifft wrth ariannu rhaglenni). Er mwyn cefnogi hyn, byddwn yn mabwysiadu mecanweithiau llywodraethu newydd a fydd yn cymell alinio agosach tra'n parchu fframwaith rheoleiddio'r BBC - y cam cyntaf yw penodiad diweddar y Cyfarwyddwr Cyffredinol yn Gadeirydd BBC Worldwide.

Eleni, bydd y BBC yn ceisio cymeradwyaeth a chytundebau ar gyfer Project Barcelona (teitl dros dro), y cynnig a gyhoeddwyd yn ddiweddar i wneud mwy o'i archif ar gael yn fwy eang. Yn yr un ffordd ag y mae cynulleidfaoedd yn prynu DVD o raglenni BBC o'r archif, byddai Project Barcelona yn galluogi cynulleidfaoedd i brynu a chadw copïau digidol o raglenni i'w defnyddio eu hunain. Ni fyddai hyn yn gyfyngedig, felly byddai cynnwys y BBC yn parhau i fod ar gael drwy ddarparwyr eraill hefyd. Ein huchelgais yn y pen draw yw rhoi mynediad i'n cynulleidfaoedd i'n holl raglenni ar y sail hon, drwy ychwanegu mwy a mwy o archif y BBC i'r ffenestr dros amser. Byddwn yn parhau i gydweithio'n agos â deiliaid hawliau wrth i ni ddatblygu'n cynigion.

Mae cysylltiad agos rhwng Project Barcelona a phartneriaethau llwyddiannus y BBC fel Freeview, Freesat, a YouView, iPlayer, Radioplayer - sydd i gyd yn rhan o un strategaeth. Mae'r strategaeth hon yn adlewyrchu'r ffaith bod cynnwys o ansawdd uchel yn bwysicach nawr nag erioed a bod yn rhaid i'r BBC chwilio'n barhaus am ffyrdd newydd i sicrhau mynediad agored i'r cynnwys hwnnw, nid ar gyfer ei hun yn unig, ond ar gyfer y diwydiant a phob aelwyd yn y wlad.

### Cyflawni ein targedau incwm masnachol

Mae gan y BBC dargedau ariannol masnachol llawn her i'w cyflawni yn ystod y flwyddyn nesaf.

Yn gyntaf, mae ein his-gwmni masnachol sydd mewn perchnogaeth lawn, BBC Worldwide, yn ceisio sicrhau refeniw ac elw tebyg i'r blynyddoedd diwethaf. Fodd bynnag, o ystyried risgiau macroeconomaidd a thueddiadau tymor byr mewn marchnadoedd hysbysebu, mae'r rhagolygon masnachu ar gyfer y flwyddyn nesaf yn fwy ansicr na'r arfer.

Mae gan BBC Worldwide yr amcanion canlynol ar gyfer y flwyddyn:

- Bod yn fwy rhyngwladol – adeiladu busnesau brand BBC mewn marchnadoedd twf uchel a chynyddu cyfran BBC Worldwide mewn marchnadoedd sefydledig
- Sbarduno twf digidol – sbarduno cyfleoedd twf ar-lein a symudol i ymateb i newidiadau yn ymddygiad defnyddwyr
- Cynyddu graddfa sianeli teledu rhyngwladol BBC Worldwide - gan lansio sianeli newydd wrth i gyfleoedd godi a hybu dosbarthiad a maint cynulleidfaoedd sianeli cyfredol BBC Worldwide
- Cynyddu'r buddsoddiad mewn cynnwys newydd – parhau i gaffael, cynhyrchu a chynrychioli'r cynnwys gorau
- Datblygu cysylltiadau mwy uniongyrchol â chynulleidfaoedd – gan gynnwys meithrin teyrngarwch drwy systemau rheoli cysylltiadau cwsmeriaid (CRM).

Lle'n briodol, byddwn yn ceisio cael unrhyw gymeradwyaeth angenrheidiol ar gyfer y mentrau hyn.

Yn ail, fel rhan o'r broses *Rhoi Ansawdd yn Gyntaf*, mae targedau wedi'u gosod ar gyfer adrannau rhaglenni gwasanaeth cyhoeddus i gynhyrchu incwm masnachol ychwanegol o £40 miliwn y flwyddyn erbyn 2016/17 (gan BBCW a thrydydd partïon). Mae mentrau penodol ar gyfer eleni yn cynnwys parhau i gynyddu buddsoddiadau masnachol yn rhaglenni teledu'r BBC; creu cynhyrchion digidol byd-eang apelgar trwy alinio gwaith fwyfwy a llwyfannau technoleg cyffredin rhwng newyddion gwasanaeth cyhoeddus, bbc.com a BBC Worldwide; buddsoddiad mewn technoleg a golygyddol ar gyfer BBC World News a BBC.com, targedu twf o ranbarthau'r UDA ac Asia a'r Môr Tawel; a gwella ac ehangu gweithgareddau masnachol cyfredol ar y radio (e.e. drwy greu brandiau a fformatau newydd a'i gwneud yn bosibl i brynu mwy o gynnwys llafar.)

## 2.4 Gwasanaethu pob cynulleidfa

Ynghlwm â braint ffi'r drwydded, mae rhwymedigaeth i geisio darparu holl wasanaethau'r BBC, a gwasanaethau o'r un ansawdd, i bob rhan o'r gynulleidfa. Mae hyn yn cynnwys ceisio sicrhau bod gan bob aelwyd fynediad cyfleus i holl wasanaethau perthnasol y BBC am ddim wrth eu defnyddio. Gydol 2012/13, bydd hyn yn cynnwys y meysydd gweithgarwch canlynol.

**Cwblhau'r Newid llawn i Ddigidol ar amser ac o fewn y gyllideb**

Mae'r BBC wedi cyflawni un o'r prosiectau peirianneg mwyaf iddi ei chynnal erioed, gan gwblhau'r newid i deledu digidol a chyflawni eu holl amcanion gyda DigitalUK a'r Cynllun Cymorth i Drosglwyddo i Ddigidol, tra'n cadw ymhell o dan eu cyllidebau.

Yn ystod 2012/13, bydd 226 o drosglwyddyddion yn newid i ddigidol (gan ddod â'r cyfanswm i 1156), a chwblhau cyfnod pontio'r DU i deledu digidol. Bydd dros 8.5 miliwn o gartrefi yn newid i ddigidol yn 2012.

Mae'r Cynllun Cymorth yn mynd rhagddo'n dda, gyda dros filiwn o osodiadau wedi'u cwblhau. Mae'r lefelau boddhad yn parhau'n uchel gydag oddeutu 93% yn rhoi 8 allan o 10 neu fwy i ni a dim ond 0.4% o gwynion. Mae'r DU bellach bron dri chwarter y ffordd drwy'r newid i ddigidol o ran poblogaeth a'r her fwyaf yw cynnal ansawdd wrth i'r niferoedd gynyddu o gwmpas cyfnod trosglwyddo Llundain ym mis Ebrill ac wrth i'r Cynllun ddirwyn i ben yn yr hydref.

Y dyddiadau newid i ddigidol terfynol eleni yw: 18 Ebrill 2012 ar gyfer Llundain; 27 Mehefin ar gyfer y grŵp trosglwyddydd olaf yn Meridian; 26 Medi ar gyfer Tyne Tees; a 24 Hydref ar gyfer Gogledd Iwerddon. O 24 Hydref ymlaen, bydd darlledu teledu'r DU yn gwbl ddigidol.

### Datblygu partneriaethau'r BBC, gan gynnwys lansio *YouView* a *The Space* yn llwyddiannus

Ers cyhoeddi'r cynigion partneriaethau ym mis Rhagfyr 2008, mae'r BBC wedi gwneud cynnydd amlwg o ran partneriaethau strategol, gan gynnwys:

- Treialon YouView ar waith
- Nifer o ymgyrchoedd Llythrennedd Cyfryngau cryf wedi'u cynnal
- Lansio RadioPlayer ledled y diwydiant, bellach yn gwasanaethu 7 miliwn o wrandawyr y mis
- Y bartneriaeth Cynhyrchu Digidol wedi cyhoeddi safonau technegol a metadata cyffredin ar gyfer darpariaeth rhaglenni ar ffeil yn y DU
- Lansio nifer o bartneriaethau golygyddol fel YourPaintings, gwefan sydd â'r nod o gasglu lluniau o'r 200,000 o baentiadau olew sydd i'w cael yn y DU.

Yn ystod 2012, cynhelir y Gemau Olympaidd a Gŵyl Llundain 2012 a bydd The Space, partneriaeth rhwng y BBC a Chyngor Celfyddydau Lloegr, yn cael ei lansio i greu cyfleuster cyfryngau celfyddydau digidol arbrofol ar draws llwyfannau cyfrifiaduron personol, ffonau symudol, llechi a theledu cysylltiedig. Bydd y BBC yn gosod y sylfeini ar gyfer partneriaethau llwyddiannus yn y dyfodol mewn Partneriaethau BBC R&D, BBC North a City, a bydd yn parhau i annog llunio partneriaethau â chwmnïau i ddarparu cynnwys a gwerth i'w chynulleidfaoedd.

### Darparu strategaeth llwyfan teledu darlledu am ddim cydlynol ar gyfer *Freeview, Freesat* a *YouView*

Yn ystod y cyfnod hwn o adnoddau cyfyngedig ledled y BBC, mae'n briodol adolygu mentrau ar y cyd Llwyfan Darlledu Am Ddim y BBC er mwyn sicrhau eu bod yn sicrhau'r gwerth gorau posibl am arian ar gyfer talwyr ffi'r drwydded. Yn ystod 2012/13, bydd y BBC yn edrych eto ar Freeview, Freesat a YouView er mwyn sicrhau eu bod yn targedu cynulleidfaoedd yn effeithiol, datblygu nodweddion priodol ac arloesi, a gweithredu mewn ffordd gost effeithiol. Erbyn diwedd y flwyddyn, bydd gan y BBC gynllun ar waith a fydd yn ceisio sicrhau mynediad parhaus ac uniongyrchol heb danysgrifio i gynnwys y BBC i holl dalwyr ffi'r drwydded, tra'n sicrhau bod ein llwyfannau yn gystadleuol iach, yn cael eu hariannu'n briodol a bod eu dyfodol yn cael eu diogelu.

### Darparu Botwm Coch Cysylltiedig ar draws sawl llwyfan

Byddwn yn datblygu profiad Botwm Coch i gysylltu allbwn llinol ac aflinol, gan hwyluso mynediad diogel a rhwydd i brofiadau cydamserol sy'n ategu ac yn ychwanegu at y rhaglenni a ddarlledwn. Bydd cynulleidfaoedd yn gallu symud yn ôl ac ymlaen yn haws rhwng y darllediad ac allbwn cysylltiedig: gan roi mynediad uniongyrchol iddynt i benodau diweddar, ffrydiau ychwanegol a nodweddion newydd sy'n helpu i sicrhau mai'r gynulleidfa sydd wrth y llyw.

## Argaeledd y gwasanaeth ar-alw a ffenestr gynnwys

Rydym yn parhau i fonitro galw'r gynulleidfa am gynnwys ar-alw'r BBC ac argaeledd y gwasanaeth hwn. Os oes angen, byddwn yn ystyried gwneud newidiadau i ffenestr rhaglenni gwasanaeth cyhoeddus teledu a radio'r BBC yn sgil newidiadau yn anghenion y gynulleidfa ac arferion y farchnad, ac yn cyflwyno unrhyw gynigion angenrheidiol i Ymddiriedolaeth y BBC eu hystyried.

## Radio Digidol

Fel rhan o *Rhoi Ansawdd yn Gyntaf*, mae'r BBC wedi ymrwymo i gyflwyno amlbleth DAB cenedlaethol y BBC yn raddol i gyrraedd 97% o boblogaeth y DU cyn gynted â phosibl, er mwyn sicrhau ei fod bron yn cyfateb i gyrhaeddiad FM ar gyfer holl wasanaethau digidol DU gyfan y BBC. Erbyn diwedd Mawrth 2012, roeddem wedi llwyddo i gyrraedd 93%, gan gyflawni ymrwymiad y BBC i ddarparu gwasanaeth i o leiaf 90% o boblogaeth y DU yn ystod cyfnod y Siarter. Mae 226 o orsafoedd trosglwyddo wedi'u hadeiladu gyda'r un olaf yn Nhŵr BT, sy'n cryfhau'r gwasanaeth ar gyfer canol Llundain.

Mae trafodaethau'n parhau gyda'r Llywodraeth a radio masnachol ynghylch cyflwyno seilwaith DAB lleol fesul cam. Rydym wrthi ar hyn o bryd yn tendro ar gyfer cam nesaf y gwaith o gyflwyno amlbleth DAB, gyda'r nod o ail-afael yn y rhaglen adeiladu.

Archif y BBC – *Journal of Record*

Yn y gorffennol, mae'r BBC wedi cyhoeddi ei huchelgais i agor rhan o'n harchif fel casgliad parhaus sydd ar gael i'r cyhoedd - i fod ar gael ar-lein am byth. Elfen bwysig o hyn yw'r prosiect '*Journal of Record*' sy'n canolbwyntio ar y flaenoriaeth olygyddol o ddarparu'r 'newyddiaduraeth orau yn y byd'. Gallai'r prosiect roi mynediad i'r cyhoedd i holl flynyddoedd o newyddiaduraeth y BBC ar ffurf bwletinau newyddion dyddiol, darllediadau a sgriptiau, ynghyd â darllediadau byw o ddigwyddiadau allweddol. Byddai'r casgliad unigryw ac amhrisiadwy hwn o gynnwys ar gael i gynulleidfaoedd fel adnodd cenedlaethol, ar gael i'w chwilio at ddefnydd cyffredin gan bartneriaid gwasanaeth cyhoeddus y BBC, ynghyd â chan ysgolion neu sefydliadau addysgol eraill.

Ers mis Hydref 2011, rydym wedi cymryd rhan mewn rhaglen beilot nad yw'n wynebu'r gynulleidfa er mwyn asesu pa asedau sydd ar gael, sut y gellid cyflwyno'r rhain i gynulleidfaoedd, a faint y byddai hynny'n ei gostio. Gan ddefnyddio cynnyrch y rhaglen beilot hon, byddwn yn gwneud argymhelliad yn fuan ar sut i fynd ymlaen â'r prosiect hwn. Pe bai hyn yn golygu newidiadau i fwy nag un o'r Trwyddedau Gwasanaeth, byddwn yn ceisio lefel briodol o gymeradwyaeth.

## Dewisiadau'r Gwledydd BBC One HD

Mae'r BBC yn ymrwymedig i fanteisio i'r eithaf ar dechnolegau newydd, fel darlledu manylder uchel, i gynulleidfaoedd ledled y DU. Ym mis Tachwedd 2010, lansiwyd BBC One HD ledled y DU fel gwasanaeth rhwydwaith heb raglenni dewisol (rhaglenni a gynhyrchir yn benodol ar gyfer cynulleidfaoedd ym mhob un o Wledydd a Rhanbarthau'r DU). Hyd yn hyn, dim ond mewn SD (manylder safonol) y mae rhaglenni dewisol wedi bod ar gael.

Erbyn diwedd 2012, byddwn yn lansio amrywiadau o BBC One HD yng Nghymru, yr Alban a Gogledd Iwerddon. Bydd gan gynulleidfaoedd yr opsiwn yn awr i wylio rhaglenni dewisol y gwledydd mewn ansawdd darlledu manylder uchel llawn, gan dderbyn yr un profiad gweledol rhagorol ar gyfer cynnwys y Gwledydd ag y maent yn ei wneud gyda chynnwys rhwydwaith y BBC ar BBC One.

**Materion dosbarthu eraill yn y Gwledydd**

Mae gwahanol dopograffi a daearyddiaeth Cymru, yr Alban a Gogledd Iwerddon yn golygu bod yna sawl her wahanol wrth geisio dosbarthu gwasanaethau'r BBC ym mhob Gwlad. Bydd dau fater yn cael blaenoriaeth arbennig gan Fwrdd Gweithredol y BBC yn ystod y flwyddyn nesaf:

- Ystyried posibiliadau technegol amrywiol ar gyfer dyfodol hirdymor darllediadau amrywiol BBC Two yn y tair Gwlad. Byddwn hefyd yn pwyso a mesur posibiliadau technegol tebyg er mwyn canfod y ffordd orau o ddosbarthu fersiynau rhanbarthol Lloegr o BBC One
- Pwyso a mesur gwahanol ffyrdd o wella cyrhaeddiad ac argaeledd gorsafoedd radio'r Gwledydd.

## 2.5 Cydweithio

Yn ogystal ag adlewyrchu amcanion hirdymor yr Ymddiriedolaeth, mae Bwrdd Gweithredol y BBC wedi pennu pedwar amcan ychwanegol i'r sefydliad mewn perthynas â'i gweithredoedd mewnol. Mae'r BBC yn sefydliad cymhleth gyda gweithgareddau ledled y DU ac ym mhedwar ban byd. Blaenoriaeth allweddol yn y blynyddoedd nesaf fydd symleiddio BBC er mwyn i staff allu cydweithio'n fwy effeithiol ac y gellir sicrhau'r gwerth gorau o gynnyrch y BBC ar draws llwyfannau a gwasanaethau. Bydd y flaenoriaeth hon yn canolbwyntio ar nifer o feysydd penodol o weithgarwch y BBC.

Gydol y cyfnod newid pwysig yn sgil *Rhoi Ansawdd yn Gyntaf*, bydd y BBC yn ceisio cefnogi ein harweinwyr a'n staff drwy newidiadau a symudiadau pwysig, gan sicrhau bod cerrig milltir prosiectau yn cael eu cyflawni.

**Cadw prosiectau pwysig ar ben ffordd.**

Bydd Cyfnod Un o symud y BBC tua'r gogledd yn cael ei gwblhau yn gynnar yn 2012/13 wrth i BBC Breakfast symud i Salford. Ar ôl hynny, byddwn yn canolbwyntio ar symud yr holl swyddogaethau prosiect eraill i weithredu gwasanaeth cryf yn ôl yr arfer. Bydd hyn yn ymwneud â chyflwyno technolegau newydd a ffyrdd newydd o weithio, parhau i weithredu Model Gweithredu newydd ar gyfer y ganolfan, a gwireddu manteision y symud ledled pob maes o'r busnes. Yna byddwn yn canolbwyntio ar gynllunio a pharatoi ar gyfer Cyfnod Dau o symud y BBC tua'r gogledd, fel y cyhoeddwyd yn *Rhoi Ansawdd yn Gyntaf*.

Bydd y BBC yn mynd i'r afael â'r symud mwyaf yn ei hanes o ran ei gweithlu a'i rhaglenni byw, yn ystod 2012/13, pan fydd oddeutu 4,000 o staff yn cael eu symud i'r Broadcasting House sydd newydd ei ehangu yn Llundain ac adeiladau ategol eraill yn W1. Bydd staff yn cael eu hadleoli o Bush House a Television Centre i ymuno â chydweithwyr o'r Adrannau Newyddion, Sain a Cherddoriaeth a Gweledol i ffurfio canolfan gydweithredol, deinamig a chreadigol yng nghanol prifddinas Lloegr. Mae cynllun hyfforddiant, treialu a symud wedi'i lunio gydol y flwyddyn a'i nod yw darparu amrywiaeth eang o raglenni o'r stiwdios a'r cyfleusterau modern digidol newydd yn Broadcasting House. Nod y cynllun yw sicrhau'r aflonyddu lleiaf posibl ar y darlledu o arlwy eang o ddigwyddiadau golygyddol pwysig yn ystod y flwyddyn, gan gynnwys y Gemau Olympaidd, y Jiwbilî Diemwnt a sawl etholiad tramor pwysig. Rhaglenni iaith y World Service fydd y cyntaf i symud, yna Materion Cyfoes, Newyddion Radio, Radio One/1Xtra, timau Comisiynu ac Amserlennu ar gyfer BBC One, Two, Three a Four a rhaglenni Ffeithiol, Comedi a Drama teledu rhwydwaith. Byddant yn ymuno â thimau radio rhwydwaith cyfredol, BBC London a BBC Arabic a Persian TV, sydd eisoes yn Broadcasting

House, gan greu gweithlu o 6,000 staff yn y pen draw a dod â phrosiect pwysig a gymeradwywyd gyntaf yn 2003 i ben.

**Meithrin economi greadigol sy'n ffynnu ledled y DU, gan gwblhau cynlluniau i symud swyddi pellach y tu allan i Lundain**

Mae'r BBC yn ymrwymedig i gynhyrchu mwy o gynnwys y tu allan i Lundain, er mwyn adlewyrchu diwylliant, cymunedau a chreadigrwydd y DU i gyd. Disgwylir mynd y tu hwnt i darged y BBC o gynhyrchu 17% o raglenni rhwydwaith yng Nghymru, yr Alban a Gogledd Iwerddon erbyn 2016 cyn diwedd cyfnod y Siarter. Y llynedd, cynhyrchwyd 16.3% o raglenni Teledu Rhwydwaith yng Nghymru, yr Alban a Gogledd Iwerddon, o gymharu â 13.2% yn 2010 (niferoedd terfynol yn amodol ar gymeradwyaeth Ofcom).

Mae agor y cyfleuster cynhyrchu drama pwrpasol, Porth y Rhath, wedi dangos ymrwymiad y BBC i ddatblygiad parhaus Cymru fel canolfan gynhyrchu rhwydwaith gyda'r gorau yn y byd. Dechreuwyd cynhyrchu *Casualty* ac *Upstairs Downstairs* yn y ganolfan ers ei hagor ym mis Medi 2011 ynghyd â chynyrchiadau fel yr opera sebon ddyddiol *Pobol y Cwm*, a symudodd i ffilmio yno ym mis Rhagfyr 2011, a *Doctor Who* a ddechreuodd ffilmio yng Ngwanwyn 2012. Mae canolfan 'Profiad Dr Who', sy'n cael ei rhedeg gan BBC Worldwide, yn cael ei hadeiladu ger Porth y Rhath mewn partneriaeth â Chyngor Caerdydd, a bydd yn agor yn 2012.

**Ymestyn offer cynhyrchu digidol, fel Fabric, i bob maes o gynhyrchu teledu a gwneud prosesau cynhyrchu yn fwy cyson ar draws pob adran.**

Yn 2012/13 bydd Fabric, amgylchedd cynhyrchu digidol newydd y BBC, yn cael ei gyflwyno'n raddol ledled Cynyrchiadau'r BBC. Bydd yn darparu cynhyrchu digidol cost effeithiol 'o'r dechrau i'r diwedd', ac yn gweddnewid y broses gynhyrchu, gan alluogi gwell cydweithio, creadigrwydd a mwy o werth am arian.

Bydd y BBC yn parhau i weithio'n agos gyda'r sector cyfryngau ehangach i annog mabwysiadu technegau cynhyrchu ar sail ffeil (digidol) yn y DU. Mae creu'r Bartneriaeth Cynhyrchu Digidol eisoes wedi arwain at fanteision amlwg ledled y diwydiant, gan gynnwys Safonau Technegol a Metadata ar gyfer darparu rhaglenni drwy ffeiliau cyfrifiadur yn hytrach nag ar dâp – mae'r saith prif ddarlledwr (BBC, ITV, Channel 4, Sky, Channel 5, S4C ac UKTV) wedi cytuno ar un fformat ffeil cyffredin a strwythur i alluogi i raglenni teledu gael eu darparu mewn ffeiliau digidol. Byddwn yn parhau i weithio'n genedlaethol ac yn rhyngwladol ar safonau technegol a metadata, gan ddod â'r BBC yn agosach at wireddu ei huchelgeisiau dosbarthu a chynhyrchu digidol yn llawn o'r dechrau i'r diwedd

**Cynllunio a gweithredu 'One BBC' ym meysydd Newyddion, Cynhyrchu Teledu'r DU, Cerddoriaeth a Gwyddoniaeth**

*One BBC News*
Yn ystod 2012/13, bydd gweithgarwch Newyddion y BBC yn symud o Television Centre a Bush House i Broadcasting House ar ôl ei ailddatblygu, a fydd yn golygu y bydd gweithgarwch newyddion y DU a newyddion byd-eang y BBC dan yr un to am y tro cyntaf. Mae rhannu lleoliad yn cynnig cyfleoedd da i sicrhau gwelliannau yn y ffordd y mae gweithredu ar y cyd yn gweithio i gynyddu effeithlonrwydd a gwerth i'r gynulleidfa drwy sicrhau bod y deunydd gorau ar gael i fwy o gynulleidfaoedd ledled gwahanol lwyfannau a gwasanaethau.

O ystyried maint y symud, y flaenoriaeth ar gyfer 2012/13 fydd symud yr holl wasanaethau a gweithrediadau yn ddiogel i'w cartref newydd. Ar yr un pryd, byddwn yn dechrau rhoi trefniadau ar waith er mwyn ei gwneud yn bosibl i integreiddio gweithrediadau ledled y Grŵp Newyddion. Cynigir

rhai newidiadau mewn gweithrediadau sylfaenol ar gyfer 2013, a bydd gwaith cynllunio manwl yn cael ei wneud eleni i gyd-fynd â'r symud. Mae technolegau cyffredin wedi'u gosod yn yr adeilad newydd ac mae llif gwaith a phrosesau yn cael eu cysoni rhwng timau er mwyn gallu rhannu cynnwys a gwybodaeth yn haws rhwng gwahanol rannau o'r grŵp.

Bydd newidiadau eraill yn cael eu rhoi ar waith dros gyfnod hirach, fel datblygu system casglu newyddion rhyngwladol integredig a fyddai'n gwasanaethu pob gwasanaeth a chreu system ddefnyddio gyffredin ar gyfer casglu newyddion rhwng Rhanbarthau Lloegr a'r Rhwydwaith yn y DU. Byddwn yn cynllunio ar gyfer y newidiadau hyn yn ystod 2012.

*One BBC Production*
Yn 2012/13, bydd y BBC yn adeiladu ar y cynnydd a wnaed gyda'i Strategaeth Cyflenwi Rhwydwaith a'r uchelgais gyffredinol i gynyddu gweithgarwch cynhyrchu teledu cynaliadwy ledled y DU i gyd. Mae cynlluniau ar waith bellach i wella ffocws creadigol pob canolfan cynhyrchu rhwydwaith ledled y DU er mwyn iddynt fod yn fwy hunangynhaliol rhwng nawr a 2016. Bydd y BBC hefyd yn ceisio gwella natur gystadleuol ac effeithlonrwydd cynhyrchu rhwydwaith mewnol drwy greu un economi cynhyrchu rhwydwaith, gyda phob rhan o weithgarwch cynhyrchu'r BBC yn y DU yn cael ei reoli mewn ffordd integredig a chyda strategaethau genre unigol.

*One BBC Music*
Yn 2012, bydd y BBC yn canolbwyntio ar ddarparu blwyddyn arloesol o weithgarwch cerddoriaeth, gan gynnwys Penwythnos Hackney Radio 1 a'r cyngerdd Jiwbilî Diemwnt, gyda strategaeth BBC gyfan yn canolbwyntio ar gydweithio a chydlyniad cliriach ledled y rhaglenni cerddoriaeth. Byddwn yn creu'r ganolfan gerddoriaeth newydd yn W1 tua diwedd 2012, gan alluogi dull mwy cysylltiedig o ymdrin â cherddoriaeth fel thema allweddol ar gyfer y flwyddyn nesaf.

*One BBC Science*
O Hydref 2012, byddwn yn cydleoli pawb sy'n gweithio ym maes Gwyddoniaeth yn Llundain, ledled Newyddion, Gweledol a Sain a Cherddoriaeth yn y Broadcasting House newydd. Bydd hyn yn eu galluogi i fanteisio ar arbenigedd, cysylltiadau a doniau ei gilydd. Bydd Gwyddoniaeth Teledu Rhwydwaith yn yr Alban hefyd yn rhan o'r patrwm hwn o gydweithio drwy'r model Cynhyrchu DU Gyfan unigol, ond ni fydd yn symud o Glasgow.

## 2.6 Bod yn agored a thryloyw

Mae amcan olaf Ymddiriedolaeth y BBC – pennu safonau newydd o ran bod yn agored a thryloyw – yn parhau'n amcan ar lefel gorfforaethol a bydd yn cael ei gyflawni'n bennaf gan weithgarwch strategaeth, polisi ac ariannol ar lefel uchaf y BBC. Er bod cyhoeddi'r cynllun gwaith hwn yn helpu i gyflawni'r amcan hwn, dim ond rhan o ymrwymiad y BBC i fod yn agored ydyw. Ymhlith pethau eraill, bydd y BBC yn parhau i:

- Gyhoeddi amrywiaeth llawer ehangach o wybodaeth bob chwarter, gan gynnwys data perfformiad cynulleidfa ar gyfer gwasanaethau'r BBC ac asesiadau ansawdd y gynulleidfa.
- Cyhoeddi arolwg newydd ar wahân o safbwyntiau'r cyhoedd ar amhleidioldeb rhaglenni newyddion y BBC. Bydd yr arolwg yn edrych ar ymddiriedaeth ac amhleidioldeb ledled y farchnad newyddion, er mwyn gallu cymharu'r farn am Newyddion y BBC yn y meysydd hyn â darlledwyr, papurau newydd, newyddion ar-lein eraill a gwefannau rhwydweithio cymdeithasol.

- Parhau i ehangu a symleiddio’r trefniadau cyfredol ar gyfer cyhoeddi cyflogau a chostau uwch reolwyr y BBC.
- Parhau i gyhoeddi costau talent gan eu rhannu’n ffigurau ar gyfer gwariant cyfanredol yn y bandiau amrywiol.

## Amcanion Bwrdd Gweithredol y BBC ar gyfer rheolwyr a staff yn 2012/13

| **2.1 Amcan trosfwaol** |
|---|
| **Gweithredu *Rhoi Ansawdd yn Gyntaf* fel prosiect 'One BBC'**<br>*Cerrig milltir y prosiect* |

| **2.2 Gwella ansawdd ac arbenigrwydd** | |
|---|---|
| Amcan | Cam Gweithredu |
| **Gwella ansawdd ac arbenigrwydd drwy ganolbwyntio ar bum blaenoriaeth olygyddol y BBC, tra'n cynnal cyrhaeddiad ar y teledu a'r radio a chynyddu cyrhaeddiad ar-lein**<br>*Mesuryddion ansawdd, arbenigrwydd a chyrhaeddiad* | • Gweithredu newidiadau cwmpas yn sgil Rhoi Ansawdd yn Gyntaf<br>• Gweithredu casgliadau Adolygiad Gwasanaeth Ymddiriedolaeth y BBC<br>• Lansio a gweithredu Strategaeth Cysylltiedig |
| **Gwneud 2012 y flwyddyn fwyaf creadigol ac uchelgeisiol ar gyfer cynnwys y BBC**<br>*Pob sgôr a mesurau cysylltiedig* | • Ysbrydoli cynulleidfaoedd a staff gyda rhaglenni rhagorol o Lundain 2012, y Jiwbilî Diemwnt a digwyddiadau pwysig eraill 2012<br>• Cynllunio'n effeithiol ar gyfer adnewyddu creadigol o 2013/14 |

| **2.3 Gwneud i ffi'r drwydded weithio'n galetach** | |
|---|---|
| Amcan | Cam Gweithredu |
| **Creu BBC mwy effeithlon, wedi'i ail-wampio sy'n cynyddu gwerth am arian ar gyfer talwyr ffi'r drwydded**<br>*Mesurau gwerth, targedau CI/PPI/Rhoi Ansawdd yn Gyntaf, targedau cynaliadwyedd* | • Cyflawni targedau cynhyrchiant a gostwng gorbenion<br>• Symleiddio a dadgymhlethu prosesau'r BBC, a gweithredu gwell ffyrdd o weithio drwy ddefnyddio technolegau newydd ac adeiladau newydd<br>• Gostwng y portffolio eiddo (gan gynnwys gadael Gorllewin Llundain yn llwyr erbyn diwedd y ddegawd)<br>• Cyflawni ymrwymiadau'r BBC o ran bod yn agored a thryloyw |
| **Datblygu gweithgareddau masnachol y BBC er budd cynulleidfaoedd a'r diwydiant ehangach**<br>*Targedau masnachol* | • Cyflawni targedau incwm masnachol<br>• Parhau i ddatblygu dull mwy cydlynol o ran gweithgareddau masnachol y BBC, gyda fframwaith llywodraethu priodol |

| **2.4 Gwarantu Mynediad** | |
|---|---|
| Amcan | Cam Gweithredu |
| **Gwireddu "gofod cyhoeddus digidol"**<br>*Cerrig milltir partneriaeth a phrosiect* | • Datblygu partneriaethau'r BBC, gan gynnwys lansio *YouView* a *The Space* yn llwyddiannus<br>• Darparu strategaeth llwyfan teledu darlledu am ddim cydlynol ar gyfer *Freeview*, *Freesat* a *YouView*<br>• Cwblhau'r newid i ddigidol ar amser ac o fewn y gyllideb<br>• Darparu Botwm Coch Cysylltiedig ar draws sawl llwyfan |

| **2.5 Cydweithio** | |
|---|---|
| Amcan | Cam Gweithredu |
| **Cefnogi ein harweinwyr a'n staff drwy symudiadau a newidiadau pwysig**<br>*Cerrig milltir y prosiect* | • Datblygu prosiectau pwysig yn ôl y bwriad (gan gynnwys Salford, W1, Fabric)<br>• Cwblhau'r gwaith o gynllunio a gweithredu cynllun ymgysylltu staff a rheolwr newydd<br>• Meithrin economi greadigol sy'n ffynnu ledled y DU, cwblhau cynlluniau i symud mwy o swyddi y tu allan i Lundain<br>• Ymestyn offer cynhyrchu digidol, fel Fabric, i bob maes cynhyrchu teledu a gwneud prosesau cynhyrchu yn fwy cyson ledled adrannau<br>• Cynllunio a gweithredu prosiectau 'One BBC' ym meysydd Newyddion, Cynhyrchu Teledu'r DU, Cerddoriaeth a |

| | |
|---|---|
| | Gwyddoniaeth |

| **2.6 Bod yn Agored a Thryloyw** | |
|---|---|
| **Fel amcan lefel corfforaethol** | • Gweler y camau gweithredu a nodir uchod |

# 3. Cyllideb y BBC 2012/13

## 3.1 Cyflwyniad

Mae'r modd y caiff y BBC ei ariannu yn unigryw, yn rhoi cyfrifoldebau ariannol sylweddol arno fel sefydliad, yn enwedig:

- Sicrhau'r incwm gorau o ffi'r drwydded trwy gasglu ffi'r drwydded yn effeithiol
- Cydymffurfio â thelerau ei siarter a dyletswyddau eraill i gael cymaint o gyllid ag y bo modd o ffynonellau eraill, yn enwedig Worldwide, adran fasnachol y BBC
- Sicrhau gwerth am arian drwy flaenoriaethu gwariant y BBC ar y rhaglenni a'r cynnwys y mae'r cyhoedd am eu cael fwyaf gan y BBC
- Sicrhau bod y gweithgareddau hyn yn cael eu cyflawni mor effeithlon â phosibl.

Mae'r adrannau canlynol yn esbonio sut mae'r BBC yn bwriadu cyflawni'r goblygiadau hyn dros y deuddeg mis nesaf.

## 3.2 Trosolwg o'r gyllideb

Mae cyllideb y BBC ar gyfer 2012/13 wedi'i chynllunio i gefnogi amcanion strategol y BBC fel y nodir yn *Rhoi Ansawdd yn Gyntaf*, drwy:

- Ddarparu'r llwyfan ar gyfer darparu blwyddyn eithriadol o raglenni yn 2012, gyda chyllid untro o £50 miliwn i wneud 2012 yn un o'r blynyddoedd mwyaf creadigol a chyffrous o raglenni yn hanes y BBC
- Canolbwyntio gwariant ar wasanaethau blaenllaw (er enghraifft BBC One a Radio 4) a'r genres blaenoriaeth y mae'r cyhoedd yn eu disgwyl gan y BBC (e.e. cynyrchiadau gwreiddiol ar gyfer plant)
- Cwblhau'r symud i'r canolfannau creadigol newydd a darparu technolegau cynhyrchu newydd
- Parhau i ddatblygu gwasanaethau cymorth effeithlon o ansawdd uchel, gan ryddhau arbedion i gael ei gwario ar gynnwys - dros y tair blynedd nesaf, bydd 2% o wariant craidd y BBC yn symud o gostau a reolir yn ganolog i gynnwys. Yn ystod yr un cyfnod, bydd y stad eiddo yn gostwng 15%; bydd y costau rheoli canolog yn gostwng 11%; a staff cymorth yn gostwng 20%
- Darparu yn erbyn targedau cynhyrchiant cyfredol a sefydlu cynlluniau effeithlonrwydd newydd uchelgeisiol o fewn adrannau. Mae hyn yn cynnwys cwblhau'r rhaglen Gwelliannau Parhaus gyfredol yn llwyddiannus, gan sicrhau £2 biliwn o arbedion cronnus o 2007/8 i 2012/13. Mae hyn yn cyfateb i gyfradd flynyddol o tua 3.5% dros bum mlynedd y cynllun Gwelliannau Parhaus, sy'n rhagori ar y targed o 3% a osodwyd gan Ymddiriedolaeth y BBC. Mae'r gyllideb hon hefyd yn adlewyrchu £108 miliwn o arbedion *Rhoi Ansawdd yn Gyntaf* a gyflawnwyd yn 2011/12
- Dechrau creu'r gallu ariannol i gefnogi rhwymedigaethau newydd y BBC sy'n dechrau yn 2013/14 a chronfa ail-fuddsoddi i gefnogi datblygiad parhaus cynnwys rhagorol a'i hygyrchedd.

## 3.3 Manylion y gyllideb

### Incwm ffi'r drwydded

Mae'r ffi ar gyfer y flwyddyn wedi'i rewi, ond mae cynnydd yn incwm ffi'r drwydded i £3,722 miliwn yn dal ar y gweill yn sgil twf 0.5% yn nifer yr aelwydydd sy'n talu ffi'r drwydded. Mae gostyngiad mewn cyfraddau osgoi o 5.2% i 5.0% hefyd yn cael ei dargedu yn sgil adnewyddu'r contract rheoli â Capita. Mae gwelliannau hefyd ar y gweill o ran costau casglu ffi'r drwydded, gyda gostyngiad o 2% ar y gweill ar gyfer 2012/13, a gostyngiadau llawer mwy mewn blynyddoedd dilynol wrth i'r contract rheoli newydd ennill ei blwyf.

Hefyd, bydd y BBC yn parhau i gynhyrchu incwm o'i gweithrediadau masnachu a masnachol (Worldwide, World News, Stiwdios ac Ôl Gynhyrchu a gweithgareddau masnachol eraill).

### Rhoi Ansawdd yn Gyntaf

Mae'r Gyllideb hon yn nodi'r symudiad o *Cyflwyno Dyfodol Creadigol* a'r rhaglen effeithlonrwydd Gwelliannau Parhaus i *Rhoi Ansawdd yn Gyntaf*. 2012/13 fydd y flwyddyn olaf o'r Rhaglen Gwelliannau Parhaus pum mlynedd a'r gyntaf o bum mlynedd y cynllun *Rhoi Ansawdd yn Gyntaf*. Mae hefyd yn flwyddyn y Gemau Olympaidd a'r Jiwbilî Diemwnt a blwyddyn y symud i Salford a'r Broadcasting House newydd.

Mae'r Gyllideb yn seiliedig ar gytundeb gyda'r Llywodraeth ym mis Hydref 2010 y dylai ffi'r drwydded barhau yn £145.50 hyd ddiwedd y Siarter ac y byddai'r BBC hefyd yn ariannu gweithgareddau ychwanegol sy'n gysylltiedig â darlledu BBC World Service, BBC Monitoring, a phartneriaeth estynedig gydag S4C a chymorth ar gyfer gwasanaethau teledu lleol a chyflwyno band eang yn raddol, er nad yw'r rhwymedigaethau newydd hyn yn effeithio'n uniongyrchol ar flwyddyn ariannol 2012/13.

Seiliwyd y cytundeb gyda'r Llywodraeth ar y sail y byddai'r ymrwymiadau newydd, ynghyd â chynnydd yn y dyfodol ar sail chwyddiant, yn cael eu hariannu drwy wneud arbedion o 16% dros y pedair blynedd tan 2016/17 yn unol â'r lefel sy'n ddisgwyliedig gan nifer o gyrff diwylliannol eraill. Mae'r Gyllideb hon yn cynnwys y gyfran gyntaf o'r arbedion hynny yn 2012/13, ynghyd â chyflawni blwyddyn olaf arbedion effeithlonrwydd Gwelliannau Parhaus.

#### Gwario yn ôl trwyddedau gwasanaeth

Yn 2012/13, mae'r BBC yn bwriadu cynyddu gwariant ar gynnwys trwyddedau gwasanaeth i £2,552 miliwn, gan adlewyrchu ymrwymiad y BBC i wario cymaint ag sy'n bosibl ar gynnwys o gymharu â mathau eraill o wariant, a hefyd yr amserlen brysur o ddigwyddiadau unigryw yn y DU yn 2012 (Gemau Olympaidd, yr Olympaid Diwylliannol, a'r Jiwbilî Diemwnt).

Gwariant wedi'i gyllidebu'n uniongyrchol ar gynnwys yn ôl trwydded gwasanaeth unigol ar gyfer 2012/13:

| **£m** | **12/13** | | **12/13** |
|---|---|---|---|
| BBC One | 1,184 | Radio 1 | 41 |
| BBC Two | 422 | Radio 2 | 47 |
| BBC Three | 88 | Radio 3 | 40 |
| BBC Four | 50 | Radio 4 | 96 |
| BBC Alba | 5 | Radio 5 | 59 |
| CBBC | 86 | Radio 5 Live Sports Extra | 3 |
| CBeebies | 28 | Radio 1Xtra | 8 |
| BBC News | 49 | BBC 6 Music | 8 |
| BBC Parliament | 2 | Radio 4 Extra | 5 |
| **Cyfanswm Teledu** | 1,915 | BBC Asian Network | 9 |
| | | **Cyfanswm Radio Rhwydwaith** | 316 |

| **£m (nodyn)** | **12/13** | | **12/13** |
|---|---|---|---|
| Botwm Coch y BBC | 17 | BBC Radio Lleol | 121 |
| BBC Ar-lein | 110 | BBC Radio Scotland | 25 |
| **Cyfanswm Rhyngweithiol** | 127 | BBC Radio nan Gàidheal | 4 |
| | | BBC Radio Wales | 15 |
| | | BBC Radio Cymru | 13 |
| | | BBC Radio Ulster & Foyle | 17 |
| | | **Cyfanswm Radio'r Gwledydd a'r Rhanbarthau** | 194 |

Yn sgil talgrynnu, efallai nad yw'r cyfansymiau a ddangosir uchod yn union yr un fath â chyfanswm trwyddedau gwasanaeth unigol

Dyma'r newidiadau allweddol yn ystod y flwyddyn bresennol:

- Gwariant ar BBC One yn cynyddu'n sylweddol yn 2012/13 i adlewyrchu costau ychwanegol digwyddiadau pwysig y DU
- BBC Ar-lein yn adlewyrchu ail randal y gostyngiad o 25% a gymeradwywyd gan Ymddiriedolaeth y BBC
- Mae'r drwydded gwasanaeth BBC HD ar wahân yn cael ei diddymu o dan gynigion Rhoi Ansawdd yn Gyntaf, a bydd BBC Two HD yn cymryd ei lle.

## Gwario ar flaenoriaethau golygyddol

O dan strategaeth *Rhoi Ansawdd yn Gyntaf*, mae'r BBC wedi ymrwymo i gynyddu ei hegni creadigol a'i hadnoddau ar y pum blaenoriaeth olygyddol. Mae'r rhain yn cynrychioli'r pum peth y mae'r cyhoedd wedi datgan eu bod am ei weld fwyaf gan y BBC ac sy'n adlewyrchu ei chenhadaeth gwasanaeth cyhoeddus gliriaf. Y pum blaenoriaeth olygyddol yw'r canllawiau wrth wneud dewisiadau ac arbedion yn *Rhoi Ansawdd yn Gyntaf* ac yn y Gyllideb hon. Mae'r BBC yn bwriadu sicrhau y bydd yn gwario cyfran uwch o ffi'r drwydded yn y meysydd hyn erbyn diwedd y Siarter.

- Bydd gwariant ar newyddiaduraeth yn cynyddu yn 2012/13, gan adlewyrchu'r flwyddyn o ddigwyddiadau pwysig

- Bydd y gwariant ar wybodaeth, cerddoriaeth a diwylliant yn gostwng yn sgil blwyddyn olaf y rhaglen effeithlonrwydd Gwelliannau Parhaus a dechrau newidiadau arfaethedig Rhoi Ansawdd yn Gyntaf
- Bydd rhaglenni drama yn cynyddu yn 2012/13 wrth i bedair drama Shakespeare gael eu dangos fel rhan o'r Olympiad Diwylliannol, ond ni fydd y gwariant ychwanegol hwn yn cael ei gynnal yn y dyfodol
- Mae natur gylchol digwyddiadau chwaraeon pwysig yn achosi i'r gwariant ar Ddigwyddiadau amrywio o flwyddyn i flwyddyn. Yn amlwg, mae'n llawer uwch yn 2012/13, ond bydd yn gostwng yn y blynyddoedd dilynol, sy'n adlewyrchu'n rhannol ostyngiad Rhoi Ansawdd yn Gyntaf mewn gwariant ar chwaraeon ac adloniant
- Bydd y gwariant ar gynnwys arall yn gostwng, oherwydd yr arbedion yng nghontract Formula 1 yn 2012/13 a gostyngiadau mewn gwariant ar raglenni a brynir o dramor.

## Gwariant arall y BBC

Mae'r costau eraill a gyllidwyd ar gyfer y flwyddyn yn cynnwys gwario £92m pellach ar gynnwys, nad yw'n benodol i wasanaethau unigol. Bydd yn costio £223m i ddosbarthu gwasanaethau'r BBC.

Mae nifer o gostau seilwaith a chymorth yn cael eu hariannu gan ffi'r drwydded hefyd, gan gynnwys £124m o gostau casglu'r ffi, £92m fel rhan o gostau newid i ddigidol, £202m mewn costau adeiladau, £163m mewn costau technoleg, a £60m i wneud iawn am y diffyg yng nghronfa bensiwn y BBC a chostau ailstrwythuro untro o £107 miliwn ar gyfer cynigion arbedion Rhoi Ansawdd yn Gyntaf.

Mae cyfanswm gwariant y BBC (gan gynnwys costau ailstrwythuro) fel y'u cyllidir o ffi'r drwydded yn y flwyddyn yn £4,013 miliwn, sy'n cynnwys y costau ailstrwythuro uchod.

## Crynodeb o'r Cyfrif Incwm a Gwariant

| | £m | £m |
|---|---|---|
| **Incwm** | | 3,876 |
| **Gwariant** | | |
| Cyllidebau trwyddedau gwasanaeth | (2,552) | |
| Gwariant arall ar gynnwys | (92) | |
| Cyfanswm y gwariant ar gynnwys | (2,644) | |
| Dosbarthu'r gwasanaeth | (223) | |
| Technoleg | (163) | |
| Eiddo | (202) | |
| Casglu ffi'r drwydded | (124) | |
| Newid i ddigidol | (92) | |
| Diffyg yn y gronfa bensiwn | (60) | |
| Marchnata | (88) | |
| Costau ailstrwythuro | (107) | |
| Swyddogaethau cymorth | (310) | |
| **Cyfanswm gwariant** | | (4,013) |
| **Diffyg** | | (137) |

Rheolir gwariant y BBC dros gyfnod y siarter, fel y bydd mwy'n cael ei wario mewn rhai blynyddoedd nag eraill. Mae'r diffyg yn y flwyddyn hon yn deillio o'r holl weithgarwch yn ystod y flwyddyn (y

Gemau Olympaidd, Ewro 2012, y Jiwbilî Diemwnt, symud i Saford a W1, a chostau ailstrwythuro Rhoi Ansawdd yn Gyntaf), ac yn dilyn gwarged yn 2011-12 (yn amodol ar archwiliad).

## Gwarged y newid i ddigidol

Yn sgil cyfraddau is newid i ddigidol ac arbedion ym maes caffael, mae'r BBC yn rhagweld y bydd gwarged ffi'r drwydded o gymharu â'r costau gwirioneddol yn parhau i gynyddu ac fe'i telir i'r Trysorlys.

## Prif risgiau cyllidebol

Mae'r amgylchiadau economaidd presennol yn risg i'r BBC o safbwynt incwm a chostau. O ran incwm, y twf yn nifer yr aelwydydd yw'r risg fwyaf sylweddol. Mae adferiad yr economi wedi bod yn wannach na'r disgwyl ac felly mae'r rhagdybiaethau ar gyfer twf yn nifer yr aelwydydd wedi'i ostwng i'r lefel a gafwyd yn 2010/11. Mae rhagdybiaethau diwygiedig o ran y nifer sy'n osgoi talu a chostau casglu is sy'n deillio o'r contract casglu Trwydded Teledu newydd a fydd yn dod i rym ym mis Gorffennaf 2012 yn fwy na gwneud iawn am y gostyngiad mewn incwm yn sgil twf is na'r disgwyl yn nifer yr aelwydydd.

Bydd yn rhaid i'r BBC hefyd barhau'n rhagweithiol wrth ymdopi â phwysau chwyddiant, a bydd yn parhau i adolygu ei modelau busnes i ostwng lefelau'r risgiau cysylltiedig. Er bod disgwyl i chwyddiant barhau i ostwng, nid yw hyn yn sicr o bell ffordd ac mae disgwyl i bwysau chwyddiant ar sylfaen gostau'r BBC barhau'n arwyddocaol, yn enwedig yng nghyd-destun ffi'r drwydded ddigyfnewid hyd at 2016/17. Mae hyn yn golygu y bydd disgwyl i adrannau chwilio am ffyrdd newydd o reoli chwyddiant, pwysau a allai gynyddu hefyd os yw cystadleuwyr domestig yn parhau i fuddsoddi a marchnata'n ffyrnig. Fodd bynnag, mae gan y BBC hanes llwyddiannus o reoli chwyddiant. Mae wedi gwneud hyn drwy ddarparu lwfansau chwyddiant penodol i adrannau a'i gwneud yn ofynnol iddynt ysgwyddo baich pwysau chwyddiant, naill ai drwy ganfod arbedion effeithlonrwydd ychwanegol neu drwy adael iddynt gadw'r arbedion lle maent wedi gallu rheoli eu costau ar lefel sy'n is na'r lwfans chwyddiant.

Fel yn y diwydiant ehangach, mae'r taliadau isel cyfredol o stociau gilt yn ystumio'r sefyllfa o ran y diffyg yng nghynllun pensiwn y BBC. Ar hyn o bryd, nid yw'r BBC yn credu bod angen neilltuo arian yn y Gyllideb hon ar gyfer unioni'r diffyg ymhellach gan nad oes unrhyw newid sylfaenol wedi bod yn natur y Cynllun neu gyfamod y BBC iddo. Byddai gwneud hynny'n rhoi cyllidebau cynnwys mewn perygl annerbyniol.

# 4. Datganiadau o bolisi rhaglenni

# BBC One

Nod BBC One yw bod y sianel deledu fwyaf poblogaidd, gyda'r amrywiaeth ehangaf o raglenni o ansawdd ar rwydwaith prif ffrwd y DU.

## Gweledigaeth y Rheolydd ar gyfer y gwasanaeth yn 2012/2013

Nod BBC One yw bod y sianel fwyaf poblogaidd a werthfawrogir fwyaf ym Mhrydain. Mae ganddi rôl allweddol o ran uno'r wlad a dyma'r sianel y bydd gwylwyr yn troi ati yn ystod adegau o bwysigrwydd cenedlaethol. Mae gen i ffydd y bydd BBC One yn darparu rhaglenni o'r radd flaenaf o Gemau Olympaidd 2012 a dathliadau'r Jiwbilî Diemwnt, ynghyd á newyddion a materion cyfoes o'r ansawdd uchaf.

Er mwyn cynnal ei le canolog ym mywyd Prydain, credaf fod yn rhaid i BBC One ddarparu rhaglenni sy'n arwyddocaol a pherthnasol i bawb. Mae'n rhaid i'n cynulleidfa weld eu bywydau a'u gwerthoedd yn cael eu hadlewyrchu ar draws ein rhaglenni, o'r One Show i bortreadau cytbwys mewn comedi a drama.

Mae'n bwysig i mi bod y sianel yn parhau i apelio at gynulleidfaoedd gyda rhaglenni ffeithiol difrifol. Dylai dulliau ffres, dyfeisgar y ymdrin â gwyddoniaeth, hanes, y celfyddydau a rhaglenni dogfen eistedd ochr yn ochr â newyddiaduraeth, ymchwiliol sefydledig *Panorama* a'r rhaglen newyddiadurol i ddefnyddwyr, *Watchdog*.

Mae'n rhaid i'r sianel ganolbwyntio ar raglenni uchelgeisiol ac unigryw. Mae ein harlwy drama a natur yn rhoi cwmpas ac ansawdd unigryw i BBC One. Rwy'n ymroddedig i adeiladu ar ein llwyddiant diweddar yn y ddau fath o raglenni. Mae'n rhaid i uchelgais greadigol lywio'n rhaglenni comedi ac adloniant, a byddwn yn dod â chynhesrwydd, hiwmor a doniau gorau Prydain i'r sianel drwy gomisiynu rhaglenni newydd.

**Danny Cohen, Rheolydd, BBC One**

## Datblygiadau nodedig yn y gwasanaeth yn ystod y flwyddyn nesaf

- Mae'n bwysig bod BBC One yn parhau i gynnig amrywiaeth, dyfnder ac ansawdd ym maes drama. Eleni byddwn yn cynnig dramâu o bob math, o adrodd stori gyfoes mewn drama ysbïo gyffrous *Nemesis* (teitl dros dro) i ddramâu cyfnod newydd fel *Ripper Street*. Rydym hefyd yn gobeithio adeiladu ar ein casgliad o ddramâu sy'n dychwelyd gyda chyfres newydd o *Call the Midwife* ymysg eraill. Byddwn hefyd yn cynyddu ein hymrwymiad i ddramâu unigol grymus fel *Bert and Dickie*.
- BBC One yw'r sianel sy'n ceisio dod â'r Genedl at ei gilydd. Eleni, ynghyd â'r digwyddiadau chwaraeon blynyddol fel Wimbledon a Phencampwriaeth y Chwe Gwlad, ein nod yw rhoi sylw cynhwysfawr o'r radd flaenaf o'r Gemau Olympaidd, dathliadau Jiwbilî Diemwnt y Frenhines a Phencampwriaeth Pêl-droed Ewrop.
- Bydd BBC One yn cynnig cyfresi ffeithiol uchelgeisiol ac o ansawdd rhagorol. Eleni, bydd *Africa*, cyfres natur newydd yn cael ei darlledu, ynghyd â digwyddiad byd natur byw uchelgeisiol a chyfres bwysig ar hanes y byd.

## Datblygiadau gwasanaeth eraill

- Bydd BBC One yn parhau i feithrin a datblygu doniau o bob math. Yn ogystal ag wynebau newydd fel Reggie Yates a Kevin Bridges, bydd wynebau cyfarwydd fel Michael Palin ac Anneka Rice yn dychwelyd i'r sgrin. Bydd y sianel hefyd yn cynnal tymor o raglenni sy'n canolbwyntio ar henaint gyda doniau cyflwyno amrywiol.
- Bydd BBC One Daytime yn adfywio'r hyn sydd ganddo i'w gynnig drwy ddatblygu rhaglenni materion cyfoes a defnyddwyr diweddar fel *Rip Off Britain* ac *Operation Hospital Food*. Bydd hefyd yn cyflwyno amrywiaeth o raglenni newydd, gan gynnwys *Postcode Lottery* a *Robbed, Raided and Re-united*.

# BBC Two

Mae BBC Two yn ceisio cynnig rhaglenni treiddgar o sylwedd i gynulleidfa eang. Mae'n cynnig mwy o raglenni ffeithiol amrywiol nag unrhyw sianel BBC arall ac yn cyfuno hynny â rhaglenni celf, comedi a drama unigryw.

## Gweledigaeth y Rheolydd ar gyfer y gwasanaeth yn 2012/2013

BBC Two yw'r sianel amgen brif ffrwd, gydag ysbryd o greadigrwydd beiddgar yn un o'n nodweddion unigryw. Ail-gadarnhau'n gallu i lansio rhaglenni ffeithiol uchelgeisiol sy'n ganolog i'r amserlen oriau brig yw'r dasg bwysicaf sydd wedi fy wynebu ac mae'n galonogol gweld cymaint ohonynt yn dwyn ffrwyth Yn ddiweddar, mae'r rhain wedi cynnwys *Terry Pratchett: Choosing to Die* a *The Life of Muhammad*, y rhai a ysbrydolodd 40,000 o bobl i fynychu digwyddiadau *Stargrazing Live* ledled y DU neu Gareth Malone a'r Military Wives Choir i gyrraedd rhif un yn y siartiau dros y Nadolig; a rhaglenni a roddodd fynediad i ni i fyd newydd, o *Children's Craniofacial Surgery* i *Putin, Russia and The West*.

Mae BBC Two yn ymwneud â siarad yn ddeallus â chynulleidfaoedd ehangach hefyd, ac mae gennyf ymroddiad llwyr i ddatblygu mwy o gyfresi gwreiddiol sydd â'r potensial i ymgysylltu â niferoedd uchel o wylwyr sy'n awchu am sylwedd ar draws amrywiaeth enfawr, bywiog o bynciau. Wythnos a gyflwynodd y wyddoniaeth wrth wraidd *Nature's Weird Events* gyda phortread gwych o *George V a Queen Mary* yw'r dystiolaeth ddiweddaraf y gall rhaglenni ffeithiol poblogaidd fod yn ddeallus ac yn llawn cynnwys.

Ond mae mwy i'r sianel na ffeithiau. Mae BBC Two yn ymhyfrydu yn ei phleserau hefyd, o ddathlu cyflawniadau'r *Great British Bake-Off*, rhannu bywydau staff *The Hour*, ymuno â thîm *Top Gear* ar eu taith ffordd arwrol yn India i bellteroedd Kargil a dilyn Warwick Davies yn ei frwydr mewn bywyd.

I mi, mae BBC Two yn gyfuniad cyffrous o bethau - gwybodaeth ac adloniant, awdurdod a ffraethineb. Dyna sy'n ei gwneud yn sianel mor arbennig a gwahanol i sianeli eraill ar y teledu.

**Janice Hadlow, Rheolydd BBC Two**

## Datblygiadau nodedig yn y gwasanaeth yn ystod y flwyddyn nesaf

- Mewn tymor Skakespeare o bwys, bydd y gorau o ddoniau actio a chyfarwyddo Prydain yn cyflwyno cylch o bedair drama hanesyddol a ffilmiwyd yn arbennig ar leoliad: *Richard II, Henry IV*, Rhannau I a II a *Henry V*. Bydd cyfres o raglenni dogfen yn cyd-fynd â'r rhain, gan gynnwys *Shakespeare and Us*, lle bydd Simon Schama yn archwilio cyd-destun hanesyddol yr oes a *Shakespeare's Italy* drwy lygaid Francesco da Mosta.
- Mae'r Gemau Olympaidd yn gyfle i gynnal tymor Llundain. Bydd Jools Holland yn canolbwyntio ar seiniau Llundain; bydd y cyfarwyddwr Julien Temple yn dilyn taith y ddinas o brifddinas Ymerodrol oes Fictoria i fwrlwm byd-eang heddiw; bydd *London in Pictures* yn adrodd hanes y ddinas drwy ei chelf; a bydd cyfres chwe rhan newydd yn cymharu strydoedd Llundain heddiw gyda mapiau tlodi Fictoraidd Charles Booth.
- Bydd BBC Two yn adeiladu ar ei gallu unigryw i ddarparu llwyfan ar gyfer arbenigedd. Ymysg pethau eraill, bydd Howard Goodall yn cyflwyno hanes cerddoriaeth o gyfnod cynhanes hyd heddiw, bydd Stephanie Sandbrook yn bwrw golwg ar wyddoniaeth economeg, Mary Beard ar yr hen Rufain, Dominic Sandbrook ar yr 1970au, Daniel Barenboim ar Symffonïau Beethoven a Hilary Devey ar fenywod yn yr ystafell fwrdd.

## Datblygiadau gwasanaeth eraill

- Ym maes Gwyddoniaeth, byddwn yn chwilio am ffyrdd newydd ac arloesol o ddeall sut mae'r bydysawd yn gweithio. Byddwn yn bwrw golwg fyw ar losgfynyddoedd, yn dilyn mynydd iâ ar ei daith tua'r de, yn defnyddio'r offer diweddaraf i archwilio byd natur y nos a chael golwg o'r newydd ar ein hynafiaid yn *Prehistoric Autopsy*.
- Bydd gwneuthurwyr ffilmiau dogfen yn parhau i roi mynediad heb ei ail y tu ôl i lenni'r Brydain sydd ohoni gyda phortreadau o fywyd yn *Network Rail, The Market, Great Ormond St* a *Welcome to Bradford*. Ym maes Materion Cyfoes, bydd Fergal Keane yn ymweld â'r bobl a gyfarfu yn ei gyfres *Forgotten Britain*.

# BBC Three

Mae BBC Three wedi ymrwymo i gynnwys a doniau Prydeinig arloesol. Nod y sianel yw darparu cymysgedd eang o raglenni ar gyfer cynulleidfaoedd iau yn bennaf.

## Gweledigaeth y Rheolydd ar gyfer y gwasanaeth yn 2012/2013

Mae BBC Three yn sianel sy'n darparu cymysgedd gyfoethog o raglenni arloesol, cyffrous a chreadigol ymhob genre ar gyfer gwylwyr ifanc. Gwyddom ein bod ar yr un donfedd â'n cynulleidfa darged gan mai BBC Three yw'r sianel ddigidol fwyaf poblogaidd o hyd ymhlith pobl ifanc 16-34 oed yn ystod ei horiau darlledu.

BBC Three yw'r unig sianel ddigidol o hyd sy'n darparu cynnwys ffeithiol trawiadol iawn sy'n addysgu ac ymgysylltu â phobl ifanc. Nid ydym byth yn osgoi mynd i'r afael â materion anodd mewn ffordd ffres ac arloesol, ac yn y flwyddyn nesaf rwyf yn bwriadu cyflwyno tymor o raglenni sy'n bwrw golwg ar iechyd meddwl. Rwyf hefyd yn bwriadu adeiladu ar lwyddiant *Bringing up Britain*, gyda thymor dilynol yn archwilio materion sy'n ymwneud â magu plant a theulu. Hefyd, bydd 12 rhifyn o'r sioe drafod amserol newydd, *Free Speech*.

Mae gan BBC Three rôl bwysig wrth feithrin doniau newydd. Yn ein comedi naratif *Bad Education*, bydd y comedïwr Jack Whitehall yn arddangos ei ddoniau ysgrifennu am y tro cyntaf. Bydd ein sioe newydd *Live at the Electric* yn darparu llwyfan ar gyfer doniau comedi newydd.

**Zai Bennett, Rheolydd, BBC Three**

## Datblygiadau nodedig yn y gwasanaeth yn ystod y flwyddyn nesaf

- Bydd gan BBC Three rôl allweddol wrth helpu i ddarparu rhaglenni heb eu hail o Gemau Olympaidd 2012. Bydd gan y sianel ei thîm cyflwyno unigryw ei hun, dan arweiniad Jake Humphrey a Manish Bhasin.
- Bydd gan BBC Three rôl hollbwysig wrth ddarparu materion cyfoes ar gyfer cynulleidfa ifanc. Byddwn yn parhau i wneud hyn gyda'n bwletinau *60 Second News* a'n rhaglenni dogfen unigol. Hefyd, mewn cydweithrediad â BBC Learning, byddwn yn darlledu *Free Speech*, sef cyfres drafod amserol 12 rhaglen. Bydd y rhaglenni'n cael eu cyflwyno gan Jake Humphrey a bydd elfen ar-lein ryngweithiol er mwyn sicrhau bod ein gwylwyr yn cael dweud eu dweud ar wahanol lwyfannau.
- Bydd rhaglenni ffeithiol BBC Three yn canfod ffyrdd ffres ac arloesol o fynd i'r afael â materion sy'n bwysig i gynulleidfa ifanc. Yn ein fformat ffeithiol newydd, *Be Your Own Boss*, bydd yr entrepreneur Richard Reed yn ysbrydoli pennau busnes ifanc gobeithiol i fentro ar eu pen eu hunain. Bydd ein tymhorau ffeithiol newydd yn cynnwys un ar iechyd meddwl.

## Datblygiadau gwasanaeth eraill

- Rydym am barhau i archwilio hanes cyfoes ar gyfer ein cynulleidfa darged. Rydym wedi comisiynu ail gyfres o'r gyfres arobryn *Our Way*.
- Mae gan BBC Three rôl allweddol o ran datblygu doniau comedi. Bydd Live at the Electric yn cynnig llwyfan i ddoniau newydd ar y sianel. Bydd ein comedïau naratif newydd yn cynnwys *Bad Education* gyda Jack Whitehall, a *Cuckoo*.
- Bydd BBC Three yn cryfhau'r cysylltiad â'n cynulleidfa, gan gynyddu ein heffaith drwy gyfryngau cymdeithasol a chynnwys ar-lein yn *Free Speech*, *Our War* a rhaglenni ffeithiol amrywiol.

# BBC Four

Nod BBC Four yw bod y sianel deledu sy'n cyfoethogi fwyaf yn ddeallusol a diwylliannol ym Mhrydain, gan gynnig amrywiaeth uchelgeisiol o gelfyddydau, cerddoriaeth a diwylliant o'r DU a thu hwnt.

## Gweledigaeth y Rheolydd ar gyfer y gwasanaeth yn 2012/2013

Eleni, mae BBC Four yn dathlu ei phen-blwydd yn ddeg oed. Fel y gwnaethom yn y dechrau, byddwn yn ceisio bod y sianel sy'n cyfoethogi fwyaf yn ddiwylliannol yn y DU a bod y sianel o ddewis i bobl sy'n hoff o feddwl.

Diben, menter ac angerdd sydd wrth wraidd BBC Four. Bydd yn parhau i hyrwyddo arbenigwyr yn eu meysydd i leisio eu barn a'u safbwyntiau, gyda phob un â rhywbeth i'w ddweud. Trwy wneud hynny, mae BBC Four am geisio bod yn gymaint o ran o gynnyrch celfyddydol Prydain â'r diwylliant y mae'n ei adlewyrchu.

Bydd BBC Four yn parhau i fod yn sianel sy'n rhagori ym myd y celfyddydau a diwylliant, gan ymdrin â phynciau mewn modd treiddgar, manwl ac awdurdodol heb ei ail. Nid yn unig mae ganddi ymrwymiad i roi sylw i'r celfyddydau, ond mae hefyd yn eu dathlu'n frwd, gan gynhyrchu cynnwys sy'n apelio at gynulleidfa eang. Mae'r sianel yn chwilfrydig am swyddogaeth y celfyddydau a diwylliant yn ein cymdeithas fodern. Y nod yw cynnig trafodaeth a dealltwriaeth trwy raglenni ffeithiol, drama ac adloniant – a hynny drwy raglenni newydd ac o'r archif. ar y sgrin ac ar-lein drwy ein Casgliadau Archif.

Bydd BBC Four yn parhau i gyfuno steil a ffraethineb, gan ddiddanu wrth ein haddysgu, gan gynnig gwybodaeth a dirnadaeth tra'n difyrru ar yr un pryd. Felly, gallwch ddisgwyl safbwyntiau cryf a ffyrdd newydd o edrych ar bynciau sy'n ennyn trafodaeth mewn casgliad o raglenni a fydd, gobeithio, yn ddifyr a gwerth chweil.

**Richard Klein, Rheolydd, BBC Four**

## Datblygiadau nodedig yn y gwasanaeth yn ystod y flwyddyn nesaf

- Un o themâu rhaglenni celf y sianel fydd celf yr Hen Fyd – bydd Alistair Sooke yn archwilio celf yr hen Rufain; yn *Age of Light*, bydd Waldemar Januszczak yn cynnig ei safbwynt unigryw ei hun ar y *Dark Ages*; a bydd James Fox yn adrodd hanes *History of the World in Three Colours: Blue, White and Gold*. Bydd partneriaeth ddwy flynedd BBC Four gyda'r V&A, *Handmade Britain*, yn rhoi sylw i waith metel a phren. Bydd BBC Four hefyd yn cyfrannu ffilmiau at y tymhorau Shakespeare a Llundain, gan gynnwys James Shapiro ar *Jacobean Shakespeare* a cynhyrchyriad RCS newydd o *Julius Caesar*.
- Byddwn hefyd yn canolbwyntio ar gerddoriaeth yr 20fed Ganrif ar ei ffurf fwyaf digyfaddawd. Bydd cyfres *The Britannia* yn dathlu pync; ac mewn partneriaeth â'r South Bank bydd eithafion cerddoriaeth glasurol fodern dan y chwyddwydr. Mewn cydweithrediad â BBC Two, bydd Daniel Barenboim yn arwain Symffonïau Beethoven yn eu cyfanrwydd yn y Proms a bydd cystadlaethau *Young Musician of the Year*, *Choir of the Year* a *Leeds Pianoforte* yn dychwelyd. Bydd arlwy gerddorol eclectig y sianel yn parhau, o gelfyddyd y Requiem i Chas n Dave.
- Bydd ffocws rhyngwladol BBC Four mor gryf ag erioed. Yn ogystal â'i phresenoldeb rheolaidd, bydd *Storyville* yn cynnal tymor byd eang o bwys o raglenni dogfen newydd, *Why Poverty?* Byddwn yn parhau i roi lle amlwg i ffilmiau hir newydd mewn ieithoedd tramor a chyfresi drama nos Sadwrn - bydd *The Bridge* yn ymddangos ochr yn ochr â chyfres newydd o *Borgen*, *The Killing* a *Spiral*.

## Datblygiadau gwasanaeth eraill

- Yn agosach i gartref, byddwn yn dilyn blwyddyn gyda Chyngor Stoke wrth iddynt frwydro i ymdopi â thoriadau yn y gyllideb. Bydd y Bargyfreithiwr Harry Potter yn cyflwyno hanes awdurdodol o system gyfreithiol Prydain. Ar ôl ei gyfres ar dadolaeth, bydd y gwneuthurwr ffilmiau Steve Humphries yn troi ei law at ganrif o gariad a phriodas.
- O ran gwyddoniaeth, bydd BBC Four yn cyflwyno tymor pwysig ar bryfed. Bydd Laverne Antrobus yn archwilio'r hyn y gall cyflyrau fel awtistiaeth, ADHD ac OCD ei ddweud wrthym am natur datblygiad y plentyn. Bydd Jim Al-Khalili yn ymchwilio yn *Order and Disorder*, bydd Marcus du Sautoy yn datgelu gwyddoniaeth mesur a bydd Dr Mike Mosely yn archwilio'i berfedd ei hun ar gyfer wythnos *Human Body*

annisgwyl. Yn dilyn ei *Royal Institute Christmas Lectures*, bydd *Mark Miodownik* yn cyflwyno cyfres ar strwythur deunyddiau.

# CBBC

Mae CBBC yn cynnig cymysgedd unigryw o raglenni ar gyfer plant 6-12 oed, gyda rhaglenni o'r DU yn bennaf a ddarperir mewn amgylchedd cyffrous, creadigol a hwyliog.

## Gweledigaeth y Rheolydd ar gyfer y gwasanaeth yn 2012/2013

Mae CBBC wedi ennill ei phlwyf fel sianel a gwefan blant fwyaf poblogaidd y DU ar gyfer plant 6 i 12 oed, gyda chynnwys sy'n apelio ac sy'n hoelio'r sylw, yn berthnasol ac yn llawn her.

Ein gweledigaeth yw cynnal ac adeiladu ar ein llwyddiant. Rydym am ddwysau ein cysylltiad â gwylwyr a defnyddwyr cyfredol CCBC, ac ymestyn ein cyrhaeddiad i gynulleidfaoedd newydd er mwyn bod yn fwy perthnasol ac anhepgor hyd yn oed i holl blant y DU.

Byddwn yn gwneud defnydd llawn o'n cartref newydd yn Salford, a pharhau i gryfhau ein perthynas â chwmnïau cynhyrchu annibynnol yng ngogledd Lloegr.

Drwy raglenni drama, adloniant, ffeithiol, comedi neu newyddion, mae CCBC yn cyflwyno straeon pwysig sy'n adlewyrchu safbwyntiau plant ar y byd, eu lle yn y byd, a sut fyd yr hoffent ei weld. Mae'n rhan bwysig o dyfu i fyny, ac yn darparu profiad cyffredin i holl blant y DU. Mae plant yn ganolog i'r sianel, a'n gweledigaeth yw parhau i greu mwy o raglenni unigryw, difyr a llawn her sy'n eu cadw yno.

**Damian Kavanagh, Rheolydd, CBBC**

## Datblygiadau nodedig yn y gwasanaeth yn ystod y flwyddyn nesaf

- Byddwn yn mynd ati i liniaru effaith y cynnig yn *Rhoi Ansawdd yn Gyntaf* i gael gwared ar raglenni plant o BBC One a Two er mwyn i raglenni CBBC gael eu darlledu ar ei sianel ddigidol yn unig. Mae ymchwil yn cadarnhau na fyddai hyn yn peri trafferthion arwyddocaol o safbwynt y gynulleidfa, ond bydd angen i ni sicrhau ein bod yn symud cynulleidfaoedd cyfredol yn effeithiol, ac yn denu cynulleidfaoedd newydd. Byddwn yn cyflawni hyn drwy amserlenni ar yr awyr ac oddi ar yr awyr, strategaethau hyrwyddo a marchnata ar y cyd â BBC One a BBC Two.
- Byddwn yn canolbwyntio ar adeiladu ar lwyddiant gwefan CBBC. O'r 2.6 miliwn o blant sy'n ein gwylio ar y teledu bob wythnos, dim ond 1.2 miliwn ohonynt sy'n defnyddio ein gwefan. Byddwn yn sicrhau cysylltiad agosach rhwng ein strategaethau darlledu ac ar-lein, yn seiliedig ar ddealltwriaeth glir o ymddygiad a disgwyliadau ar-lein plant.
- Byddwn yn ceisio cynnal a/neu gynyddu cyllid trydydd parti a masnachol. Mae llawer o'n partneriaid, sy'n dibynnu ar y farchnad ryngwladol, yn gweld yr hinsawdd economaidd sydd ohoni'n galed iawn. Felly, byddwn yn wynebu pwysau cynyddol i ddenu incwm masnachol. Yn yr amgylchedd hwn, byddwn yn bwrw ymlaen â'n hymrwymiad i gefnogi rhaglenni arloesol a phoblogaidd gyda gwerthoedd gwasanaeth cyhoeddus clir.

## Datblygiadau gwasanaeth eraill

- Cyfresi drama newydd a hen ffefrynnau'n dychwelyd, gan gynnwys *Aliens v Wizards, Stepping Up, The Knot, Sparticle Mysteries, Dumping Ground, Leonardo, MI High, Wolfblood, 4 O'Clock Club,* a *Young Dracula*.
- O ran comedi, mae gennym gomedi newydd FIT (teitl dros dro) - sioe sgetshis newydd, *Strangehill High, Ooglies, Science Fiction, The Revolting World of Stanley Brown, Hacker Time, Shaun The Sheep*, a rhaglenni byr i ddathlu'r Gemau Olympaidd.
- Mae prosiectau ffeithiol newydd yn cynnwys *Blue Peter Torch Relay, Newsround Specials*, a *Trade Your Way to The USA*. We have *Deadly 60, 12 Again, My Life, Who Let the Dogs Out, Superhuman Superhero, Junior Masterchef, Pet School*, ac ail gyfres o *Show Me What You're Made Of, Naomi's Nightmares of Nature, All Over The Place USA, Microdoc,* a *We Can Be Heroes*.
- Bydd rhaglenni adloniant newydd yn cynnwys *Dick And Dom Hoopla, Sam And Mark Big Friday Wind Up, Friday Download,* a *Marrying Mum And Dad*.

# CBeebies

Nod CBeebies yw cynnig rhaglenni o safon uchel sydd wedi'u cynhyrchu yn y DU gan mwyaf i annog dysgu drwy chwarae mewn amgylchedd cyson ddiogel ar gyfer plant dan chwech oed.

## Gweledigaeth y Rheolydd ar gyfer y gwasanaeth yn 2012/2013

Gyda'i chyfran wylwyr ar ei huchaf ers ei lansio, a'i chyrhaeddiad yn agos i 50%, CBeebies yw sianel cyn ysgol fwyaf poblogaidd y DU, ac mae dros 900,000 o blant yn defnyddio'r wefan bob wythnos. Ein gweledigaeth yw adeiladu ar hyn a sicrhau lle mwy canolog i CBeebies hyd yn oed ym mywydau plant, rhieni a theuluoedd.

Mae creadigrwydd ac arloesedd yn allweddol i CBeebies, ynghyd â'i hymrwymiad i amrywiaeth ac annog cariad at ddysgu. Mae ein rhaglenni unigryw yw cymysgu straeon gyda cherddoriaeth, symud, celf a chrefft, gwyddoniaeth, peirianneg, byd natur ac annog ymchwilio a datrys problemau.

Byddwn yn parhau i adlewyrchu plant o bob cefndir a diwylliant, er mwyn annog plant i fod yn weithgar ac archwilio'r byd o'u cwmpas. Byddwn yn cynnwys hyd yn oed mwy o blant yn ein rhaglenni, er mwyn sicrhau bod y cynulleidfaoedd yn gweld eu hunain, eu teuluoedd a'u ffrindiau ar y sianel, ond yn cael eu cyflwyno hefyd i bobl, lleoedd a diwylliannau newydd. Byddwn hefyd yn cyflwyno bob math o fodelau rôl i helpu plant i fod yn fwy hyderus, mwy gwydn a grymus. Byddwn yn parhau i ganfod ffyrdd newydd o ddarparu cynnwys a phrofiadau cyfoethog, tra'n ychwanegu mwy fyth o hwyl a hiwmor at ein rhaglenni. Byddwn yn manteisio i'r eithaf ar ein cartref newydd yn Salford ac yn cryfhau ein perthynas â chwmnïau cynhyrchu annibynnol yng ngogledd Lloegr.

Byddwn yn cyrraedd mwy o rieni a gofalwyr, er mwyn eu cynorthwyo wrth i'w plant ddatblygu, ac i'w helpu i fanteisio i'r eithaf ar ein rhaglenni.

Mae CBeebies yn gweithio'n galed i gynnal ei apêl unigryw i'r gynulleidfa, ac rydym yn gobeithio atgyfnerthu rôl CBeebies fel conglfaen darlledu gwasanaeth cyhoeddus er gwaethaf y gystadleuaeth gynyddol.

**Kay Benbow, Rheolydd, CBeebies**

## Datblygiadau nodedig yn y gwasanaeth yn ystod y flwyddyn nesaf

- Byddwn yn mynd ati i liniaru effaith y cynnig yn *Rhoi Ansawdd yn Gyntaf* i gael gwared ar raglenni plant o BBC One a Two er mwyn i raglenni CBBC gael eu darlledu ar ei sianel ddigidol yn unig. Mae ymchwil yn cadarnhau na fyddai hyn yn peri trafferthion arwyddocaol o safbwynt y gynulleidfa, ond bydd angen i ni sicrhau ein bod yn symud cynulleidfaoedd cyfredol yn effeithiol, ac yn denu cynulleidfaoedd newydd. Byddwn yn cyflawni hyn drwy amserlenni ar yr awyr ac oddi ar yr awyr, strategaethau hyrwyddo a marchnata ar y cyd â BBC One a BBC Two.
- Byddwn yn cryfhau perthynas CBeebies ag oedolion, fel bod cynulleidfaoedd hen a newydd yn deall a gwerthfawrogi gwerth a photensial ein cynnwys yn llawn. Byddwn yn parhau i ddatblygu adran o wefan CBeebies ar gyfer oedolion, gan ddarparu gwell cynnwys ar gyfer rhieni a gofalwyr.
- Byddwn yn cynnal neu gynyddu incwm trydydd parti/masnachol, tra'n cadw cynnwys gwasanaeth cyhoeddus unigryw o'r DU. Byddwn yn parhau i geisio incwm trydydd parti a refeniw masnachol drwy bartneriaethau cenedlaethol a rhyngwladol â chwmnïau a sefydliadau sydd â'r un ethos, gwerthoedd ac agwedd â CBeebies.

## Datblygiadau gwasanaeth eraill

- Byddwn yn gwella gwerthoedd "Dysgu Drwy Chwarae" CBeebies, er mwyn i ni ddarparu dysgu go iawn. Byddwn yn cynyddu ein casgliad "Caru Dysgu" newydd o raglenni, gan ddwyn ynghyd gyfresi â photensial dysgu cyfoethog ar sail rhifedd a llythrennedd, gan gynnwys *NumTums, Alphablocks, LingoTV* ac *Abadas*,
- Byddwn yn cyflwyno ffyrdd newydd o adrodd straeon ar y sianel. Yn dilyn llwyddiant *Grandpa in My Pocket*, byddwn yn comisiynu gwaith i ddatblygu a chynhyrchu cyfres ddrama â deunydd byw arloesol. Bydd hyn hefyd yn gyfrwng i helpu i dywys cynulleidfaoedd CBeebies at sianel CBBC.

# BBC HD

Gwledd o raglenni gorau'r BBC yn cael eu darlledu ar fanylder uwch – dyna yw sianel BBC HD.

## Gweledigaeth y Rheolydd ar gyfer y gwasanaeth yn 2012/2013

Mae 2012/13 yn flwyddyn bontio i BBC HD gan y bydd y gwasanaeth yn dod i ben ar ei ffurf bresennol ac yn cael ei ail-lansio fel BBC Two HD. Fodd bynnag, yn y cyfnod cyn y cau, bydd BBC HD yn ceisio parhau i gynyddu nifer y gwylwyr a chynnal yr amrywiaeth eang o raglenni y mae'n ei chynnig o bob rhan o bortffolio'r BBC.

Byddwn yn parhau i ddangos rhaglenni gorau'r BBC gydol y flwyddyn bwysig hon, gyda sylw i'r Gemau Olympaidd yn HD a 3D, dathliadau'r Jiwbilî, ac achlysuron chwaraeon a diwylliannol allweddol fel y *Proms*, Wimbledon, F1 a Phencampwriaeth Pêl-droed Ewrop, ynghyd â Gwyliau mawr yr Haf.

Byddwn yn rheoli'r symud o BBC HD i BBC Two HD yn brydlon ac yn effeithlon, gan sicrhau dilyniant o ran darlledu a chynnwys o ansawdd uchel ar gyfer eich cynulleidfaoedd.

**Janice Hadlow, Rheolydd, BBC HD**

## Datblygiadau nodedig yn y gwasanaeth yn ystod y flwyddyn nesaf

- Bydd BBC HD yn parhau i gynllunio ar gyfer cau a symud i BBC Two HD. Rydym yn disgwyl i'r datblygiad hwn ddigwydd ar ôl y Gemau Olympaidd ond cyn diwedd y flwyddyn ariannol, yn dibynnu ar benderfyniadau technegol a golygyddol.
- Bydd BBC HD yn parhau i gynnig darpariaeth HD o ddigwyddiadau byw pwysig y mae'r BBC yn eu darlledu, gan gynnwys y Jiwbilî, y Gemau Olympaidd, Formula 1, Pencampwriaeth Pêl-droed Ewro 2012, Wimbledon a digwyddiadau chwaraeon allweddol eraill gydol y flwyddyn - byddwn hefyd yn darlledu o'r *Proms, Young Musician of the Year* a rhaglenni eraill yn ymwneud â'r Olympiad Diwylliannol, ynghyd â rhaglenni o'r gwyliau *T in the Park* a Chyngerdd Hackney.
- Byddwn hefyd yn parhau i arbrofi gyda darlledu cynnwys 3D pryd a lle'n briodol, fel seremonïau Agor a Chloi'r Gemau Olympaidd.

# BBC News Channel

Mae'r BBC News Channel yn darparu'r newyddion diweddaraf yn gywir, diduedd ac annibynnol ac yn rhoi sylw cynhwysfawr i ddigwyddiadau lleol, rhanbarthol, yn y DU ac yn rhyngwladol. Mae'n cynnig dadansoddiadau arbenigol o'r straeon pwysicaf gan roi'r newyddion yn ei gyd-destun.

## Gweledigaeth y Rheolydd ar gyfer y gwasanaeth yn 2012/2013

Fy uchelgais yw i'r BBC News Channel barhau i fod y sianel newyddion fwyaf poblogaidd yn y DU, a pharhau i gael ei hystyried gan y gynulleidfa fel y lle "gorau i gael newyddion parhaus", gyda naws ac arddull gyflwyno awdurdodol ac apelgar.

Yn ogystal â rhoi sylw cyflym o ansawdd uchel i ddigwyddiadau yn y DU ac ym mhedwar ban byd, bydd y sianel yn rhoi sylw cynhwysfawr i'r llywodraeth glymblaid a'r gwrthbleidiau ac yn egluro goblygiadau eu polisïau i'r DU. Byddwn hefyd yn parhau i gydweithio'n agos â'r Gwledydd a Rhanbarthau Lloegr i roi sylw i'r etholiadau a'r wleidyddiaeth ddatganoledig ledled y DU, gan adlewyrchu pwysigrwydd yr agenda ddatganoledig.

Byddwn yn rhoi sylw i brif ddigwyddiadau'r byd, gan ddefnyddio'n biwros newyddion a'n cyflwynwyr ar leoliad gan egluro eu cyd-destun ac arwyddocâd i'n cynulleidfa. Yn nes adref, byddwn yn parhau i ddadansoddi a deall materion llosg y dydd, yn enwedig cyflwr yr economi a thoriadau yn y sector cyhoeddus. Bydd sylw arbennig yn cael ei roi i etholiadau Arlywyddol Ffrainc a'r UDA, a'u cyflwyno o'r lleoliad.

Byddwn hefyd yn ceisio rhoi sylw eang i'r celfyddydau, gwyddoniaeth a chwaraeon, yn arbennig y paratoadau ar gyfer Gemau Olympaidd Llundain 2012, gan gynnwys Taith Gyfnewid y Fflam.

**Kevin Bakhurst, Rheolydd, BBC News Channel**

## Datblygiadau nodedig yn y gwasanaeth yn ystod y flwyddyn nesaf

- Byddwn yn darlledu rhaglenni arbenigol i ddathlu Jiwbilî Diemwnt y Frenhines.
- Bydd sylw cynhwysfawr i'r paratoadau ar gyfer etholiadau lleol mis Mai a'r canlyniadau ac etholiadau Maer Llundain a dinasoedd eraill Lloegr.
- Gydol y flwyddyn byddwn yn rhoi sylw i'r paratoadau ar gyfer Gemau Olympaidd a Pharalympaidd Llundain 2012, gan gynnwys Taith Gyfnewid y Fflam Olympaidd ac uchafbwyntiau'r Olympiad Diwylliannol.
- Byddwn yn mynd ati i lansio stiwdios Newyddion teledu ac ystafell newyddion newydd yn Broadcasting House, gan fanteisio i'r eithaf ar y lleoliad a'r dechnoleg newydd i wella effaith y News Channel ar yr awyr.

## Datblygiadau gwasanaeth eraill

- Byddwn yn gweithio gyda gwefan BBC News i ddatblygu ac adeiladu ar y Dudalen Fyw (fideo a thestun) ar gyfer digwyddiadau pwysig.
- Byddwn hefyd yn parhau i archwilio'r cyfleoedd a gynigir gan dechnoleg newydd ar gyfer sianeli newyddion, fel Trydar.
- Byddwn yn adeiladu ar lansiad llwyddiannus Canolfan Newyddion Chwaraeon newydd y BBC a'r stiwdio yn Salford.

# BBC Parliament

Nod BBC Parliament yw rhoi gwaith siambrau seneddol a chyrff deddfwriaethol y DU a Senedd Ewrop o fewn cyrraedd pawb, a dadansoddi a rhoi cyd-destun i'r materion sydd y tu ôl i ddadleuon seneddol.

## Gweledigaeth y Rheolydd ar gyfer y gwasanaeth yn 2012/2013

Yr hyn sydd wrth wraidd BBC Parliament yw darllediadau byw a rhai fel pe baent yn fyw o drafodaethau a gwrandawiadau seneddol. Mae materion yn Nhŷ'r Cyffredin wedi dod yn llawer mwy ymatebol i ddigwyddiadau cyfoes drwy ddefnyddio nifer o ddyfeisiau trefniadol newydd. Ein her yw adlewyrchu'r digwyddiadau cyflym hyn mewn ffordd sy'n golygu bod y gwylwyr yn cael y cyfle gorau o gael gwybod am y digwyddiad yn y lle cyntaf ac yna'n deall deunydd sy'n gymhleth yn aml.

Mae haf 2012 yn cynnig dau ddigwyddiad arbennig, sef Jiwbilî Diemwnt y Frenhines a'r Gemau Olympaidd.

Bydd y sianel yn dathlu'r Jiwbilî gyda rhaglenni arbennig ac yn edrych ar y paratoadau ar gyfer y Gemau Olympaidd, a'u hetifeddiaeth, gyda rhaglenni am y pwyllgorau perthnasol. Er mwyn cyflawni cynlluniau'r BBC ar gyfer darlledu o'r Gemau Olympaidd, bydd angen lled band DTT BBC Parliament gydol y digwyddiad.

**Peter Knowles, Rheolydd, BBC Parliament**

## Datblygiadau nodedig yn y gwasanaeth yn ystod y flwyddyn nesaf

- Byddwn yn helpu i dywys y gwylwyr drwy amserlen seneddol gymhleth drwy ddarparu graffeg ar-sgrin a diweddaru'r defnydd o'r canllaw rhaglen electronig (EPG).
- Byddwn yn cyflwyno adroddiadau ar y drafodaeth ar y refferendwm ar annibyniaeth yr Alban drwy drafodaethau yn y siambrau, gwaith pwyllgorau, rhaglenni arbennig gan BBC Scotland ac yn rhaglenni dadansoddi'r sianel ei hun.
- Byddwn yn dathlu Jiwbilî Diemwnt y Frenhines gyda rhaglenni arbennig, gan gynnwys darlledu areithiau'r Jiwbilî Arian, Aur a Diemwnt gan y Frenhines yn Neuadd San Steffan a'r Darllediad Allanol gwreiddiol cyfan o Ddydd y Coroni.

## Datblygiadau gwasanaeth eraill

- Byddwn yn darlledu cyfres ddarlithio 2012 y Llefarydd ar y Great Offices of State ac yn creu archif ar-lein yn www.bbc.co.uk/democracylive
- Byddwn yn dangos detholiad o ddyfarniadau'r Llys Goruchaf ac yn datblygu archif ar-lein.
- Byddwn yn darlledu gwrandawiadau pwyllgorau yn archwilio dulliau llywodraethu Gemau Olympaidd Llundain 2012 a'u hetifeddiaeth.

# BBC Radio 1

Nod BBC Radio 1 yw cynnig gwasanaeth o ansawdd uchel i gynulleidfaoedd ifanc, gan gyfuno'r gerddoriaeth newydd orau a chyflwynwyr difyr, a chynnig llwyfan ar gyfer cerddoriaeth fyw, newyddion ac ymgyrchoedd cynghori.

## Gweledigaeth y Rheolydd ar gyfer y gwasanaeth yn 2012/2013

Mae 2012 yn mynd i fod yn flwyddyn gyffrous i Radio 1. Ymunodd grŵp newydd o gyflwynwyr ifanc, ffres â'r orsaf ym mis Ebrill; byddwn yn cynnal ein digwyddiad cerddoriaeth fyw mwyaf uchelgeisiol erioed yn Hackney Marshes ym mis Mehefin; ac rwyf hefyd yn disgwyl gweld datblygiadau pellach yn y byd digidol sy'n newid y ffordd y mae cynulleidfaoedd yn defnyddio'r radio a'r ffordd y mae'n 'edrych'.

Mae'r newidiadau i'n detholiad o DJs yn rhan o'r strategaeth barhaus i ddenu gwrandawyr iau a bydd yn sicrhau bod ein rhaglenni cerddorol unigryw yn adlewyrchu bob math o chwaethau amrywiol. Ond, mewn byd o ffonau deallus, llechi a setiau teledu â'r rhyngrwyd, rydym hefyd yn edrych ar y ffordd yr ydym yn darparu ein cynnwys ac yn ystyried ffyrdd o ailddyfeisio radio ar gyfer cenhedlaeth newydd.

Credaf ei bod yn hanfodol hefyd i Radio 1 ddefnyddio ei safle unigryw yn y farchnad i geisio cynnig llais i bobl ifanc yn y DU. Tra bod rhai gwasanaethau cyfryngau yn ceisio diddanu yn unig, mae Radio 1 yn ceisio mynd gam ymhellach ac rwyf am ail-adrodd y 'Big Conversation' a gynhaliwyd yn 2011, gan ddod â phob math o wrandawyr ifanc ac oedolion dylanwadol at ei gilydd er mwyn iddynt drafod materion o bwys, eu pryderon ac uchelgeisiau.

**Ben Cooper, Rheolydd, BBC Radio 1**

## Datblygiadau nodedig yn y gwasanaeth yn ystod y flwyddyn nesaf

- Cynhelir Penwythnos Hackney 2012 Radio 1 ym mis Mehefin. Bydd oddeutu 100 o berfformwyr, yn amrywio o sêr rhyngwladol i artistiaid newydd o Ddwyrain Llundain, yn perfformio ar chwe llwyfan.
- Bydd Greg James yn cyflwyno rhaglen brynhawn newydd (4-7pm) o fis Ebrill ymlaen, gan newid lle â Scott Mills; gyda Gemma Cairney yn symud o BBC Radio 1Xtra i gyflwyno sioe frecwast newydd ar y penwythnos (7-10am). Rydym hefyd yn adnewyddu ein casgliad o DJs arbenigol, gan adlewyrchu twf 'dubstep' gyda sioe newydd ar gyfer Skream a Benga, ynghyd â chyflwyno detholiad amrywiol o fathau eraill o gerddoriaeth.
- Bydd symud i stiwdios newydd, pwrpasol yn Broadcasting Hosue yn helpu i hwyluso twf cynnwys gweledol, gyda chynulleidfaoedd yn gallu gwylio perfformiadau cerddoriaeth fyw ac ymweliadau gwadd yn llawer mwy rheolaidd.

## Datblygiadau gwasanaeth eraill

- I gyd-fynd â Phenwythnos Hackney, bydd Academi Radio 1 a Radio 1Xtra yn agor am dair wythnos ym mis Mehefin ac yn cynnig lle i bobl ifanc ym Mwrdeistrefi'r Gemau Olympaidd i gael eu hysbrydoli, ennill profiad ymarferol a rhannu syniadau. Bydd gweithgareddau a sesiynau allweddol yn cael eu ffilmio a'u rhannu ar-lein.
- Bydd Newsbeat yn parhau â'i ddeialog â chynulleidfaoedd ifanc ar y materion cyfoes allweddol sy'n effeithio arnynt, er enghraifft diweithdra ymysg pobl ifanc. Drwy ddefnyddio'r cyfryngau cymdeithasol, byddwn yn sicrhau bod ein gohebu yn adlewyrchu eu pryderon yn gywir, gan ymgysylltu â phenderfynwyr allweddol i ateb y cwestiynau a ofynnir.
- Rydym yn bwriadu cydweithio eto gyda Ffilharmonig y BBC ar waith arloesol arall; a byddwn yn darlledu nifer o berfformiadau Live Lounge Special hanner awr yn ystod rhaglen ganol bore allweddol Fearne Cotton.
- Byddwn yn dathlu pan fydd y Fflam Olympaidd yn cyrraedd y DU ym mis Mai gyda digwyddiad dawns arbennig yn Torbay ac yn dychwelyd i Wembley Arena ar gyfer Gwobrau Ieuenctid Radio 1 yn yr hydref.

- Bydd ein menter Take It On yn dychwelyd yn yr hydref drwy ganolbwyntio ar gyflogaeth, gan geisio cynghori ac annog pobl ifanc i gymryd y camau cyntaf at gyflawni eu hamcanion.
- Rydym yn gobeithio ymweld ag Affganistan gyda BFBS, tra bydd Tim Westwood yn cyfarfod â rhai o wragedd a chariadon milwyr sy'n cadw'r fflam ynghyn gartref mewn rhaglen ddogfen arbennig.

# BBC Radio 2

Mae BBC Radio 2 yn cynnig amrywiaeth eang o gerddoriaeth boblogaidd ac arbenigol a pherfformiadau byw i'w gwrandawyr, a ategir gan amrywiaeth eang o raglenni llafar sy'n cynnwys materion cyfoes, rhaglenni dogfen, crefydd a'r celfyddydau.

## Gweledigaeth y Rheolydd ar gyfer y gwasanaeth yn 2012/2013

Fy uchelgais ar gyfer Radio 2 yw darparu adloniant cerddoriaeth unigryw o'r ansawdd uchaf, gyda phortffolio cyfoethog ac amrywiol. Rwyf am ein gweld yn ganolog yn ddiwylliannol yn Jiwbilî Diemwnt y Frenhines a Gemau Olympaidd Llundain 2012, gyda darllediadau byw ledled y wlad, lle bynnag y mae'r digwyddiadau eiconig hyn yn cyffwrdd â bywydau ein gwrandawyr.

Bydd ein rôl hollbwysig o ran cerddoriaeth yn parhau, gan ehangu chwaeth gerddorol gwrandawyr a chefnogi artistiaid. Bydd yr orsaf yn dathlu ei hymrwymiad i gerddoriaeth fyw yn ddiweddarach yn y flwyddyn gyda chyfres o ddigwyddiadau cerddoriaeth fyw aml-lwyfan unigryw, gyda pherfformiadau gan rai o artistiaid gorau'r byd. Mewn blwyddyn lle bydd sylw'r byd ar y DU, hoffwn i ni arddangos diwylliant poblogaidd cyfoethog y genedl, a dathlu popeth Prydeinig!

Byddwn yn adeiladu ar lwyddiant ein cystadleuaeth ysgrifennu i Blant a'n Gwobr Comedi Newydd yn y DU, i greu digwyddiadau mwy uchelgeisiol a dylanwadol yn 2012. Rydym eisoes wedi derbyn dwywaith cymaint o gynigion ar gyfer ein cystadleuaeth 500 Words na'r llynedd. Byddwn hefyd yn parhau i adlewyrchu ein rhaglenni cerddoriaeth arbenigol a'n rhaglenni dogfen min nos yn ystod y dydd, a bydd 2 Day yn dychwelyd ym mis Mai i'n helpu i bwysleisio hyn.

**Bob Shennan, Rheolydd, BBC Radio 2**

## Datblygiadau nodedig yn y gwasanaeth yn ystod y flwyddyn nesaf

- Yn ystod y Gemau Olympaidd, bydd Chris Evans yn darlledu'n fyw o'r Parc Olympaidd, fel rhan o adlewyrchiad diwylliannol Radio 2 o'r digwyddiad chwaraeon mwyaf i gael ei gynnal yn y DU erioed.
- Bydd Radio 2 yn darlledu cyfres 50 rhan bwysig: *The People's Music – The Songs That Made Britain*, a fydd yn cael ei chyflwyno a'i hysgrifennu gan Stuart Maconie – cyfres o draethodau cerddorol sy'n croniclo'r caneuon a lywiodd ddiwylliant Prydain ar ôl y rhyfel.
- Bydd menter bwysig o'r enw *The People's Archive* yn ceisio adennill y perlau coll o'r archif ddarlledu.

## Datblygiadau gwasanaeth eraill

- Bydd Chris Evans yn darlledu rownd derfynol ei gystadleuaeth 500 Words o Ŵyl y Gelli.
- Byddwn yn datblygu drama gerddoriaeth newydd unigryw gyda BBC Radio Drama am hynt a helynt bywyd yn y diwydiant cerddoriaeth, gyda naratif yn cael ei arwain gan gerddoriaeth wedi'i recordio'n arbennig.
- Bydd Moira Stuart yn dathlu gwaith cantorion Jazz gwrywaidd, fel Lou Rawls a Joe Williams.
- Byddwn yn darlledu cyfres 6 rhan o Faledi Olympaidd – straeon thematig am hanes y Gemau, gan ddefnyddio deunydd archif, cyfweliadau newydd, a chaneuon wedi'u cyfansoddi'n arbennig.
- Bydd Paul Gambaccini yn cyflwyno hanes chwe rhan o radio cerddoriaeth, fel rhan o ddathliadau pen-blwydd y BBC yn 90 oed.
- I ddathlu 65 mlynedd o annibyniaeth India, bydd Hardeep Singh Kohli yn teithio'r DU i ddarganfod sut mae diwylliannau Prydain ac India wedi ymdoddi.
- Byddwn yn lansio Gwobrau Comedi Newydd Radio 2 ym mis Mai gyda'r rownd derfynol fawreddog yn Blackpool ym mis Tachwedd.

# BBC Radio 3

Mae BBC Radio 3 yn canolbwyntio ar gerddoriaeth glasurol ac yn darparu amrywiaeth eang o jazz, cerddoriaeth y byd, rhaglenni celfyddydol, crefyddol a drama; mae pwyslais cryf ar berfformiadau cerddorol o bob rhan o'r DU.

## Gweledigaeth y Rheolydd ar gyfer y gwasanaeth yn 2012/2013

Bydd Radio 3 yn parhau i ganolbwyntio ar ei rhaglenni cerddoriaeth a chelfyddydol unigryw, gan ystyried ffyrdd newydd o ymgysylltu â chynulleidfaoedd a chreu perthynas agosach â'n gwrandawyr drwy ddarparu cyfleoedd iddynt gyfathrebu'n fwy effeithiol â'r orsaf.

Mewn haf o ddiddordeb digyffelyb yn Llundain a'r Gemau Olympaidd, bydd Proms y BBC yn rhan o Ŵyl Llundain 2012, gan ddarparu deufis o gerddoriaeth eithriadol. Yn ystod yr un cyfnod, byddwn eto – yn dilyn y fenter cyngherddau byw yn ystod yr wythnos yn 2011 – yn datblygu ein rhaglenni o gyngherddau yn y DU drwy ddarlledu'n fyw o Gaeredin yn ystod yr ŵyl.

Byddwn yn cydweithio'n agosach â'r gwasanaeth teledu, er enghraifft, ar brosiect hanes cerddoriaeth. Yn allanol, rydym yn parhau i ehangu ein detholiad o bartneriaid, gan gynnwys yr Ymddiriedolaeth Genedlaethol, gan weithio gyda nhw ar ffocws *Baroque Spring* ar gyfer dechrau 2013.

Byddwn yn parhau â'n arlwy ddiwylliannol eang, er enghraifft drwy gefnogi cerddor ifanc o Golombia yn yr World Routes Academy, ac rhoi bywyd newydd i'r rhaglenni jazz.

**Roger Wright, Rheolydd, BBC Radio 3**

## Datblygiadau nodedig yn y gwasanaeth yn ystod y flwyddyn nesaf

- Bydd Radio 3 yn darlledu'n fyw o Ŵyl Caeredin, gan ddarparu mynediad unigryw yn ystod cyfnod yr ŵyl a chynyddu ymrwymiad Radio 3 ymhellach i gerddoriaeth fyw.
- Byddwn yn cynnal sawl prosiect ar y cyd â BBC Television, gan gynnwys hanes cerddoriaeth.
- Mewn partneriaeth â'r Ymddiriedolaeth Genedlaethol, bydd Radio 3 yn cyflwyno cyfres arbennig o raglenni, *Baroque Spring*, a fydd yn cynnwys cyngherddau o leoliadau hanesyddol.

## Datblygiadau gwasanaeth eraill

- Bydd Leeds Piano Competition yn rhoi'r cyfle i ganolbwyntio ar ganu'r piano drwy'r hydref, a bydd Radio 3 hefyd yn darlledu cystadleuaeth Côr y Flwyddyn.
- Mae 2013 yn flwyddyn pen-blwyddi Wagner, Verdi a Britten, a byddwn yn dathlu eu gwaith gydol y flwyddyn, gan gynnwys eu holl gynnyrch operatig.
- Ym mis Mai, bydd Radio 3 yn darlledu diwrnod ymroddedig i bortreadau mewn cerddoriaeth, gan archwilio sut mae cyfansoddwyr wedi ceisio mynegi cymeriad a phersonoliaeth; fel rhan o'r diwrnod, bydd gwaith newydd yn cael i gomisiynu i adlewyrchu ffigwr cyfoes a ddewisir gan y gynulleidfa.
- Roedd 1812 yn flwyddyn bwysig i Napoleon a hanes Ewrop, a bydd Radio 3 yn ystyried ei etifeddiaeth ddiwylliannol.
- Bydd Radio 3 yn cyflwyno rhaglenni sy'n gwerthuso bywyd a gwaith y ffigur arbrofol, John Cage (ganed 1912).

# BBC Radio 4

Mae Radio 4 yn wasanaeth llafar cymysg sy'n cynnig newyddion a materion cyfoes treiddgar ac amrywiaeth eang o raglenni deallus eraill mewn sawl genre, gan gynnwys drama, darlleniadau, comedi a rhaglenni ffeithiol a chylchgrawn.

## Gweledigaeth y Rheolydd ar gyfer y gwasanaeth yn 2012/2013

Fy uchelgais yw i Radio 4 barhau i fod yr orsaf lafar sy'n denu'r nifer uchaf o wrandawyr yn y DU, gan barhau i ddifyrru ei chynulleidfa gyda'i hamrywiaeth a'i rhaglenni o ansawdd. Byddwn yn parhau i gynyddu cynnwys deallusol Radio 4 gyda chreadigrwydd a'r annisgwyl, er mwyn ychwanegu ffocws ar fywyd cyfoes at ein arlwy hanes gref a rhoi mwy o flas rhyngwladol i'r rhwydwaith.

Bydd Radio 4 yn parhau i roi sylw i wyddoniaeth, er enghraifft drwy ddatblygu'n rhaglen oriau brig newydd, *The Life Scientific*, a gyflwynir gan y ffisegydd Jim Al-Khalili, lle mae gwyddonwyr yn siarad â gwyddonwyr.

Byddwn yn cyflwyno adroddiadau a dadansoddi datblygiadau yng ngwleidyddiaeth, economeg a chymdeithas Prydain a'r byd drwy raglenni materion cyfoes a newyddion ymatebol, gan gynnwys rhaglenni dogfen blaenllaw ar bynciau fel Iran a gyflwynir gan John Simpson a chyfresi sy'n gwneud pynciau anodd yn hygyrch, fel *Stephanomics* gan Stephanie Flanders, yn ogystal â thrwy raglenni trafod, nodwedd a drama.

Bydd ffocws cynyddol ar ddiwylliant ar yr orsaf yn 2013. Rydym yn parhau'n ymroddedig i gynnig y detholiad ehangaf o ddrama wreiddiol yn y DU, gan gynnwys cynhyrchiad o *Ulysses* gydol y dydd a thymor ar George Orwell.

**Gwyneth Williams, Rheolydd, BBC Radio 4**

## Datblygiadau nodedig yn y gwasanaeth yn ystod y flwyddyn nesaf

- Bydd y rhaglenni ffeithiol arbennig a fydd yn cael eu comisiynu'n cynnwys *Shakespeare's Restless Years*, a gyflwynir gan Neil MacGregor sy'n edrych ar y byd drwy lygaid cynulleidfa Shakespeare drwy archwilio gwrthrychau o'r cyfnod cythryblus hwnnw.
- Byddwn yn ad-drefnu boreau Sadwrn, gan ymestyn hyd a lled *Saturday Live*.
- Byddwn yn lansio *The Listening Project*, partneriaeth hanes llafar uchelgeisiol gyda'r Llyfrgell Brydeinig a radio lleol.

## Datblygiadau gwasanaeth eraill

- Bydd ein dramâu uchelgeisiol yn cynnwys tymor o George Orwell ac un yn seiliedig ar nofelau Martin Beck a ysbrydolodd y don ddiweddar o awduron trosedd Sgandinafaidd.
- Bydd Radio 4 yn hyrwyddo diwylliant o berfformiadau byw drwy roi sylw eang i Ŵyl Caeredin a Gŵyl Lenyddiaeth Cheltenham.
- Byddwn yn adlewyrchu digwyddiadau sy'n dod â'r genedl at ei gilydd, gan ddarlledu rhaglenni am yr Olympiad Diwylliannol a rhaglenni perthnasol yn ymwneud â'r Gemau Olympaidd, y Jiwbilî Diemwnt a phen-blwydd y BBC yn 90 oed.
- Byddwn yn rhoi sylw cynhwysfawr i etholiadau arlywyddol UDA ac yn eu dadansoddi, ynghyd â sgyrsiau a darlleniadau.
- Byddwn yn parhau i feithrin Radio 4 Extra ar ôl ei lansio'n llwyddiannus, gydag amserlen gyflenwol, gan ei hyrwyddo i annog cynulleidfa Radio 4 i ddarganfod manteision gwrando digidol.
- Byddwn yn gwella darpariaeth ar-lein Radio 4, gan sicrhau bod mwy o'r archif cyfoethog ar gael i wrandawyr.

# BBC Radio 5 live

Mae BBC Radio 5 live yn darlledu newyddion a chwaraeon byw 24 awr y dydd, yn rhoi sylw i ddigwyddiadau wrth iddynt ddigwydd ac yn darparu cyd-destun drwy ddadansoddi a thrafod.

## Gweledigaeth y Rheolydd ar gyfer y gwasanaeth yn 2012/2013

Y Gemau Olympaidd a Pharalympaidd fydd uchafbwynt blwyddyn gyffrous ar 5 live a bydd yr orsaf yn dod â chyffro'r cystadlu a'r holl straeon newyddion cysylltiedig yn fyw i'r gwrandawyr. Dyma'r flwyddyn lawn gyntaf i 5 live ei threulio yn ei chartref newydd yn Salford Quays. Yn dilyn adolygiad o 5 live gan Ymddiriedolaeth y BBC, byddaf yn cryfhau ymrwymiad yr orsaf i newyddion wrth iddo dorri ac i newyddiaduraeth wreiddiol ynghyd â chynnal ein rôl fel hafan trafodaeth i'r DU i gyd. Byddwn yn parhau i ddefnyddio'r symud o Lundain fel cyfle i gynnwys mwy o straeon, lleisiau a safbwyntiau o bob rhan o'r DU. Byddwn yn cynnal cryfderau ein darpariaeth chwaraeon ac yn cyflwyno lleisiau newydd, yn benodol fel cyfranwyr a dadansoddwyr yn trafod y Gemau Olympaidd, ynghyd â chynyddu ein hymrwymiad i chwaraeon o bob math.

Byddwn yn parhau i fynd â 5 live at ein gwrandawyr, gan adeiladu ar lwyddiant trafodaethau cynulleidfa fawr y deuddeg mis diwethaf, sydd wedi trafod pynciau fel diweithdra a therfysgoedd Tottenham. Byddwn yn lansio digwyddiad arall ar yr orsaf ym mis Hydref yn Sheffield a byddwn yn manteisio ar bob cyfle i fynd â mwy o'n rhaglenni ar y lôn.

Byddwn yn parhau â'n hymrwymiad i ymdrin â'r economi fel mater allweddol sy'n effeithio'n uniongyrchol ar ein holl wrandawyr a byddwn yn chwilio am ffyrdd ffres o ddweud y stori. Rhan gydnabyddedig o lwyddiant 5 live yw ein perthynas uniongyrchol â'n cynulleidfa ar y ffôn, yr e-bost a thrwy'r cyfryngau cymdeithasol. Byddwn yn parhau i blethu sylwadau ein cynulleidfa drwy ein rhaglenni, er mwyn adlewyrchu profiadau, safbwyntiau a phryderon pobl.

Y llynedd, buom yn gweithio gyda'r nifer uchaf erioed o gynhyrchwyr radio annibynnol, yn enwedig yng ngogledd Lloegr. Byddwn yn parhau i ddatblygu cysylltiadau gyda'r sector annibynnol, gan elwa ar y syniadau a'r triniaethau newydd y maent yn eu cyfrannu at 5 live.

Byddwn yn parhau i feddwl yn greadigol am ddarparu newyddion a chwaraeon byw, gan weithio i bwysleisio ein profiad digyffelyb o ddarlledu newyddion wrth iddo dorri. Bydd 5 live hefyd yn dod o hyd i ffyrdd newydd o syfrdanu a herio ei chynulleidfa, gan feithrin partneriaethau hen a newydd o fewn a thu allan i'r BBC. Yn anad dim, 5 live fydd radio cartref digwyddiad mwyaf y flwyddyn a byddwn yn canolbwyntio ar bob eiliad allweddol o'r Gemau Olympaidd a Pharalympaidd.

**Adrian Van Klaveren, Rheolydd, BBC Radio 5 live**

## Datblygiadau nodedig yn y gwasanaeth yn ystod y flwyddyn nesaf

- Gweithredu'r argymhellion a wneir gan Ymddiriedolaeth y BBC yn yr adolygiad Trwydded Gwasanaeth.
- Sicrhau bod 75% o raglenni'r orsaf yn cael eu diffinio fel newyddion: (Llun-Iau: 0100-1900; 2230-0100; Gwener: 0100-1400; 1600-1900; 2200-0100; Sadwrn: 0100-0900; 2000-0100; Sul: 0100-0830; 0930-1100; 1900-0100).
- Bydd 5 live yn darlledu mwy o chwaraeon gwahanol yn fyw, gan roi sylw i Bêl-droed, Pêl-droed Menywod, Rygbi'r Undeb, Rygbi'r Gynghrair, Criced, Golff, Tennis, Athletau, Chwaraeon Paralympaidd, Formula 1, Bocsio, Rasio Ceffylau, Nofio, Seiclo, Rhwyfo, Pêl-droed Americanaidd, Moto GP, Pêl Fas, Treiathlon a Phêl Fasged.

## Datblygiadau gwasanaeth eraill

- Bydd y paratoadau a'r sylw a roddir i Jiwbilî Diemwnt y Frenhines, y Gemau Olympaidd a Pharalympaidd yn ffocws i weithgarwch yr orsaf yn y flwyddyn nesaf.
- Fel rhan o'r newidiadau a wnaed i gynigion *Rhoi Ansawdd yn Gyntaf* drwy'r ymgynghoriad cyhoeddus, bydd y rhaglen *5 live Investigates* yn symud i slot mwy poblogaidd ar fore Sul.

# BBC Radio 5 live sports extra

Rhwydwaith rhan-amser yw BBC Radio 5 live sports extra sy'n darparu rhaglenni chwaraeon ychwanegol drwy ddefnyddio hawliau sydd eisoes yn eiddo i'r BBC, gan ddarparu gwell gwerth i dalwyr ffi'r drwydded.

## Gweledigaeth y Rheolydd ar gyfer y gwasanaeth yn 2012/2013

Fy uchelgais yw i Radio 5 live sports extra barhau i gyfrannu at gynyddu cynulleidfa radio digidol drwy gynnig mwy o ddewis ac amrywiaeth ehangach o chwaraeon byw i ddilynwyr chwaraeon. Bydd Sports extra yn parhau i fod yn gartref i'r sylwebaeth griced orau, o Test Match Special i griced undydd, gan fanteisio ar ein tîm o sylwebwyr a chrynhowyr arobryn heb eu hail.

Yn ystod y Gemau Olympaidd, bydd yr orsaf yn canolbwyntio ar gemau criced, golff a rygbi'r gynghrair, gan sicrhau bod cefnogwyr yn gallu parhau i fwynhau'r campau hyn yn ystod y digwyddiad. Yna, bydd Sports Extra yn rhoi sylw sylweddol i'r Gemau Paralympaidd. Yn dilyn adolygiad Ymddiriedolaeth y BBC, bydd Sports Extra yn adeiladu ar ei ymrwymiad i ddarlledu gemau eilaidd a chwaraeon lleiafrifol, gan gynnwys chwaraeon y Gemau Olympaidd yn benodol. Byddwn yn meithrin doniau newydd mewn perthynas â darlledu'r chwaraeon hyn sy'n cael llai o sylw fel arfer.

Byddwn hefyd yn ceisio sicrhau bod gwrandawyr yn cael mwynhau hawliau chwaraeon y BBC i'r eithaf - o bêl-droed i dennis i golff. Cafwyd sawl achlysur yn y flwyddyn ddiwethaf lle y bu i Sports Extra helpu gwrandawyr a fethodd y sylw a roddwyd i ddigwyddiadau chwaraeon dros nos, gan sicrhau eu bod yn clywed yr eiliadau tyngedfennol drwy ddarlledu dolen o uchafbwyntiau. Byddwn yn parhau i geisio cynnig detholiad mor eang â phosibl o sylw chwaraeon pur i ddilynwyr chwaraeon.

**Adrian Van Klaveren, Rheolydd, BBC Radio 5 live sports extra**

## Datblygiadau nodedig yn y gwasanaeth yn ystod y flwyddyn nesaf

- Byddwn yn rhoi sylw i fwy o chwaraeon amrywiol ar sports extra.
- Bydd 5 live sports extra yn canolbwyntio ar sicrhau bod sylw yn cael ei roi i griced ochr yn ochr ag ymrwymiadau'r orsaf a 5 live i'r Gemau Olympaidd a Pharalympaidd.

# BBC Radio 1Xtra

Mae BBC 1Xtra yn chwarae'r gerddoriaeth ddu gyfoes orau, gyda phwyslais cryf ar ddarparu cerddoriaeth fyw o ansawdd uchel a chefnogi artistiaid newydd o'r DU.

## Gweledigaeth y Rheolydd ar gyfer y gwasanaeth yn 2012/2013

Yn chwarter olaf 2011, llwyddodd Radio 1Xtra i gyrraedd ei chynulleidfa fwyaf erioed, sef ychydig dros filiwn o wrandawyr yr wythnos. Fy uchelgais ar gyfer 2012 yw parhau i ymgysylltu â'r gwrandawyr hynny, ynghyd â cheisio denu cynulleidfaoedd newydd, gydag arlwy o gerddoriaeth a rhaglenni unigryw.

Bydd hyn yn cael ei lywio gan yr Academi unigryw y byddwn yn ei sefydlu cyn Penwythnos Hackney Radio 1. Gobeithiaf y bydd hyn yn annog pobl ifanc yn yr ardal - nid oes gan lawer ohonynt fawr ddim cysylltiad â'r BBC, os o gwbl, - i gael eu hysbrydoli a dathlu eu cyflawniadau. Rydym yn bwriadu cynnig cam cyntaf ac opsiynau ymarferol i bobl ifanc ar sut i gyflawni eu hamcanion, gyda'r nod o sicrhau bod ei etifeddiaeth yn parhau y tu hwnt i'r digwyddiad ei hun. Ar yr un pryd, dylai helpu'r BBC i ddysgu ffyrdd newydd o gyfathrebu â'i chynulleidfa.

Rwy'n edrych ymlaen hefyd at 1Extra Live, a ddatblygodd yn daith pedair noson y llynedd a alluogodd i ni gyflwyno'n rhaglenni cerddoriaeth fyw i bob math o bobl ym mhob cwr o'r DU; ac eleni mae 1Xtra yn dathlu ei phen-blwydd yn 10 oed, a bydd ein dathliadau yn dod i benllanw gyda thaith i Garnifal Notting Hill ym mis Awst.

**Ben Cooper, Rheolydd, BBC Radio 1**

## Datblygiadau nodedig yn y gwasanaeth yn ystod y flwyddyn nesaf

- Bydd Academi Radio 1 a 1Xtra yn agor am dair wythnos ym mis Mehefin ac yn cynnig lle i bobl ifanc yn Hackney a'r cyffiniau gael eu hysbrydoli, ennill profiad ymarferol a rhannu syniadau. Bydd llawer o DJs a sioeau yn rhan o hyn ar yr awyr ac oddi ar yr awyr.
- Bydd Sarah Jane Crawford yn cyflwyno sioe brynhawn newydd o fis Ebrill ymlaen, gydag Adele Roberts yn ymuno â ni ar y penwythnos. Byddwn yn ceisio adnewyddu rhannau eraill o'r amserlen yn ddiweddarach yn 2012.
- Byddwn yn ceisio parhau â'n nosweithiau clwb unigryw dan-18 oed, drwy weithio gyda hyrwyddwyr profiadol i gynnig amgylchedd cyffrous a diogel i'n gwrandawyr ieuengaf ryngweithio gyda 1Xtra.

## Datblygiadau gwasanaeth eraill

- Bydd y gyfres 1Xtra Stories yn cynnig rhaglenni dogfen unigryw o bob math gan gynhyrchwyr mewnol ac annibynnol, gan gynnwys rhaglen a fydd yn gofyn a wnaeth cerddoriaeth rap ragweld y terfysg y llynedd a rhaglen dwy ran mewn cydweithrediad â Chymdeithas Radio'r Carchar sydd â'r nod o roi cipolwg ar realiti bywyd mewn carchar.
- Bydd cyfres o raglenni yn dathlu hanner can mlynedd ers annibyniaeth Jamaica ym mis Awst.
- Byddwn yn parhau i ddatblygu 1Xtra Live Lounge, gan roi cyfle i gynulleidfaoedd dydd wrando ar berfformiadau byw gan eu hoff artistiaid; ynghyd â chefnogi cerddoriaeth newydd o'r DU, gyda lle arbennig ar restr chwarae bob wythnos i berfformwyr lanlwytho eu cerddoriaeth drwy BBC Introducing.
- Bydd symud i stiwdios newydd pwrpasol yn Broadcasting House yn ein helpu i hwyluso twf cynnwys gweledol, gyda chynulleidfaoedd yn gallu gweld mwy o berfformiadau ac ymddangosiadau gwadd.

# BBC 6 Music

Nod BBC 6 Music yw difyrru pawb sydd wrth eu bodd â cherddoriaeth boblogaidd drwy gynnig y gerddoriaeth orau o archif sain y BBC ynghyd â chynnyrch newydd nad yw yn brif ffrwd, gyda newyddion a rhaglenni dogfen am gerddoriaeth.

## Gweledigaeth y Rheolydd ar gyfer y gwasanaeth yn 2012/2013

Fy uchelgais yw i BBC Radio 6 Music gynnal ei statws fel gwasanaeth unigryw tra'n cynyddu cynulleidfa'r orsaf. Bydd 6 Music yn parhau i gymryd camau i wireddu ei dyhead i fod yn orsaf radio hynod gymdeithasol ynghyd â chwarae rôl flaenllaw wrth ddatblygu radio digidol o ran DAB a thu hwnt, gyda phwyslais cynyddol ar wasanaethau dal i fyny.

Yn 2012/13 byddwn yn canolbwyntio ar godi ymwybyddiaeth y gynulleidfa - ymysg gwrandawyr a phobl nad ydynt yn wrandawyr - o holl gynnwys amrywiol amserlen 6 Music, er mwyn cynyddu perfformiad yr orsaf o ran cyrhaeddiad, ac oriau gwrando. Byddwn yn parhau i greu ymwybyddiaeth drwy weithgarwch rhwydweithio cymdeithasol wedi'i dargedu, ynghyd â thrwy gysylltiadau agosach â gwasanaethau eraill y BBC ac wrth iddynt hyrwyddo'i gilydd. Rhagwelwn gynnydd yn y gyfran o wrandawyr benywaidd sydd gan yr orsaf, tra'n cynnal cyfartaledd oedran y gynulleidfa (37 oed ar hyn o bryd).

Bydd presenoldeb 6 Music yn parhau i ddatblygu yn Salford. Bydd 6 Music yn parhau i gyfrannu at gynyddu'r canolbwynt doniau annibynnol yn Salford.

**Bob Shennan, Rheolydd, BBC 6Music**

## Datblygiadau nodedig yn y gwasanaeth yn ystod y flwyddyn nesaf

- Mwy o newidiadau i'r amserlen er mwyn ceisio cynyddu'r momentwm ar gyfer adegau allweddol yn y calendr golygyddol, gan adeiladu ar lwyddiant dathliadau pen-blwydd artistiaid misol cyn pen-blwydd 6 Music yn 10 oed yn 2011/12.
- Bydd ychwanegu Gilles Peterson at amserlen prynhawn Sadwrn yn ehangu'r cwmpas cerddorol, denu cynulleidfaoedd newydd, ac – ynghyd â bod y sioe yn dilyn *Funk & Soul* gyda Craig Charles – creu mwy o ddewis ar gyfer gwrandawyr.
- Byddwn yn canolbwyntio fwy ar gyfryngau cymdeithasol i greu sgwrs rhwng y rhwydwaith a darpar wrandawyr newydd sy'n ymestyn y tu hwnt i slotiau darlledu, drwy ddefnyddio sioeau *Now Playing* a *6 Music Celebrates*, ynghyd â chydgysylltu a defnyddio cyfryngau cymdeithasol yn well gyda rhaglenni prif ffrwd a'r penwythnos. Bydd *Now Playing* yn cydweithio â chyfryngau cymdeithasol amrywiol ac yn eu hadlewyrchu ar yr awyr drwy ddefnyddio cynnwys a awgrymir gan artistiaid a'r gynulleidfa.

## Datblygiadau gwasanaeth eraill

- Byddwn yn creu mwy o raglenni uchelgeisiol gydol y flwyddyn fel *Lauren Live at Maida Vale*, a *John Peel Lecture*.
- Byddwn yn manteisio ar gyfleoedd i gynyddu'r gynulleidfa a chynnwys unigryw ar ddyddiau Sadwrn.

# BBC Radio 4 Extra

Mae Radio 4 Extra yn darparu adloniant llafar, gan gynnwys rhaglenni comedi, nodwedd, drama a darlleniadau, ynghyd â rhaglenni ar gyfer plant. Mae'r rhan fwyaf o'r cynnyrch o archif y BBC, er bod y rhwydwaith yn comisiynu rhywfaint o gynnwys gwreiddiol hefyd.

## Gweledigaeth y Rheolydd ar gyfer y gwasanaeth yn 2012/2013

Byddwn yn adeiladu ar lwyddiant blwyddyn gyntaf Radio 4 Extra drwy gyfoethogi'r amserlen, gan ategu amserlen Radio 4 a datblygu ein strategaeth hyrwyddo i godi ymwybyddiaeth o'r orsaf.

Fel rhwydwaith adloniant archif yn bennaf, byddwn yn parhau i roi'r cyfle i wrandawyr fwynhau ffefrynnau hen a newydd - clasurol a chyfoes - o archifau'r BBC (o rwydweithiau a rhanbarthau eraill y BBC hefyd). Byddwn hefyd yn dod â chwa o awyr iach i'r amserlen drwy gomisiynu a chaffael rhaglenni newydd mewn genres poblogaidd i ategu'r archif, gan roi mwy o'r hyn y maent am ei glywed i'r gwrandawyr. Byddwn yn gweithio o fewn cyllideb gomisiynu lai heb aberthu ansawdd rhaglenni gwreiddiol.

**Gwyneth Williams, Rheolydd, Radio 4 Extra**

## Datblygiadau nodedig yn y gwasanaeth yn ystod y flwyddyn nesaf

- Bydd Radio 4 Extra yn curadu'r gorau o archif radio'r BBC drwy drefnu a phecynnu ei thymhorau ei hun, fel *Heroes*, sef detholiad o raglenni sy'n cydnabod cyfraniad angof pobl go iawn - unigolion a grwpiau - at ddigwyddiadau nodedig.
- Bydd y *4 O'Clock Show* a *Family Classics* yn parhau i ddarparu rhaglenni sy'n apelio at deuluoedd ac o fis Ebrill ymlaen byddwn yn cyflwyno detholiad penwythnos o'r *4 O'Clock Show*, yn ogystal â darlledu rhestr fer ac enillydd cystadleuaeth *500 Words* Radio 2.
- Bydd ei phresenoldeb mewn Gwyliau Comedi yn rhoi cyfle i Radio 4 Extra adlewyrchu doniau a chreadigrwydd o bob cwr o'r DU – Machynlleth 2012, Gŵyl Fringe Caeredin a Lerpwl 2012.

## Datblygiadau gwasanaeth eraill

- Bydd rhaglenni Radio 4 Extra yn cyfrannu at gynnwys ledled y BBC (e.e. pen-blwydd *Just a Minute*) a digwyddiadau cenedlaethol (e.e. y Jiwbilî Diemwnt a Phen-blwydd Shakespeare).
- Bydd Radio 4 Extra yn parhau i ail-becynnu'r archif gyda dychymyg, gan drefnu nosweithiau thema (e.e. *Clare in the Community*, *Count Arthur Strong*, *Ed Reardon*). Bydd cyfranogwyr yn y rhaglenni hyn yn cael eu cyfweld ochr yn ochr â detholiad o'r rhaglenni a bydd y nosweithiau thema yn cyd-fynd ag amserlen Radio 4 ar gyfer y cyfresi hyn.

# BBC Asian Network

Mae BBC Asian Network yn darparu rhaglenni llafar a cherddoriaeth sy'n apelio at Asiaid Prydain, gan ganolbwyntio ar newyddion a materion cyfoes. Mae'n darlledu yn Saesneg yn bennaf, ond mae'n cynnig rhai rhaglenni yn ieithoedd eraill De Asia.

## Gweledigaeth y Rheolydd ar gyfer y gwasanaeth yn 2012/2013

Bydd Asian Network yn wasanaeth llai yn 2012/13, ond bydd yn parhau i gynnig rhaglenni radio unigryw o safon uchel i wrandawyr Asiaidd y DU. Byddaf yn cyflwyno amserlen ddiwygiedig sy'n adeiladu ar gymeriad hynod unigryw y gwasanaeth ac sy'n sicrhau bod ein cynnwys amrywiol ar gael i fwy o wrandawyr. Bydd ein strategaeth o fod yn 'Ffrind i'r Teulu' yn parhau, gan ganolbwyntio ar gynnwys sy'n berthnasol i gymunedau Asiaidd Prydeinig a fydd yn parhau i gynyddu ei chyrhaeddiad a'i horiau gwrando. Fy uchelgais yw bod yn fwy unigryw drwy dywys BBC Asian Newtork i ganol cymunedau Asiaidd y DU gyda digwyddiadau allanol pwysig fel Melas gydol yr haf - a darllediadau allanol eraill. Byddaf yn dod â'r enwau a'r personoliaethau mwyaf i gartrefi gwrandawyr gydag ymgyrch farchnata 'Asian Stars' arbennig ym Mehefin a Gorffennaf a thrwy fwy o ddigwyddiadau Botwm Coch ac 'In Conversation' gydol y flwyddyn.

Bydd tîm newyddion Asian Network yn parhau i gyflwyno straeon newydd ac archwilio materion sy'n berthnasol i gymunedau Asiaidd y DU. Bydd y newyddiaduraeth wreiddiol hon yn cael ei lledaenu drwy holl wasanaethau newyddiadurol y BBC.

**Bob Shennan, Rheolydd, BBC Asian Network**

## Datblygiadau nodedig yn y gwasanaeth yn ystod y flwyddyn nesaf

- Byddwn yn adfywio'r amserlen i sicrhau hynodrwydd tra'n parhau i adlewyrchu'r strategaeth o fod yn 'ffrind i'r teulu' a dathlu'r gorau o ddiwylliant Asiaidd y DU.
- Byddwn yn rhoi llwyfan i newyddiaduraeth wreiddiol sy'n trafod straeon newydd a materion sy'n berthnasol i gymunedau Asiaidd y DU - gan sicrhau bod hyn ar gael i holl wasanaethau'r BBC.
- Ymgyrch 'Asian Stars': pedair wythnos o gyhoeddusrwydd sylweddol yn ystod yr haf yn amlygu personoliaethau ffilm, cerddoriaeth, comedi a chwaraeon o gymunedau De Asiaidd ledled y byd.

## Datblygiadau gwasanaeth eraill

- Byddwn yn rhoi sylw i ddigwyddiadau allanol, gan gynnwys Melas a sesiynau 'in conversation' gyda sêr mawr, gyda chymorth y Botwm Coch.
- Byddwn yn comisiynu prosiectau golygyddol sy'n ymchwilio i bynciau sy'n destun pryder penodol i gymunedau Asiaidd y DU, gan gynnwys coffáu 40 mlynedd ers alltudio'r 80,000 o Asiaid Indiaidd o Uganda (daeth 27,000 ohonynt i'r DU ac ailymweld â'r ymgyrch 'Get Healthy') flwyddyn yn ddiweddarach.
- Byddwn yn darlledu tymor o ddramâu gwreiddiol gyda rhai o actorion ac awduron Asiaidd enwocaf Prydain.

# BBC Ar-lein

Mae BBC Ar-lein yn darparu cynnwys ar-lein arloesol ac unigryw sy'n adlewyrchu ac yn ymestyn amrywiaeth gwasanaethau darlledu'r BBC.

## Gweledigaeth y Rheolydd ar gyfer y gwasanaeth yn 2012/2013

Mae Ebrill 2012 yn drobwynt hollbwysig i BBC Ar-lein mewn dwy ffordd allweddol. Yn gyntaf, rydym ni hanner ffordd drwy gynllun dwy flynedd i greu un gwasanaeth cydlynol yn seiliedig ar ddeg cynnyrch a gostwng ein cyllideb trwydded gwasanaeth 25% fel rhan o *Rhoi Ansawdd yn Gyntaf*. Yn ail, gan adeiladu ar sylfeini *Rhoi Ansawdd yn Gyntaf* ar gyfer BBC Ar-lein, bydd y gwasanaeth yn dechrau'r Strategaeth Cysylltiedig tair blynedd - gan greu darpariaeth fwy cyfannol sy'n ceisio integreiddio gwasanaethau BBC Ar-lein a Botwm Coch y BBC (yn amodol ar unrhyw gymeradwyaeth angenrheidiol gan yr Ymddiriedolaeth). Ein huchelgais yw creu un gwasanaeth o ddeg cynnyrch ar draws pedair sgrin. Ac yn drydydd, rydym ar ben ffordd i ddarparu profiad digidol heb ei ail o Gemau Olympaidd Llundain 2012.

Credwn y bydd ein Strategaeth Cysylltiedig yn gwneud rôl olygyddol y BBC yn y gofod digidol yn fwy cyfoethog, cydlynol ac unigryw nag erioed. Byddwn yn cyflawni'r weledigaeth drwy ganolbwyntio ar dair thema: cysylltiedig; wedi'i churadu; ac agored i bawb.

*Cysylltiedig:* Byddwn yn creu gwasanaeth ar sail cyfres o gynhyrchion sy'n gweithio fel cyfanwaith integredig - gan gyfuno fideo byw, dal i fyny ac archif, sain a thestun a phrofiadau rhyngweithiol a chyfranogol. Bydd ein cynhyrchion yn gweithio gyda'i gilydd o ran cynllunio a thechnoleg fel Un Gwasanaeth, yn cael ei gyflwyno'n gyson ar draws pedair sgrin.

*Wedi'i churadu:* Bydd strategaeth cysylltiedig lwyddiannus yn golygu cyflwyno ein cynnwys mewn ffyrdd newydd drwy guradu o safon gyda'r gorau yn y byd. Yn syml, mae hyn yn golygu hyrwyddo ac ymestyn teithiau cynulleidfaoedd a chreu gwasanaeth sy'n well wedi'i gyfuno nag y byddai fel gwasanaethau unigol - tebyg i amserlen ddigidol.

*Agored i bawb:* Cydnabod bod gan dalwyr ffi'r drwydded bob hawl i ddisgwyl i ni fod mor uchelgeisiol, agored a hygyrch yn y gofod digidol cysylltiedig ag yr oeddem yn y byd analog.

Credwn mai'r ffordd orau o wasanaethu'r cyhoedd yw drwy ddarparu mynediad rhydd ac agored i'r amrywiaeth ehangaf bosibl o gynnwys, a dylai'r BBC gefnogi datblygiad ecosystemau agored lle gall cyfryngau cysylltiedig a'r gofod cyhoeddus digidol ffynnu. Ni fyddwn yn eithrio neb.

***Andy Conroy, Rheolwr Cyffredinol BBC Ar-lein***

## Datblygiadau nodedig yn y gwasanaeth yn ystod y flwyddyn nesaf

- Darparu profiad digidol heb ei ail o Gemau Olympaidd Llundain 2012 i gynulleidfaoedd ar gyfryngau bwrdd gwaith, llechen a theledu cysylltiedig, gan greu etifeddiaeth dechnegol a golygyddol ar gyfer y gwasanaeth, ac ar gyfer chwaraeon yn benodol.
- Gwella ein presenoldeb ar wefannau a llwyfannau trydydd parti: lle'n dechnegol bosibl, sicrhau bod y gwasanaeth cyfan, gyda chynnwys a defnyddioldeb cyflawn, ar gael i gynulleidfaoedd ar lwyfannau trydydd parti. Er enghraifft, trwy lansio iPlayer ar Sky byddwn yn cynyddu mynediad ar y sgrin fwyaf yn y tŷ.
- Rhyddhau cam cyntaf y cynnyrch Gwybodaeth a Dysgu newydd a fydd yn uno cynnwys ffeithiol ac addysgol y BBC mewn un lle am y tro cyntaf.

## Datblygiadau gwasanaeth eraill

- Ychwanegu 'gwasanaeth byw gwell' ar ein gorsafoedd radio, gan ddefnyddio gwasanaethau digidol i gael y gorau o brofiadau byw.
- Lansio cymwysiadau ffôn symudol newydd ar gyfer Radio a Cherddoriaeth, gan wella mynediad i bobl yn unrhyw le.

- Datblygu mwy o gynnwys, eitemau gwell, ac elfennau personol ar gyfer e-bost a materion cymdeithasol o fewn cynnyrch Newyddion.
- Datblygu a threialu profiadau cysylltiedig i roi ffyrdd newydd i gynulleidfaoedd ymgysylltu â'n rhaglenni mwyaf wrth iddynt wylio – rhaglenni Plant, iPlayer a Radio a Cherddoriaeth.
- Cyflwyno sgiliau amserlennu newydd i'n cynhyrchion, pecynnu a rhoi wyneb newydd i'n cynnwys mewn ffyrdd newydd er mwyn ymestyn grym ein brandiau teledu a radio mwyaf a mynd â chynulleidfaoedd ar deithiau newydd ac annisgwyl.

# Botwm Coch y BBC

Mae Botwm Coch y BBC yn darparu gwasanaethau a chynnwys rhyngweithiol i wylwyr teledu digidol, gan gynnwys y wybodaeth a'r cynnwys diweddaraf gydol y dydd a'r nos, gan gynnwys newyddion, tywydd, dysgu, adloniant, rhaglenni rhyngweithiol a sylw i ddigwyddiadau mawr. Dylai hefyd fod yn bwynt mynediad a gwe-lywio i gynnwys teledu a radio anllinol y BBC.

## Gweledigaeth y Rheolydd ar gyfer y gwasanaeth yn 2012/2013

Mae Botwm Coch y BBC yn parhau i fod yn wasanaeth gwerthfawr, pellgyrhaeddol gan y BBC. Bydd fy mhrif ffocws ar newid y gwasanaeth darlledu yn unig yn ddarpariaeth IP-cysylltiedig a darlledu hybrid, a fydd yn gofyn am integreiddio ymhellach â BBC Ar-lein. Mae'r Newid i Ddigidol, dealltwriaeth gynyddol o'r cyfryngau a'r cynnydd cyflym yn nifer y setiau teledu cysylltiedig sy'n cael eu defnyddio, ynghyd â llwyddiant BBC iPlayer ar y dyfeisiau hyn, yn golygu mai eleni yw'r cyfle delfrydol i'r BBC lansio darpariaeth o'r fath.

Bydd y gwasanaeth botwm coch cysylltiedig yn defnyddio llwybr llywio traddodiadol y botwm coch i ddarparu detholiad ehangach a dyfnach o'n cynnwys i gynulleidfaoedd.

***Andy Conroy, Rheolwr Cyffredinol Botwm Coch y BBC***

## Datblygiadau nodedig yn y gwasanaeth yn ystod y flwyddyn nesaf

- Darparu arlwy Gelau Olympaidd Llundain 2012.
- Cau ffrydiau darlledu Botwm Coch ar loeren a chebl – gan sicrhau darpariaeth gyson o un ffrwd darlledu ledled llwyfannau teledu daearol, lloeren a chebl.
- Lansio darpariaeth darlledu/cysylltiedig hybrid yn ail hanner y flwyddyn.
- Integreiddio Botwm Coch y BBC ymhellach â BBC Ar-lein i ddarparu'r Strategaeth Cysylltiedig.

# Gorsafoedd Radio Lleol y BBC yn Lloegr

Gwasanaeth newyddion, gwybodaeth a thrafodaeth llafar yw Radio Lleol y BBC yn bennaf, gyda phwyslais cryf ar ryngweithio.

## Gweledigaeth y Rheolydd ar gyfer y gwasanaeth yn 2012/2013

Mae pwysigrwydd Radio Lleol y BBC fel llais ar gyfer cymunedau wedi cael llawer o sylw eleni. Wrth i orsafoedd masnachol fynd o nerth i nerth, mae radio llafar lleol byw sy'n galw penderfynwyr i gyfrif ac sy'n archwilio, datgelu, trafod a dathlu materion lleol, yn wasanaeth unigryw gan y BBC yn y rhan fwyaf o lefydd.

Rydym yn parhau i ymgysylltu'n gadarn, gyda'n cynulleidfa o 7.3 miliwn, sy'n cynyddu ychydig o flwyddyn i flwyddyn.

Mae ein hymrwymiad i newyddiaduraeth wreiddiol wedi'i gryfhau drwy benodi Gohebwyr Gwleidyddol mewn nifer o orsafoedd ac rydym wedi buddsoddi'n sylweddol mewn newyddiaduraeth wreiddiol a phrosiectau sy'n manteisio ar ein strwythur amlgyfrwng unigryw.

**David Holdsworth, Rheolydd, Rhanbarthau Lloegr**

## Datblygiadau nodedig yn y gwasanaeth yn ystod y flwyddyn nesaf

- Bydd Radio Lleol y BBC yn gweithredu cynlluniau a fydd yn gofyn am wneud arbedion rhwng nawr a 2016. Bydd hyn yn cael ei wneud yn bennaf drwy arbedion effeithlonrwydd a lleihau costau rheoli, gan rannu ychydig mwy o raglenni rhwng gorsafoedd.
- Byddwn yn parhau i flaenoriaethu buddsoddiad yn y cyfnodau Brecwast ac wedi hynny, gan dargedu'r rhaglenni hyn gyda gwell ymdrech newyddiadurol, prosiectau golygyddol allweddol a hyfforddiant pwrpasol.
- Bydd ein ffocws golygyddol yn parhau i ychwanegu dyfnder, hyd a lled a rhyngweithgarwch at straeon allweddol a byddwn yn rhoi sylw arbennig i'r economi, etholiadau mis Mai a'r cyfleoedd unigryw i roi sylw cadarn a lleol i Lundain 2012.

## Datblygiadau gwasanaeth eraill

- Byddwn yn ceisio adeiladu ar ein perthynas waith agosach â Radio Rhwydwaith a ddatblygwyd drwy brosiectau fel 'Your Desert Island Discs' a 'The Listening Project'.
- Eleni, byddwn yn gweithio ar greu darpariaeth fwy cyson yn seiliedig ar raglenni arbenigol – sef rhaglenni cerddoriaeth a lleiafrifol yn bennaf.

## Gorsafoedd Radio Lleol y BBC yn Lloegr

| | | | |
|---|---|---|---|
| BBC Radio Berkshire | BBC Guernsey | BBC Radio Manchester | BBC Somerset |
| BBC Radio Bristol | BBC Hereford & Worcester | BBC Radio Merseyside | BBC Radio Stoke |
| BBC Radio Cambridgeshire | BBC Humberside | BBC Newcastle | BBC Radio Suffolk |
| BBC Radio Cornwall | BBC Jersey | BBC Norfolk | BBC Sussex and Surrey |
| BBC Coventry & Warks | BBC Kent | BBC Radio Northampton | BBC Tees |
| BBC Radio Cumbria | BBC Radio Lancashire | BBC Radio Nottingham | BBC Three Counties Radio |
| BBC Radio Derby | BBC Radio Leeds | BBC Oxford | BBC Wiltshire |
| BBC Devon | BBC Radio Leicester | BBC Radio Sheffield | BBC WM |
| BBC Essex | BBC Lincolnshire | BBC Radio Shropshire | BBC Radio York |
| BBC Gloucestershire | BBC London | BBC Radio Solent | |

Yn ogystal â 39 gorsaf radio leol y BBC, mae'r BBC yn darparu gwasanaeth oriau cyfyngedig i gynulleidfaoedd yn Dorset (BBC Radio Solent for Dorset). Rhaglen ddydd Sadwrn yw hon ar hyn o bryd sy'n cymryd lle amserlen Radio Solent.

# BBC Radio Scotland

Gwasanaeth llafar yn bennaf i oedolion yw BBC Radio Scotland, yn cynnig amrywiaeth eang o genres ac yn adlewyrchu materion, digwyddiadau, diwylliant a diddordebau pobl yr Alban.

## Gweledigaeth y Cyfarwyddwr ar gyfer y gwasanaeth yn 2012/2013

Yn y flwyddyn 2012/2013, bydd BBC Radio Scotland yn parhau i ddatblygu ei hamserlen ar sail gwaith dadansoddi cynulleidfa'r orsaf ei hun ac argymhellion Adolygiad Gwasanaeth Ymddiriedolaeth y BBC. Bydd ymrwymiad cynyddol i raglenni llafar yn ystod y dydd a mwy o gerddoriaeth arbenigol fin nos. Dylai hyn roi cyfle i wrandawyr newydd ac achlysurol gael dealltwriaeth gliriach o ddarpariaeth yr orsaf. Dylai hefyd ostwng y gorgyffwrdd golygyddol gyda gorsafoedd eraill y BBC a gorsafoedd masnachol sydd ar gael i wrandawyr yn yr Alban.

Rwyf am gefnogi timau rhaglenni (mewnol ac annibynnol) sy’n ceisio bod yn arloesol ac yn uchelgeisiol yn greadigol. Byddwn yn cyflwyno fformatau newydd ac yn ailwampio fformatau cyfredol. Byddaf hefyd yn annog cynhyrchwyr a chyflwynwyr rhaglenni i wneud mwy i adlewyrchu amrywiaeth gymdeithasol, daearyddol ac ethnig yr Alban, tra’n parhau i ganolbwyntio’n gadarn ar y gynulleidfa darged o rieni a theuluoedd.

Bydd cyfleoedd i ddenu gwrandawyr drwy ddefnyddio dyfeisiau fel ffonau symudol a chyfrifiaduron llechen. Mae genres fel newyddion a chwaraeon eisoes yn denu cynulleidfa sylweddol ar lwyfannau digidol, ond byddaf yn annog ffyrdd newydd o feddwl mewn meysydd fel cerddoriaeth, comedi a manteisio ar yr archif.

**Ken MacQuarrie, Cyfarwyddwr, BBC Scotland**

## Datblygiadau nodedig yn y gwasanaeth yn ystod y flwyddyn nesaf

- Bydd rhifyn Sadwrn newydd o *Good Morning Scotland* yn cael ei lansio. Bydd yn rhan o’n dull o roi sylw i’r drafodaeth gyfansoddiadol.
- Bydd mwy o ffocws ar fwrlwm Cerddorfaol a Chlasurol yr Alban, sydd gyda’r gorau yn y byd.

## Datblygiadau gwasanaeth eraill

- Bydd BBC Radio Scotland yn darlledu’n fyw o’r Gemau Olympaidd yn Llundain.
- Bydd cyfres bellach o raglenni peilot comedi yn cael eu darlledu, gyda’r nod o ddod o hyd i gomedi sefyllfa deuluol i’w chomisiynu fel cyfres lawn.
- Bydd tymor arbennig o raglenni yn canolbwyntio ar yr heriau a’r cyfleoedd a ddaw i ran pobl ganol oed.
- Bydd cyfres ddrama newydd yn ailadrodd hanes Jekyll & Hyde mewn lleoliad cyfoes.
- Bydd cyfres ffeithiol yn archwilio hanes cenedlaetholdeb yn yr Alban.

# BBC Radio nan Gàidheal

Mae Radio nan Gàidheal yn wasanaeth llafar a cherddoriaeth ar gyfer siaradwyr Gaeleg, gan gynnig amrywiaeth eang o genres ac adlewyrchu pynciau llosg, digwyddiadau, diwylliant a diddordebau pobl yr Alban.

## Gweledigaeth y Cyfarwyddwr ar gyfer y gwasanaeth yn 2012/2013

Yn ystod y flwyddyn nesaf bydd Radio nan Gàidheal yn parhau i wasanaethu ei chynulleidfa drwy ei rôl unigryw fel canolbwynt byd-eang ar gyfer yr Aeleg lle gellir siarad a chlywed yr iaith bob dydd.

Bydd Radio nan Gàidheal yn cynnig rhaglenni sy'n helpu gwrandawyr i sefydlu eu cysylltiadau eu hunain â'r digwyddiadau arbennig sy'n gysylltiedig â'r flwyddyn hon o ddathliadau cenedlaethol. Bydd hefyd yn parhau i adlewyrchu diddordeb y gynulleidfa mewn digwyddiadau llawr gwlad yn eu cymunedau eu hunain.

Mae 2013 yn ben-blwydd pwysig i'r cysylltiadau rhwng St Columba ac ynys Iona, a byddwn yn archwilio'r cysylltiadau hyn mewn rhaglenni newydd, pwrpasol ynghyd â thrwy ddeunydd o'r archif.

Bydd cryfhau a datblygu partneriaethau cyfredol er budd y gynulleidfa yn parhau'n flaenoriaeth.

Bydd Radio nan Gàidheal yn archwilio ffyrdd o ddatblygu rhaglenni comedi, gan adeiladu ar lwyddiant y sioe banel ddychanol *Dè do Naidheachd*. Bydd datblygiad o'r fath o fudd i gynulleidfaoedd a doniau ysgrifennu.

**Ken MacQuarrie, Cyfarwyddwr, BBC Scotland**

## Datblygiadau nodedig yn y gwasanaeth yn ystod y flwyddyn nesaf

- Drwy ei rhaglenni newyddion ac amserol dyddiol, bydd Radio nan Gàidheal yn rhoi sylw i'r materion a'r trafodaethau sy'n ganolog i etholiadau llywodraeth leol yr Alban yn y gwanwyn.
- Bydd Radio nan Gàidheal yn ategu rhaglenni eraill y BBC drwy gynnig rhaglenni arbennig ar gyfer ei chynulleidfa i nodi dathliadau mawr eleni, gan gynnwys Jiwbilî Diemwnt y Frenhines a'r Gemau Olympaidd.

## Datblygiadau gwasanaeth eraill

- Bydd ein ffocws ar lenyddiaeth yn rhoi cyfle i archwilio gwaith doniau ysgrifennu Gaeleg allweddol.
- Bydd drama ieuenctid yn cael ei chynnwys yn yr amserlen, gyda drama unigol yn cael ei chynhyrchu mewn partneriaeth ag awdur ifanc ac MG ALBA.

# BBC Alba

Mae BBC Alba yn cynnig rhaglenni gwreiddiol unigryw i siaradwyr a dysgwyr Gaeleg sy'n adlewyrchu a chefnogi diwylliant, hunaniaeth a threftadaeth yr Aeleg.

## Gweledigaeth y Cyfarwyddwr ar gyfer y gwasanaeth yn 2012/2013

Bydd BBC Alba, a ddarperir mewn partneriaeth rhwng y BBC a MG ALBA, yn parhau i adlewyrchu diwylliant Gaeleg traddodiadol a chyfoes. Mae effaith gadarnhaol BBC Alba ar Freeview a chebl ar ei chynulleidfa yn 2011 yn dangos bod llawer o alw am y sianel, sy'n cyrraedd ymhell y tu hwnt i'w chynulleidfa graidd o siaradwyr Gaeleg. Felly, bydd BBC Alba yn ceisio gwasanaethu dysgwyr a siaradwyr Gaeleg rhugl, gan ddarparu gwasanaeth credadwy, priodol a pherthnasol; bydd hefyd yn ceisio cyrraedd pobl nad ydynt yn siarad Gaeleg, gan ddarparu cynnwys i gynulleidfaoedd a chymunedau sydd â diddordeb yn yr Alban a gweddill y DU sy'n cynnig darpariaeth unigryw ac amgen.

Fel rhan o bortffolio gwasanaethau BBC Scotland, bydd ei chynnwys yn unigryw yn ddiwylliannol ac yn sicrhau gwerth ychwanegol i gynulleidfaoedd.

**Ken MacQuarrie, Cyfarwyddwr, BBC Scotland**

## Datblygiadau nodedig yn y gwasanaeth yn ystod y flwyddyn nesaf

- Bydd *An La*, y rhaglen newyddion fin nos, yn darlledu adroddiadau dyddiol ac yn dadansoddi materion lleol, cenedlaethol a rhyngwladol, ynghyd â rhoi sylw helaeth i ddigwyddiadau allweddol fel etholiadau cynghorau lleol, y Gemau Olympaidd a chanlyniadau cyfrifiad 2011.
- Bydd rhaglenni dogfen arsylwadol yn cynnig ffenestr i fywyd cyfoes yn yr Alban. Bydd y rhain yn cynnwys *Mnathan Glùine* / *Midwives* and *Bethesda Hospice*, ochr yn ochr â'r gyfres ddogfen unigol *Trusadh / Gathering*.

## Datblygiadau gwasanaeth eraill

- Bydd y wefan dysgu Gaeleg learngaelic.net yn canolbwyntio ar gyfer datblygu adnoddau dysgu newydd mewn partneriaeth rhwng y BBC, MG ALBA a rhanddeiliaid allweddol fel Bòrd na Gàudhlig a Phrifysgolion a Cholegau'r Alban.
- Bydd darllediadau byw o gystadleuaeth Rygbi Pro 12 a phêl-droed o Uwchgynghrair yr Alban, ynghyd â sylw i gemau cwpan a chynghrair pwysig Shinty yn ystod tymor 2012.
- Bydd cefnogaeth i blant sy'n siarad Gaeleg drwy gyfleoedd dysgu anffurfiol yn yr amserlen cyn-ysgol reolaidd a chyda chyfresi newydd fel *Dè a-nis?* a *Gleusta*.
- Bydd y gyfres materion cyfoes Ewropeaidd *Eòrpa*, y gyfres rhaglenni dogfen *Soillse* a chynllun cyfnewid rhaglenni arloesol World Indigenous Television Network (WITBN) yn rhoi darlun eang i wylwyr ar faterion y byd.

# BBC Radio Wales

Gwasanaeth llafar yn bennaf i oedolion yw BBC Radio Wales sy'n cynnig amrywiaeth eang o raglenni gan adlewyrchu pynciau llosg, digwyddiadau, diwylliant a diddordebau pobl Cymru.

## Gweledigaeth y Golygydd ar gyfer y gwasanaeth yn 2012/2013

Fy uchelgais yw gweld BBC Radio Wales yn dangos ein hymrwymiad i radio apelgar a pherthnasol yn ystod y deuddeg mis nesaf i bobl sydd â diddordeb ym mywyd a materion Cymru drwy amserlen ddiwygiedig yn ystod yr wythnos ac ar ddydd Sul. Yn benodol, bydd rhaglenni newydd Jason Mohammad a Louise Elliott yn ystod yr wythnos yn cryfhau'r elfen newyddiadurol drwy'r orsaf ac yn rhoi'r cyfle i wrandawyr glywed gan benderfynwyr Cymru a hyrwyddo celfyddydau, adloniant a diwylliant Cymru.

Bydd yr orsaf yn ail-fuddsoddi mewn newyddiaduraeth ddefnyddwyr ac yn cynyddu ei phresenoldeb yn y Gogledd a'r Gorllewin, yn unol ag argymhellion adroddiad Ymddiriedolaeth y BBC ar gyfer yr orsaf yn 2011. Bydd yn gwneud hyn ochr yn ochr â sicrhau'r arbedion a nodwyd yn Rhoi Ansawdd yn Gyntaf.

Mae'r orsaf yn bwriadu darparu rhaglenni uchelgeisiol yn ystod yr wythnos a fydd yn adeiladu ar fentrau yn 2011/12 fel Learning Lessons – tymor a archwiliodd y dirywiad mewn safonau academaidd yng Nghymru – a'i diwrnod gyda Cherddorfa Genedlaethol Gymreig y BBC a ddechreuodd ein sylw blynyddol o Bencampwriaeth y Chwe Gwlad.

Ym mlwyddyn y Gemau Olympaidd, byddwn yn adrodd stori Gymreig Llundain 2012, gan gynnwys rhoi sylw i'r Gemau a dilyn y Fflam Olympaidd ar ei thaith chwe diwrnod drwy Gymru. Bydd yr orsaf yn parhau i feithrin doniau newydd o Gymru drwy gerddoriaeth a chomedi, gan gynnwys penwythnos Gŵyl Gomedi Machynlleth.

**Steve Austins, Golygydd, Radio Wales**

## Datblygiadau nodedig yn y gwasanaeth yn ystod y flwyddyn nesaf

- Byddwn yn ymestyn *Good Morning Wales* i slot 6am-10am newydd, a fydd yn cynnwys rhaglen ffonio i mewn ddyddiol yr orsaf.
- Byddwn yn cyflwyno dwy raglen newydd yn ystod y dydd – yn cael eu cyflwyno gan Jason Mohammad am 10am a Lousie Elliott am 1pm – a fydd yn pwysleisio'n huchelgais i ganolbwyntio'n fwy cadarn ar newyddiaduraeth a diwylliant yn ystod y dydd.
- Bydd dau o gyflwynwyr mwyaf poblogaidd yr orsaf, Roy Noble a Jamie Owen, yn symud i slotiau oriau brig newydd ar ddydd Sul er mwyn cynyddu nifer y gwrandawyr.

## Datblygiadau gwasanaeth eraill

- Byddwn yn ceisio creu swyddi cynhyrchu ym Mangor a Chaerfyrddin er mwyn parhau i wella ein sylw i Gymru gyfan.
- Bydd BBC Radio Wales yn adrodd stori Gymreig Llundain 2012, gan ganolbwyntio ar athletwyr o Gymru yn eu paratoadau ar gyfer y Gemau, sylw helaeth i daith y Fflam Olympaidd a bydd gohebwyr y tu allan a thu mewn i'r Parc Olympaidd yn Llundain yn ystod y Gemau Olympaidd a Pharalympaidd.

# BBC Radio Cymru

Gwasanaeth radio llafar a cherddoriaeth i siaradwyr Cymraeg yw Radio Cymru ac mae'n cynnig amrywiaeth eang o genres ac yn adlewyrchu pynciau llosg, digwyddiadau, diwylliant a diddordebau pobl Cymru.

## Gweledigaeth y Golygydd ar gyfer y gwasanaeth yn 2012/2013

Fy uchelgais yw i Radio Cymru barhau i fod yr orsaf fwyaf poblogaidd ymysg siaradwyr Cymraeg, a chynyddu cyrhaeddiad ac uchelgais y gwasanaeth wrth ail-lansio'r amserlen ym mis Hydref. Byddwn yn ail-fuddsoddi mewn rhaglenni yn ystod y dydd.

Bydd yr orsaf yn parhau i ddarparu gwasanaeth unigryw o ansawdd uchel ar gyfer ein cynulleidfaoedd gyda phob math o raglenni deniadol a pherthnasol i siaradwyr Cymraeg ble bynnag maent yn byw.

Bydd newyddiaduraeth o ansawdd uchel gydol y dydd yn parhau'n flaenoriaeth. Byddwn yn adolygu ein rhaglen newyddion flaenllaw er mwyn ceisio cyflwyno mwy o straeon gwreiddiol o Gymru tra'n parhau i roi sylw i straeon rhyngwladol o safbwynt Cymru.

Byddwn yn darlledu'n eang o'r Gemau Olympaidd a Pharalympaidd ac yn dilyn y Fflam wrth iddi deithio o gwmpas Cymru. Bydd Radio Cymru yn parhau i hyrwyddo a chynnig llwyfan i gerddoriaeth a diwylliant Cymraeg hefyd, gan gynnwys darlledu o ddigwyddiadau pwysig fel yr Eisteddfodau Cenedlaethol a'r Sioe Fawr.

Rwyf am i Radio Cymru fod yr orsaf sy'n uno siaradwyr Cymraeg gyda chynnwys difyr, llawn gwybodaeth sy'n gwneud ei farc.

**Siân Gwynedd, Pennaeth Rhaglenni a Gwasanaethau Cymraeg, BBC Cymru Wales**

## Datblygiadau nodedig yn y gwasanaeth yn ystod y flwyddyn nesaf

- Ym mis Hydref, byddwn yn lansio ein hamserlen newydd. Byddwn yn lansio rhaglenni dyddiol newydd a fydd yn cael eu cynhyrchu a'u cyflwyno yn y De-orllewin. Bydd nifer y rhaglenni min nos yn gostwng wrth i ni ddechrau cyflawni ein targed arbedion yn ôl Rhoi Ansawdd yn Gyntaf, ond byddwn yn ail-fuddsoddi mewn cynnyrch craidd yn ystod oriau brig. Byddwn yn cadw'r amrywiaeth gyfoethog o wahanol genres a bydd Radio Cymru yn parhau i adlewyrchu amrywiaeth bywyd drwy gyfrwng y Gymraeg.
- Byddwn yn rhoi sylw eang i'r Gemau Olympaidd a Pharalympaidd a thaith y Fflam Olympaidd. Byddwn yn dilyn teithiau cystadleuwyr o Gymru wrth iddynt baratoi a chystadlu yn y gemau. Wrth i'r Fflam Olympaidd deithio o Fôn i Fynwy, byddwn yn adrodd straeon rhai o'r rhai sy'n cymryd rhan mewn rhaglenni ychwanegol.

## Datblygiadau gwasanaeth eraill

- Byddwn yn rhoi sylw cynhwysfawr i etholiadau Lleol Cymru ym mis Mai ac yn hysbysu ein cynulleidfaoedd am y materion allweddol sydd yn y fantol.
- Byddwn yn parhau i gefnogi a datblygu rhagoriaeth artistig a doniau newydd yng Nghymru. Bydd cerddorion ifanc yn gallu cystadlu ym Mrwydr y Bandiau. Bydd grwpiau a pherfformwyr sydd wedi ennill eu plwyf yn parhau i dderbyn eich cefnogaeth drwy sesiynau a pherfformiadau byw, tra byddwn yn comisiynu doniau ysgrifennu newydd i greu rhaglenni drama a chomedi newydd.

# BBC Radio Ulster/Foyle

Gwasanaeth llafar yn bennaf yw Radio Ulster/Foyle sy'n cwmpasu amrywiaeth eang o genres ac yn adlewyrchu pob agwedd ar fywyd cyfoes yng Ngogledd Iwerddon, gan gyfuno sylw i faterion, diddordebau a digwyddiadau lleol a sylw hefyd i ddatblygiadau cenedlaethol a rhyngwladol.

## Gweledigaeth y Golygydd ar gyfer y gwasanaeth yn 2012/2013

BBC Radio Ulster/Foyle yw'r orsaf radio fwyaf poblogaidd yng Ngogledd Iwerddon. Mae cynnal ei chyrhaeddiad, ei hapêl a dyfnder ei chysylltiad â chynulleidfaoedd lleol yn flaenoriaethau allweddol ar gyfer y flwyddyn nesaf.

Mae ein rhaglenni yn arddangos doniau a syniadau newydd, yn fforwm ar gyfer trafodaeth ac yn ffynhonnell newyddion a gwybodaeth awdurdodol. Mae lleisiau, straeon ac amrywiaeth leol yn frith yn ein rhaglenni. Fy uchelgais yw datblygu rôl BBC Radio Ulster/Foyle fel man cyfarfod ar yr awyr a chanfod ffyrdd o ymestyn ein perthynas ymhellach gyda chymunedau ledled Gogledd Iwerddon.

Dylai uchelgais olygyddol, arloesedd ac ymrwymiad i ragoriaeth greadigol fod yn nodweddion sy'n diffinio popeth a wnawn. Yn ystod y flwyddyn nesaf, rwyf am sicrhau ein bod yn parhau i adfywio a datblygu ein rhaglenni - gan roi cynnig ar ddulliau a fformatau newydd a manteisio i'r eithaf ar ddoniau cynhyrchu a chyflwyno. Mae'r gymdeithas ehangach yn newid a bydd angen i ni fod yn ymwybodol o'r datblygiadau hyn a'u hadlewyrchu.

Yn ystod y flwyddyn nesaf, rwyf am sicrhau bod rhaglenni BBC Radio Ulster/Foyle yn cael eu nodweddu gan amrywiaeth a dilysrwydd o ran lleisiau; arloesedd ac adfywio; egluro a dadansoddi; uniongyrchedd ac effaith; a'n bod yn parhau i ddarparu rhaglenni y mae gwrandawyr yn eu mwynhau, ac yn parhau i gyfrannu atynt, yn yr amserlen drwyddi draw. Rwyf am i BBC Radio Ulster/Foyle fod yn wasanaeth sy'n helpu i wneud i bethau gwych ddigwydd, ac sy'n gweddnewid bywydau - gan hysbysu, addysgu a diddanu er budd pawb. Dylai'r gymuned droi at yr orsaf hon am newyddion difrifol, yn ogystal ag ar gyfer hiwmor, i ddianc ac i ddathlu.

**Fergus Keeling, Pennaeth Radio, BBC Northern Ireland**

## Datblygiadau nodedig yn y gwasanaeth yn ystod y flwyddyn nesaf

- Byddwn yn adlewyrchu pob elfen o fywyd gwledig mewn portffolio amrywiol ac uchelgeisiol o raglenni, fel rhan o *Farm Week*.
- Byddwn yn rhoi sylw helaeth i ddigwyddiadau dinesig a chymunedol sy'n gysylltiedig â chanmlwyddiant suddo'r Titanic, Gemau Olympaidd 2012 a rôl Derry - Londonderry fel Dinas Diwylliant y DU.
- Byddwn yn cyflwyno fformatau a mentrau rhaglenni newydd, gan geisio cynnal amrywiaeth, arbenigedd ac apêl eang BBC Radio Ulster/Foyle mewn amgylchedd sy'n newid yn gyflym.

## Datblygiadau gwasanaeth eraill

- Byddwn yn arddangos doniau cerddorol lleol mewn cyngerdd arbennig i ddathlu 150 mlynedd o Neuadd Ulster ym Melfast.
- Byddwn yn ceisio datblygu ein hymrwymiad i raglenni comedi, drama a rhaglenni dogfen lleol a chynyddu cyfranogiad y gynulleidfa yn ein gwaith drwy ddefnyddio cyfryngau cymdeithasol yn fwy effeithiol.
- Byddwn yn cyflwyno rhaglenni newydd sy'n canolbwyntio ar faterion busnes ac economaidd.